



UK Government

STRATEGAETH DDIWYDIANNOL FODERN Y DU

CP 1337



GREAT 
BRITAIN & NORTHERN IRELAND

The logo for Great Britain and Northern Ireland, featuring a stylized Union Jack flag in white and red on a red background. The word "GREAT" is in white, and "BRITAIN & NORTHERN IRELAND" is in white below it.



STRATEGAETH DDIWYDIANNOL FODERN Y DU

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes
a Masnach trwy orchymyn
Adran Busnes a Masnach Ei Fawrhydi

Mehefin 2025



© Hawlfraint y Goron 2025

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu'n unol â thelerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth sydd o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn enquiries@businessandtrade.gov.uk

ISBN 978-1-5286-5834-8

E03387012 06/25

Argraffwyd ar bapur â lleiafswm cynnwys 40% o ffibr wedi ei ailgylchu.

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi.

Cynnwys

7

Rhagair

10

Crynodeb Gweithredol

16

Cyflwyniad

26

Hwylustod, cyflymder a sefydlogrwydd hirdymor i fusnes

94

Cefnogi dinas-ranbarthau a chlystyrau'r DU

114

Cefnogi ein diwydiannau ffiniol

146

Creu partneriaeth barhaol â busnes.

Rhagair



Y Gwir Anrhydeddus Keir Starmer KCB KC AS
Prif Weinidog



Y Gwir Anrhydeddus Rachel Reeves AS
Canghellor y Trysorlys



Y Gwir Anrhydeddus Jonathan Reynolds AS
Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes a Masnach a Llywydd y Bwrdd Masnach

Mae'r byd mewn cyfnod newydd. Mae'n fwy ansefydlog, gyda bygythiadau newydd i'n diogelwch a'n safonau byw. Ond mae hefyd yn fyd o bosibiliadau enfawr a chyffrous. Mae datblygiadau technolegol mewn Gwyddorau Bywyd, Ynni Glân, a Deallusrwydd Artiffisial yn ail-lunio ein heconomi yn llwyr, gyda'r posibilrwydd y bydd datblygiadau enfawr yn ein cynhyrchiant a'n ffordd o fyw. Mae'r DU mewn sefyllfa dda i fanteisio ar hyn. Rydym yn agored, entrepreneuriaidd ac - fel y dengys cytundebau diweddar - yn hyrwyddwr balch masnach fyd-eang. Mae ein diwydiant cyllid, prifysgolion a sefydliadau gwyddonol yn arwain y byd. Ac, ar ôl adfer ein statws rhyngwladol, rydym bellach yn cynnig sefydlogrwydd gwleidyddol i fuddsoddwyr yn y byd ansicr sydd ohoni.

Trwy ein Cynllun ar gyfer Newid, mae'r Llywodraeth yn benderfynol o fanteisio ar y cyfleoedd y mae'r byd newydd hwn yn eu cynnig i sicrhau diogelwch, adnewyddiad a safonau byw uwch ledled y wlad. Ni fydd busnes fel arfer yn gweithio. Mae angen perthynas newydd rhwng busnes a Llywodraeth, lle mae'r Llywodraeth yn darparu'r sicrwydd strategol sy'n caniatáu i fusnesau wneud yr hyn maen nhw'n ei wneud orau: creu cyfoeth. Mae hyn yn gofyn am ymagwedd fwy cyhyrog at lywodraeth: un sy'n barod i gefnogi busnesau Prydain, buddsoddi yn ein mantais gymharol, a mynd amdani'n


egniol i sicrhau twf a chynhyrchiant. Ac mae'r Llywodraeth hon yn deall pwysigrwydd ystwythder a menter; er mwyn holi'n barhaus a yw rheoliadau'n rhwystro'r amodau i Brydain ffynnu. Ers yn rhy hir mae Prydain yn wlad sydd, yn baradocsaid, yn sefyll yn ôl ac yn ymyrryd yn ormodol. Pan effeithiwyd ar ein diwydiannau gan newidiadau, gadawyd gormod o bobl a chymunedau i ofalu amdanynt eu hunain, a'r Llywodraeth heb ddiddordeb mewn darparu pont i'r dyfodol. Ond yn yr un modd, pan fydd cyfleoedd newydd yn dod i'r amlwg, mae gan Brydain, yn aml, ormod o reoliadau i fanteisio arnynt, neu mae'n rhy ofalus i newid cwrs. Y canlyniad yw gwladwriaeth sy'n ormesol ac yn wanlyd, yn gwasanaethu'n wael economi sydd wedi dod yn rhy ddibynnol ar un lle, yn rhy agored i anwadalrwydd byd-eang ac yn rhy araf i fanteisio ar drawsnewidiadau fel y symud i ynni glân cartref.

Mae ein Strategaeth Ddiwydiannol fodern yn darparu dull newydd ar gyfer cyfnod newydd. Mae'n gadarn, yn strategol, ac yn falch o feddwl yn hirdymor: cynllun 10 mlynedd i wneud y DU y wlad orau i fuddsoddi ynddi unrhyw le yn y byd. Gan adeiladu ar *Invest 2035*, y Papur Gwyrdd a gyhoeddwyd fis Hydref diwethaf, mae hefyd yn gynllun a anwyd o bartneriaeth. Rydym wedi edrych ar bob agwedd ar yr amgylchedd busnes i'w gwneud hi'n haws ac yn gyflymach i fusnesau twf uchel fuddsoddi. Rydym wedi edrych ar y lleoedd ledled y DU lle mae'r sectorau hyn wedi'u crynhoi ac wedi nodi sut i ddatgloi eu potensial. Rydym wedi edrych ar y dirwedd ryngwladol i ddod o hyd i'r cyfleoedd masnachu mwyaf arwyddocaol y gallwn fanteisio arnynt. Ac rydym wedi edrych ar lywodraeth ei hun, i wneud y wladwriaeth y partner gorau posibl ar gyfer symbylu cymorth menter.

Mewn gair, mae'n golygu dim llai nag ymdrech Llywodraeth gyfan, gyda chynlluniau uchelgeisiol ar gyfer wyth sector twf uchel. Mae'r sectorau hyn wedi'u nodi yn rhai sydd yn y sefyllfa orau i greu'r cyfoeth, y swyddi, a'r cyflogau uwch sydd eu hangen ar ein gwlad ym mhob cymuned. **Mae eu llwyddiant yn hollol hanfodol ar gyfer cyflawni ein Cynllun ar gyfer Newid.** Mae'r ddogfen hon yn nodi'r cymorth y byddwn yn ei ddarparu.

Trwy gydol y broses hon, mae busnesau, undebau llafur, a rhanddeiliaid eraill wedi ymgysylltu â phob cam o'r ffordd ac rydym yn ddiolchgar am eu partneriaeth. Nawr, gyda'n gilydd, gallwn adeiladu'r wlad falch, fedrus iawn, economaidd fywiog a thecach y mae pobl sy'n gweithio am ei gweld. Strategaeth Ddiwydiannol sy'n gallu, nid yn unig ddarparu'r diogelwch a'r adnewyddiad y mae eu hangen ar bobl. Ond cynllun hirdymor i adfer dyfodol Prydain.







Crynodeb Gweithredol

Mae'r Deyrnas Unedig yn economi fyd-eang ffyniannus sy'n seiliedig ar sefydlogrwydd, tegwch a rheolaeth y gyfraith; ac wedi'i yrru gan sectorau a chwmnïau sy'n arwain y byd. Mae gennym hanes o ymchwil ac arloesi eithriadol; rydym yn hyrwyddwyr masnach agored a masnach rydd; ac rydym yn parhau i ddenu talent a chyfalaf rhyngwladol.

Ond yn ystod y degawdau diwethaf mae cyflymder a maint y newid byd-eang wedi cynyddu ac mae'r DU wedi bod yn brin o'r dynameg sydd ei angen i aros ar y blaen. Mae'r amgylchedd masnachu byd-eang wedi dod yn fwy anrhagweladwy, mae bregusrwydd cadwyni cyflenwi byd-eang wedi dod yn amlycach, ac mae ein cystadleuwyr economaidd wedi bod yn fwy cadarn ac aflonyddgar wrth hyrwyddo diwydiannau eu gwledydd. Mae gweithwyr a theuluoedd Prydain wedi talu'r pris trwy argyfwng costau byw.

Nawr yn fwy nag erioed, mae busnesau'n chwilio am wledydd a all roi'r hyder iddynt fuddsoddi a thyfu. Fel y nodir yn y Cynllun ar gyfer Newid, cenhadaeth flaenoriaeth y Llywodraeth yw cyflawni twf economaidd cryf, diogel a chynaliadwy i roi hwb i safonau byw i bobl sy'n gweithio ym mhob rhan o'r DU.

Bydd ein Strategaeth Ddiwydiannol fodern yn ein helpu i fanteisio ar y cyfleoedd mwyaf sylweddol a chreu'r amodau mwyaf ffafriol yn sectorau allweddol y DU i gwmnïau'r dyfodol ymddangos yma – y rhai sydd â rôl drawsnewidiol i'w chwarae yn y trawsnewidiad at ynni glân, y chwyldro technoleg, effaith sylfaenol AI ar bob sector, a'r geowleidyddiaeth newydd.

Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Llywodraeth yn canolbwyntio ar yr angen hanfodol i gynyddu buddsoddiad busnes, gan gipio cyfran uwch o gyfalaf symudol rhyngwladol, ysgogi busnesau domestig i ehangu, a chefnogi busnesau bach a chanolig sy'n dibynnu ar gadwyni cyflenwi gwydn. Mae hyn yn golygu dewisiadau cadarnhaol: cefnogi wyth sector (yr **IS-8**) sydd â'r potensial uchaf, a'r diwydiannau ffiniol ar eu blaen – a thargedu'r lleoedd a'r clystyrau ledled y DU sy'n cefnogi'r sectorau hynny, i gynyddu cynhyrchiant cenedlaethol, cryfhau ein diogelwch economaidd a'n gwytnwch, a chefnogi ein nodau amgylcheddol a'r trawsnewidiad i sero net.

Er mwyn sicrhau bod y Strategaeth Ddiwydiannol yn sbarduno camau gweithredu, byddwn yn olrhain mesurau allweddol o welliant ar draws yr economi gyfan, yr IS-8, a lleoedd: buddsoddiad busnes; gwerth ychwanegol gros; canlyniadau'r farchnad lafur fel cyflogaeth a chyflogau; twf cynhyrchiant; ac allforion. Byddwn hefyd yn olrhain nifer y busnesau 'cartref' mawr newydd ar draws yr IS-8. Mae'r Strategaeth Ddiwydiannol a'r Cynlluniau Sector wedi'u hategu gan ddull monitro a gwerthuso cadarn sy'n olrhain cyflawni ei pholisïau, dan oruchwyliaeth Cyngor Ymgynghorol y Strategaeth Ddiwydiannol (ISAC).

Dangosodd ein hymgyngoriad, *Invest 2035*, yn glir ble mae'n rhaid gweithredu, a sut mae angen i ni lunio'r cynnig mwyaf cystadleuol i fusnes o safbwynt byd-eang. Nid yw'r Strategaeth Ddiwydiannol yn golygu pwynt penodol mewn amser na chyhoeddiad – mae'n ymrwymiad a phartneriaeth dros 10 mlynedd. Mae'r Llywodraeth eisoes wedi dechrau gweithredu ar y materion a godwyd gan yr wyth sector – o fynd i'r afael â baich rheoleiddio i gyflymder cynllunio – a byddwn yn mynd ymhellach yn y meysydd hollbwysig a nodwyd, ar unwaith ac yn y misoedd a'r blynyddoedd i ddod.

1. Yn rhan annatod o'r genhadaeth twf, bydd y Llywodraeth yn ei **gwneud hi'n haws ac yn symlach i gwmnïau wneud busnes, gan roi'r sefydlogrwydd iddynt wneud buddsoddiadau hirdymor.**

Byddwn yn gwneud hyn trwy hwyluso taith buddsoddwyr, a mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n tanseilio hyder ac yn eu hatal rhag buddsoddi yn nhwf y DU yn y dyfodol. Yn benodol, byddwn yn:

- i) **Mynd i'r afael â chostau trydan diwydiannol uchel**, sicrhau bod prosiectau buddsoddi strategol yn cael cysylltiadau grid amserol, buddsoddi mewn ynni glân, a chryfhau ein cysylltiadau â marchnad ynni'r UE.
- ii) **Hyrwyddo masnach rydd a theg** trwy bartneriaethau rhyngwladol cryf, gan gynnwys sicrhau trefniadau masnachu newydd a gwell gyda dull pragmatig, ystwyth, craff a theg o lywio byd rhanedig, anwadal o safbwynt geowleidyddol, ac sydd wedi'i yrru gan dechnoleg.
- iii) **Cryfhau ein diogelwch economaidd** trwy gynyddu ein gwariant ar amddiffyn, cydweithredu rhyngwladol, buddsoddiadau strategol mewn cadwyni cyflenwi hollbwysig, technolegau a diogelwch ynni, a chymorth i fusnesau i ddeall a lliniaru risgiau.
- iv) **Ehangu mynediad at gyllid**, gan adeiladu ar arbenigedd masnachol y farchnad drwy Fanc Busnes Prydain (gyda mwy o gapasiti a gallu, a £4 biliwn o gyfalaf ychwanegol ar gyfer yr IS-8); ehangu mandad y Gronfa Gyfoeth Wladol i ddefnyddio ei chyfalafu gwerth £27.8 biliwn i gefnogi twf; a chyflwyno deddfwriaeth i gynyddu uchafswm maint portffolio ariannol UK Export Finance.
- v) **Ysgogi arloesi**, ar sail buddsoddiad o £86 biliwn mewn ymchwil a datblygu yn y DU, wedi'i dargedu tuag at IS-8, gan ysgogi buddsoddiad preifat mewn ymchwil, technolegau a chymwysiaid masnachol arloesol.
- vi) **Manteisio ar werth data'r DU** trwy ei drin fel ased economaidd, gan alluogi defnyddio data o ansawdd uchel ar draws y sectorau preifat a chyhoeddus, estyn mentrau Data Clyfar i sectorau Strategaeth Ddiwydiannol perthnasol, a sefydlu fframwaith clir i werthfawrogi a thrwyddedu asedau data sector cyhoeddus.
- vii) **Gwella sgiliau a chynyddu mynediad at dalent** drwy ddiwygio'r system cymorth sgiliau a chyflogaeth i greu cyflenwad cryf i'r IS-8, gyda chyfleoedd am swyddi da ledled y wlad; cynnydd mewn hyfforddiant technoleg a hwb ar gyfer sgiliau peirianeg, digidol ac amddiffyn; a system fisa a Thasglu Talent Fydeang newydd sy'n cefnogi sectorau twf uchel ac sy'n denu unigolion talentog i'r DU.
- viii) **Lleihau beichiau rheoleiddiol a chyflymu arloesedd**, gan dorri costau gweinyddol rheoleiddio i fusnesau 25%, lleihau nifer y rheoleiddwyr, defnyddio'r Swyddfa Arloesi Rheoleiddiol i glirio'r llwybr i'r farchnad ar gyfer y cynhyrchion heriol arloesol diweddaraf, a gwneud

newidiadau penodol ar gyfer sectorau i gefnogi buddsoddiad busnes.

- ix) **Dileu rhwystrau cynllunio** a rhoi ein cefnogaeth i brosiectau seilwaith trawsnewidiol, gan gynnwys trwy gyflymu penderfyniadau ar brosiectau hollbwysig yn y system gynllunio.
 - x) **Sicrhau bod ein system dreth yn cefnogi sectorau twf** a thwf uchel, gyda'n Map Ffordd Treth Gorfforaethol wedi'i gyhoeddi yng Nghyllideb yr Hydref 2024, ar ôl nodi ein hymrwymiad i gapio ein Cyfradd Treth Gorfforaethol ar 25% a chynnal nodweddion allweddol eraill, megis Treuliau Llawn.
2. Bydd y Llywodraeth **yn galluogi buddsoddiad a thwf mewn dinas-ranbarthau a chlystyrau ledled y DU lle mae'r IS-8 wedi'u lleoli**, gyda chynnig cydlynol ar draws cenedloedd a rhanbarthau. Yn benodol, byddwn yn:
- i) **Cyflwyno mwy o safleoedd buddsoddi'n rhagweithiol ledled y DU** drwy Gyflymydd Safleoedd Strategol newydd gwerth £600 miliwn; cymorth cydlynol i ddenu buddsoddiad i'n Parthau Strategaeth Ddiwydiannol (Parthau Buddsoddi a Phorthladdoedd Rhydd); a Pharthau Twf AI newydd.
 - ii) **Cryfhau amgylcheddau busnes lleol ledled y DU** gyda rhagor o gymorth i arloesi rhanbarthol (trwy'r Gronfa Partneriaethau Arloesi Lleol newydd gwerth £500 miliwn) a sgiliau, wrth gynnig arbenigedd y Swyddfa Buddsoddi, y Gronfa Gyfoeth Wladol, a Banc Busnes Prydain i helpu lleoedd i ddenu buddsoddiad preifat.
- iii) **Adnewyddu ein partneriaethau yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon**, gan gynnwys drwy gydweithrediad agos â Llywodraethau datganoledig a thrwy fuddsoddiadau sector blaenllaw, megis cefnogi prosiect Acorn CCUS yn yr Alban a darparu hyd at £750 miliwn ar gyfer uwchgyfrifiadur Prifysgol Caeredin.
 - iv) **Cefnogi Meiri ac awdurdodau lleol yn Lloegr**, gan gynnwys drwy weithio gyda'i gilydd i ddarparu Cynlluniau Twf Lleol 10 mlynedd a sicrhau bod Cronfa Twf Ailgylchadwy Meiri newydd gwerth £500 miliwn ar gael i fuddsoddi mewn prosiectau twf lleol.
 - v) **Cryfhau cysylltiadau rhwng ac o fewn ein dinas-ranbarthau a'n clystyrau** i sicrhau bod rhagor o fusnesau yn cael eu tynnu i gylch talent, arloesi a chydweithrediad academaidd gorau'r DU, a bod rhagor o bobl yn cael mynediad at swyddi da. Byddwn yn cefnogi coridor twf ar draws ein dinas-ranbarthau Gogleddol, yn dyfnhau ein cymorth i'r Coridor Twf rhwng Rhydychen a Chaergrawnt, ac yn adeiladu cysylltiadau rhwng dinasoedd, rhanbarthau a chenhedloedd eraill ac o fewn dinasoedd eraill trwy brosiectau megis HS2, uwchraddio rheilffyrdd newydd yng Nghymru, a chymorth i Lain GanologCanolbarth Caeredin-Glasgow.

3. Er bod yr ymyriadau hyn yn cael eu codi amlaf gan rai neu'r cyfan o'r IS-8 fel y materion mwyaf brys, mae'r Llywodraeth yn cymryd camau wedi'u targedu i **drawsnewid ein sectorau potensial uchaf dros y degawd nesaf** trwy Gynlluniau Sector. O ran prif fentrau byddwn yn:

- i) Harneisio'r technolegau diweddaraf yn y sector **Gweithgynhyrchu Uwch** drwy £4.3 biliwn o gyllid, gan gynnwys hyd at £2.8 biliwn mewn rhaglenni ymchwil a datblygu dros y 5 mlynedd nesaf i sbarduno arloesi, awtomeiddio, digideiddio a masnacheiddio.
- ii) Gyrru twf ein **Diwydiannau Creadigol** sy'n arwain y byd mewn clystyrau ledled y DU, gan gynnwys drwy Gronfa Twf Mannau Creadigol gwerth £150 miliwn, cymorth ariannol newydd ar gyfer sgrîn, cerddoriaeth a gemau fideo, a Chyfnwidfa Cynnwys Creadigol newydd i fod yn farchnad ddibynadwy ar gyfer gwerthu, prynu, trwyddedu a galluogi mynediad a ganiateir at asedau diwylliannol a chreadigol wedi'u digideiddio.
- iii) Gwneud y DU yn un o dair prif economi **Gwyddorau Bywyd** y byd drwy becyn o ddiwygiadau a buddsoddiadau, gan gynnwys hyd at £600 miliwn ar gyfer Gwasanaeth Ymchwil Data lechyd i greu platfform data iechyd mwyaf datblygedig, diogel a pharod i AI yn y byd.
- iv) Dod yn Arch-bŵer gweithgynhyrchu ac arloesi **Ynni Glân**, gan gynhyrchu'r genhedlaeth nesaf o dechnolegau

i gefnogi'r trawsnewidiad byd-eang, a chyflawni ein Cenhadaeth Arch-bŵer Ynni Glân.

- v) Darparu'r sylfaen ddiwydiannol **Amddiffyn** sydd ei hangen arnom i amddiffyn ein diogelwch cenedlaethol wrth ddatgloi potensial sylweddol y sector ar gyfer creu manteision goferu twf trwy arloesi, allforion a thyfu busnesau.
- vi) Meithrin economi **Ddigidol a Thechnolegau'r DU** a fydd yn gyfrifol am adeiladu ein gallu sofran yn y meysydd pwysicaf yn strategol, £670 miliwn i ysgogi datblygiad a mabwysiadu cyfrifiaduron cwantwm yn y DU, £500 miliwn a ddarperir drwy'r Uned AI Sofran, a rhaglen newydd o Barthau Twf AI.
- vii) Cynyddu mabwysiadu technoleg ac integreiddio AI yn y sector **Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes** gan gynnwys mabwysiadu'r cynllun Made Smarter, yn rhan o becyn o £150 miliwn i gefnogi'r sector.
- viii) Cynnal a thyfu'r DU yn brif ganolfan **Gwasanaethau Ariannol** y byd, gan gynnwys trwy ailgydbwyso i reoleiddio ar gyfer twf, lleihau biwrocratiaeth i gwmnïau Technoleg Ariannol, a gyrru mentrau i agor rhagor o gyfalaf preifat.
- ix) Cryfhau gwytnwch yr holl IS-8 trwy gefnogi'r **diwydiannau sylfaenol** a'u cadwyni cyflenwi sy'n darparu deunyddiau a rhannau hanfodol, o ddur i gemegau, neu'n rheoli seilwaith hanfodol, o borthladdoedd i rwydweithiau trydan.

4. Byddwn yn creu partneriaeth barhaol rhwng busnes a **gwladwriaeth gryfach, fwy galluog a mwy ystwyth**, wedi'i hydreiddio'n ddyfnach o lawer ag arbenigedd busnes a dealltwriaeth o anghenion cwmnïau. Yn benodol, byddwn yn:
- i) **Denu cyfalaf preifat ac adeiladu partneriaethau trwy gyd-fuddsoddi gweithredol â diwydiant** ar flaenoriaethau cyffredin, gan ddefnyddio ein holl liferi cyllid i dynnu risg o gyfleoedd, cymell buddsoddi, ac uwchsgilio'r gweithlu.
 - ii) **Defnyddio pŵer caffael y Llywodraeth**, i gryfhau cadwyni cyflenwi domestig a chefnogi swyddi lleol o ansawdd da, wrth lunio marchnadoedd ar gyfer arloesi yn y tymor hwy.
 - iii) **Ei gwneud hi'n haws i ddiwydiant lywio'r Llywodraeth**, cyflymu'r broses o wneud penderfyniadau buddsoddi a gwella'r rhyngwyneb â busnes trwy wasanaeth gofalwr o safon uchel yn y Swyddfa Buddsoddi, rhwydwaith rhyngwladol sy'n canolbwyntio ar dwf, a dull newydd o leoliadau gyda diwydiant.
 - iv) **Cefnogi busnesau bach a chanolig** gyda Gwasanaeth Twf Busnes newydd i symleiddio mynediad at gymorth, cyngor a chyllid y Llywodraeth; mentrau i fynd i'r afael â'r mater o daliadau hwyr gan gyflenwyr mawr; a diwygiadau caffael i'w gwneud hi'n haws sicrhau contractau'r Llywodraeth.
 - v) **Sefydlu sefydliadau cryf i gadw ffocws diwyo ar ganlyniadau'r Strategaeth Ddiwydiannol** wrth lunio a chyflawni polisiau, gan gynnwys trwy Gyngor Strategaeth Ddiwydiannol barhaol.
 - vi) **Monitro a gwerthuso effeithiolrwydd ein hymyriadau polisi** ac ymrwymadau diwydiant yn barhaus, gyda metrigau clir a'r ystwythder i weithredu os bydd angen.

Mae hon yn agenda arwyddocaol iawn, gyda gwaith sylweddol i'w wneud nid yn unig gan y Llywodraeth, ond gan y gymuned fusnes, arweinwyr lleol a chenedlaethol ledled y DU, ac undebau llafur. Mae'n ddull y mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo'n sylfaenol iddo, gan ei bod yn ceisio gosod busnesau preifat, entrepreneuriaeth ac arloesi wrth wraidd adnewyddu'r DU, ac a fydd yn ei gweld yn chwarae rôl strategol, weithredol y tu hwnt i gefnogi hanfodion rheolaeth y gyfraith a sefydlogrwydd macro-economaidd. Dyna ddiben ein Strategaeth Ddiwydiannol fodern, a thrwyddi byddwn yn creu partneriaeth rhwng Llywodraeth, busnesau a gweithwyr nid yn unig am ddegawd ond y tu hwnt i hynny, gan weithio gyda'n gilydd yn hyderus i greu'r amodau ar gyfer twf parhaus a hirdymor ar draws ein heconomi ac ar draws ein cenedloedd.

Cyflwyniad

Fel y nodir yn y Cynllun ar gyfer Newid, cenhadaeth flaenoriaeth y Llywodraeth yw cyflawni twf economaidd cryf, diogel a chynaliadwy i roi hwb i safonau byw i bobl sy'n gweithio ym mhob rhan o'r DU. Bydd twf yn rhoi mwy o arian ym mhocedi pobl, yn ariannu ein gwasanaethau cyhoeddus, ac yn adfywio ein cymunedau.

Mae twf yn bwysicach fyth mewn byd sy'n newid ac sydd yn gynyddol anwadal, peryglus ac ansicr. Hwn yw'r normal newydd - dyw'r byd ddim yn mynd yn ôl. Ond yn hytrach na chael eu dychryn gan y newid hwn, mae busnesau, buddsoddwyr ac undebau llafur wedi dweud wrthym am eu hyder yn y DU ac wedi ein hannog mai nawr yw'r amser i gydio yn y foment.

Mae cyfleoedd dwfn a chyffrous o'n blaenau. Mae technoleg yn trawsnewid yr hyn sy'n bosibl ym mhob rhan o fywyd. Prin y mae potensial chwyldroadol AI wedi dechrau cael ei wireddu. Mae'r trawsnewidiad sero net, cyfle economaidd y ganrif, yn ail-lunio marchnadoedd byd-eang ac yn gyrru arloesi.

Mae'r DU yn dechrau o sefyllfa o gryfder. Rydym yn werddon o sefydlogrwydd, yn ddibynadwy oherwydd ein pragmatiaeth a'n synnwyr cyffredin. Mae ein prifysgolion sy'n arwain y byd, ein gweithlu medrus, ein fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddio, ecosystem dechnoleg, a chrewyr cynnwys wedi galluogi sectorau ffyniannus, cystadleuol ar lwyfan rhyngwladol ymddangos yn y DU.



Ni fydd busnes fel arfer yn ddigon i lwyddo. Nid yw dulliau'r degawdau diwethaf wedi gweithio. Mae angen i'r wladwriaeth fod yn bartner gweithredol â diwydiannau sydd yng nghanol trawsnewid, a'r gweithwyr a'r cymunedau sy'n dibynnu arnynt. Pan fo cyfleoedd wedi ymddangos, yn rhy aml mae'r DU wedi cael bod ganddi ormod o rheoliadau a'i bod wedi'i gor-lwytho i fanteisio, ac yn rhy ofalus i newid cwrs.

Mewn byd ansicr, mae angen sicrwydd ar ddiwydiant i fuddsoddi. Mae ein strategaeth sefydlogrwydd, buddsoddi a diwygio eisoes wedi dechrau mynd i'r afael â hyn a gwireddu potensial llawn ein holl sectorau.

- **Adfer sefydlogrwydd.** Yng Nghyllideb yr Hydref 2024, cyflwynodd y Llywodraeth reolau cyllidol newydd i roi cyllid cyhoeddus yn ôl ar lwybr sefydlog.¹ Mae'r sefydlogrwydd hwn wedi rhoi'r hyder i Fanc Lloegr dorri cyfraddau llog bedair gwaith yn y flwyddyn ddiwethaf, a fydd yn cefnogi twf a buddsoddi. Mae'r Llywodraeth hefyd yn parhau i weithio gyda'n partneriaid rhyngwladol, gan gynnwys yn y G7, y Gronfa Ariannol Ryngwladol, a Banc y Byd i lywio heriau a rennir a chynnal sefydlogrwydd yn yr economi fyd-eang.
- **Buddsoddi mewn adnewyddu.** Yng Nghyllideb yr Hydref 2024, cynyddodd y Llywodraeth yr amlen gyfalaf dros £100 biliwn, a £13 biliwn arall dros yr un cyfnod yn Natganiad Gwanwyn 2025. At ei gilydd, mae'r Llywodraeth yn buddsoddi £120 biliwn ychwanegol dros gyfnod yr Adolygiad Gwariant, o'i gymharu â'r cynlluniau a nodwyd yng Nghyllideb y Gwanwyn

2024. Mae hyn wedi galluogi buddsoddiad cyfalaf newydd sylweddol, a £39 biliwn ar gyfer Rhaglen Cartrefi Fforddiadwy 10 mlynedd newydd, £14.2 biliwn ar gyfer Sizewell C – yr orsaf bŵer niwclear gyntaf i'w hariannu gan y wladwriaeth ers 1988 - £22.6 biliwn y flwyddyn ar gyfer ymchwil a datblygiad erbyn 2029/30, a £15.6 biliwn mewn setliadau trafndiaeth hirdymor ar gyfer Meiri rhai o ddinas-ranbarthau mwyaf Lloegr.² Yn ogystal, fel y nodir yn y Strategaeth Seilwaith 10 Mlynedd, mae'r Llywodraeth yn ariannu o leiaf £725 biliwn o seilwaith cymdeithasol ac economaidd dros y degawd nesaf, fel bod cyllid yn parhau i dyfu yn unol â chwyddiant ar ôl cyfnod yr Adolygiad Gwariant.³

- **Gyrru diwygiadau.** Mae'r Llywodraeth yn cyflymu darparu seilwaith ac adeiladu tai trwy ddiwygiadau cynllunio uchelgeisiol. Bydd ein Cynllun Gweithredu sy'n nodi ymagwedd y Llywodraeth at reoleiddio a rheoleiddwyr yn sicrhau bod y system nid yn unig yn amddiffyn defnyddwyr ond hefyd yn cefnogi cystadleuaeth ac yn annog buddsoddi ac arloesi. Rydym yn creu maes chwarae cyfartal ac yn moderneiddio'r byd gwaith trwy ein cynllun i Wneud i Waith Dalu, sy'n rhan greiddiol o'n cenhadaeth i godi safonau byw a sicrhau bod twf yn creu cyfleoedd i bawb. Ac rydym yn grymuso cymunedau ac arweinwyr lleol, gan gynnwys trwy Fil Datganoli Lloegr, fel bod ganddynt y pwerau a'r cyllid sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu Cynlluniau Twf Lleol.⁴

Cefnogi ein sectorau-uchaf eu potensial

Mae ein Strategaeth Ddiwydiannol fodern yn rhan hanfodol o'r ffordd yr ydym yn cyflawni ein cenhadaeth twf: creu swyddi da ac incwm uwch ledled y wlad trwy gynyddu buddsoddiad busnes cynhyrchiol trwy bolisiau diwydiannol wedi'u targedu. Mae hyn yn golygu mynd i'r afael â phrif achosion twf isel y DU trwy wneud dewis bwriadol i ganolbwyntio ar sectorau sydd â'r potensial mwyaf i godi lefelau cenedlaethol o fuddsoddi a chynhyrchiol, lledaenu ffyniant i bob rhan o'r wlad, gwneud pob un ohonom yn fwy diogel, a manteisio ar gyfleoedd sero net. Dyma sut rydym yn creu economi gref, gan ddarparu swyddi gwell sy'n cynnig diogelwch, cyflog teg a chyfleoedd i symud ymlaen.

Mae'r angen am gynllun hirdymor wedi'i dargedu ar gyfer y sectorau twf uchaf yn glir. Roedd y 30% uchaf o sectorau yn ôl cynhyrchiol ym 1997 yn cyfrif am tua 60% o'r holl dwf cynhyrchiol rhwng 1997 a 2022.⁵ Hyd yn oed yn fwy felly nawr, rydym yn byw mewn byd wedi'i ddominyddu gan gynnydd cwmnïau archseren, y mae eu llwyddiant yn goferu i'r economi ehangach. Dyma'r cwmnïau sy'n gallu tyfu'n gyflym o herwyr

i arweinwyr byd-eang, a hynt eu twf wedi'i thanio gan arloesi, aflonyddwch, mabwysiadu technoleg, defnydd effeithiol o ddata, cadwyni cyflenwi integredig yn fyd-eang, cyfleoedd allforio, a buddsoddi mewn sgiliau, offer, meddalwedd ac asedau eraill.

Ond nid oes gan y DU hanes da iawn o ddeori archsêr o'r fath. Ers yn rhy hir ein lefelau o fuddsoddiad busnes yw'r isaf o'r economïau mwyaf datblygedig.⁶ O'r blaen, dynameg y farchnad, symud adnoddau o gwmnïau cynhyrchiol is i rai cynhyrchiol uwch oedd yr elfen fwyaf yn nhwff y DU.⁷ Fodd bynnag, mae diffyg dynameg erbyn hyn, â busnesau'n ehangu'n arafach a rolau newydd yn cael eu hail-greu ar gyfradd arafach.⁸ A'r tu allan i Lundain, mae ein dinas-ranbarthau – sef yn draddodiadol, peiriannau twf mewn gwledydd eraill – yn methu â chyflawni eu potensial economaidd.⁹ Mae hyn yn fwlch o dros £90 biliwn: mae ei drwsio'n gofyn am greu amodau'r farchnad i newydd-ddyfodiaid ddod i'r amlwg a buddsoddwyr i gymryd risgiau.¹⁰

Trwy'r Strategaeth Ddiwydiannol byddwn yn creu economi fwy dynamig sy'n adfywio llwyddiant y DU ac yn tyfu'r genhedlaeth nesaf o gwmnïau Prydeinig heriol a all yrru twf, cefnogi swyddi'r dyfodol, ac ategu ein

sofraniaeth. Ein nod yw meithrin marchnadoedd cystadleuol a lleihau rhwystrau mynediad ledled y DU, fel y gall cwmnïau ddechrau ac uwchraddio i fod yn fusnesau sy'n gallu angori cadwyni cyflenwi, meddiannu cilfachau hanfodol mewn cadwyni gwerth a rhwydweithiau byd-eang, a chynhyrchu'r cynhyrchion y mae eu hangen ar y byd mewn argyfwng – a'r cyfan yn y pen draw yn cynyddu gallu gweithredol ein gwlad.

Nid yw'r cysylltiad hwn rhwng gallu gweithredol a ffyniant yn un damcaniaethol. Mae bellach yn realiti byw i ddinasyddion a busnesau Prydain. O sioc ynni 2022, a achosodd brisiau ynni cynyddol, i'r tarfu ar gyflenwad adeg y pandemig, mae'r DU wedi bod yn agored i niwed. Mae'r aflonyddwch hwn wedi ein gwanhau yn strategol, ac wedi gadael teuluoedd Prydain yn talu'r pris. Wrth i'r byd lywio cyfnod o aflonyddwch – wedi'i yrru gan gystadleuaeth pwerau mawr, ansefydlogrwydd hinsawdd, ymfudo, a thrawsnewidiadau demograffig – rhaid i'r Strategaeth Ddiwydiannol nid yn unig ysgogi allbwn economaidd, rhaid iddi helpu'r DU i addasu, cystadlu a pharhau.

Mae aflonyddwch yng ngwleidyddiaeth y byd hefyd yn gwrthdaro ag ymddangosiad AI uwch. Bydd cwmnïau archsêr 2035 yn trosoli AI, yn union fel yr harneisiwyd technolegau cyffredinol eraill megis ager neu drydan gan archsêr eu dydd. Mae'r Strategaeth Ddiwydiannol yn adeiladu ar y Cynllun Gweithredu Cyfleoedd AI i wneud y DU yn wneuthurwr AI yn hytrach na chymerwr AI, gan ddatblygu cyfran Prydain

ar draws y gadwyn werth AI. Mae hefyd yn anfon neges i'n hwyth sector. Mae'r Llywodraeth yn paratoi ar gyfer y posibilrwydd o AI trawsnewidiol: rhaid i fusnesau wneud hynny hefyd. Mae'r chwyldro AI yn effeithio ar yr economi gyfan: ochr yn ochr â'r cyfleoedd i fusnesau newydd, rhaid i fusnesau presennol ar draws yr IS-8 esblygu i ffynnu.

"Ein nod yw meithrin marchnadoedd cystadleuol a lleihau rhwystrau mynediad ledled y DU, fel y gall cwmnïau ddechrau ac uwchraddio i fod yn fusnesau sy'n gallu angori cadwyni cyflenwi, meddiannu cilfachau hanfodol mewn cadwyni gwerth a rhwydweithiau byd-eang, a chynhyrchu'r cynhyrchion y mae eu hangen ar y byd mewn argyfwng – a'r cyfan yn y pen draw yn cynyddu gallu gweithredol ein gwlad."

Blaenoriaethu buddsoddiad busnes

Mae ein Strategaeth Ddiwydiannol yn berthynas newydd rhwng busnes a Llywodraeth – cynllun 10 mlynedd lle rydym yn pennu trywydd strategol sy'n caniatáu i fusnesau wneud penderfyniadau hirdymor a chanolbwyntio ar greu cyfoeth a ffyniant. Ein huchelgais yw i'r bartneriaeth hon gynyddu buddsoddiad busnes yn sylweddol erbyn 2035.

Y sectorau yr ydym yn canolbwyntio arnynt yw'r sectorau allforio hynod gynhyrchiol, arloesol y mae eu diwydiannau ffiniol yn creu technolegau a gwasanaethau strategol bwysig a ddefnyddir ar draws yr economi; ac sy'n cefnogi swyddi â chyflog da, gyda gweithwyr yn yr IS-8 yn ennill £7,900 (cyn treth) y flwyddyn ar gyfartaledd yn fwy na mewn diwydiannau eraill.¹¹ O'u hanfod, mae gan y sectorau hyn ragolygon twf cryf eisoes. Mae'r IS-8 ar gyfartaledd 27.1% yn fwy cynhyrchiol na chyfartaledd cenedlaethol y DU.¹² Os byddant yn aros ar eu trywydd presennol, byddant yn ychwanegu £152 biliwn ychwanegol mewn GVA at yr economi bob blwyddyn, ac yn creu 1.1 miliwn o swyddi newydd erbyn 2035.¹³ Gwelodd yr IS-8 hefyd eu cyfleoedd allforio byd-eang yn ehangu \$5 triliwn rhwng 2013 a 2023, gyda rhagolwg o \$10 triliwn arall mewn twf erbyn 2035.¹⁴

Ond mae ganddyn nhw'r potensial i fynd ymhellach. Ar gyfer pob sector, gan adeiladu ar eu mantais gystadleuol ryngwladol, rydym yn nodi cynlluniau pendant ac yn gwneud ymrwymiadau sylweddol gyda'r uchelgais erbyn 2035:


- Bydd sector **Gweithgynhyrchu Uwch** y DU yn cyflawni bron i ddyblu buddsoddiad busnes i £39 biliwn y flwyddyn.
- Y DU fydd prif allforiwr **Amddiffyn** Ewrop, bydd wedi cau'r bwlch ar gyfer buddsoddiad cyfalaf menter i Amddiffyn gyda'r Unol Daleithiau yn ei hanner, a bydd yn lleihau'r amser i gontractio ar draws pob segment o gaffaeliadau Amddiffyn yn radicalaidd.
- Bydd buddsoddiad busnes mewn **Diwydiannau Ynni Glân** ffiniol yn dyblu o leiaf i dros £30 biliwn.
- Bydd y DU yn un o'r tri lle gorau yn y byd i greu, buddsoddi ynddo, ac ehangu busnes **Digidol a Thechnoleg** sy'n tyfu'n gyflym. Byddwn yn anelu at sicrhau busnes technoleg triliwn o ddoleri cyntaf y DU.
- Bydd sector y **Diwydiannau Creadigol** yn cynyddu yn sylweddol i £31 biliwn.
- Y DU fydd y lleoliad dewisol i gwmnïau **Gwasanaethau Ariannol** fuddsoddi, tyfu a gwerthu eu gwasanaethau i'r byd gyda'r sector yn cynyddu ei gyfraniad allforion i GVA y DU.
- Erbyn 2030 y DU fydd y brif economi **Gwyddorau Bywyd** yn Ewrop; ac erbyn 2035, y drydedd economi Gwyddorau Bywyd pwysicaf yn fyd-eang, ar ôl yr Unol Daleithiau a Tsieina.
- Bydd y sector **Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes** yn dyblu buddsoddiad busnes i £65 biliwn.

Canolbwyntio ar weithredu

Nid yw strategaethau diwydiannol y DU yn y gorffennol wedi parhau oherwydd eu bod naill ai wedi gwrthod gwneud dewisiadau neu wedi methu â chefnogi eu dewisiadau trwy ailddyrranu adnoddau a gyrru newid ymddygiad gwirioneddol yn y Llywodraeth a'r diwydiant.

Ymdrech Llywodraeth gyfan yw ein Strategaeth Ddiwydiannol fodern, wedi'i chynllunio gyda busnes trwy gynghorau sector, ymgynghori'n helaeth, ac ymgysylltu'n agos â'r Cyngor Ymgynghorol Strategaeth Ddiwydiannol. Mae'r gwaith hwn wedi'i ymgorffori yn ymagwedd y Llywodraeth at Adolygiad Gwariant 2025, gan sicrhau bod blaenoriaethau ein Strategaeth Ddiwydiannol yn rhan annatod o gyllidebau adrannau ar gyfer gweddill y Senedd hon, ochr yn ochr ag ymrwymadau ymchwil a datblygu 10-mllynedd a chynlluniau seilwaith.

Dim ond y dechrau yw'r ddogfen hon: bydd yn lens y byddwn yn gweld penderfyniadau pwysig trwyddo ar hyn o bryd ac ar gyfer y degawd i ddod. Mae gan bob adran rôl twf hanfodol: bellach mae meysydd o wariant amddiffyn i ddefnyddio ynni glân, o ymfudo i gaffael cyhoeddus, yn gysylltiedig â'n Strategaeth Ddiwydiannol ac yn hanfodol i'r ffordd yr ydym yn ei chyflawni.



Yn ganolog i'n dull gweithredu fydd yr egwyddor bod rhaid gwobrwyo arloesi a buddsoddi. Y cenhedloedd sy'n ennill yn yr oes newydd hon fydd y rhai sy'n barod i roi eu troed yn y dŵr i rannu risg ag arloeswyr ac sy'n croesawu buddsoddi preifat cynhyrchiol a'r manteision y mae'n dod â nhw i bobl a chymunedau sy'n gweithio.

Trwy alinio'r Llywodraeth o amgylch yr agenda hon, byddwn yn gallu mynd i'r afael nid yn unig â'r materion unigryw sy'n wynebu pob un o'r IS-8, ond yr heriau trawsbynciol critigol y mae pob un yn eu hwynebu - busnesau newydd, busnesau sy'n tyfu, busnesau deillio, BBaChau, cwmnïau lleol sefydledig, a chwmnïau rhyngwladol fel ei gilydd. Mae hyn yn ymwneud â deall anghenion yr amrywiaeth eang hon o fusnesau, o arweinwyr y farchnad i herwyr aflonyddgar; a defnyddio ein holl ddylanwad i ddileu rhwystrau a chreu sefydlogrwydd hirdymor fel ei bod yn haws ac yn gynt i fuddsoddi.

Nid yw sectorau yn gwneud busnes ar wahân i weddill yr economi, felly rydym yn cymryd ymagwedd cyfannol, ag ymyriadau i gryfhau'r amgylchedd cyfan o'u cwmpas a hyrwyddo cyfalaf ac arloesi rhyngddynt.

Mae'r Strategaeth Ddiwydiannol yn seiliedig ar leoedd yn ddigywilydd, gan gydnabod bod twf rhanbarthol cryfach yn hanfodol ar gyfer cystadleurwydd yr IS-8 a gwytnwch yr economi genedlaethol: byddwn felly yn canolbwyntio ein hymdrechion ar y dinas-ranbarthau a'r clystyrau sydd â'r potensial uchaf i gefnogi ein sectorau sy'n gyrru twf, yn Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Mae gwytnwch yr IS-8 mewn byd anrhagweladwy hefyd yn gysylltiedig

â chryfder diwydiannau sylfaenol fel dur a phorthladdoedd sy'n cyflenwi deunyddiau, rhannau a seilwaith critigol - byddwn yn sicrhau bod y rhain yn cael eu diogelu rhag rhwystrau byd-eang. Yn union fel y bydd sectorau twf uchel yn elwa o economi gryfach, bydd gweddill yr economi – a'r swyddi a'r cymunedau y mae'n eu cefnogi – yn elwa o'u llwyddiant. Mae'n rhaid i'r llanw godi pob cwch, ledled y wlad.

Ar draws ein holl ymyriadau, bydd cyfleoedd economaidd sero net yn flaenoriaeth gyson, gan greu swyddi glân da. Byddwn yn gweithredu'n strategol i roi hwb i weithgynhyrchu gwyrdd, gwasanaethau, arloesi, allforion, a'r economi gylchol, gan ysgogi diwydiant Prydain i ddarparu diogelwch ynni a chyflawni ein nodau amgylcheddol.

Mae'r Strategaeth Ddiwydiannol wedi'i gwreiddio yn heriau a chyfleoedd y 10 mlynedd nesaf, gan gynnwys yr angen i gryfhau amddiffyn a diogelwch y DU ar unwaith wrth gyflawni adnewyddu cenedlaethol hirdymor. Bydd hyn yn creu gwlad annibynnol, sgiliau uchel, dynamig ac economaidd ffyniannus, lle mae cyfleoedd, sgiliau, a chyfoeth yn gyffredin ac yn cael eu lledaenu'n deg; lle mae swyddi o ansawdd uchel, hygyrch a diogel; a lle mae pob person a phob busnes yn cael y cyfle i ffynnu.

Ôl-nodiadau

- 1 [Trysorlys EF \(2024\) Cyllideb yr Hydref 2024](#)
- 2 [Trysorlys EF \(2025\) Adolygiad Gwariant 2025](#)
- 3 [Trysorlys EF \(2025\) UK Infrastructure: A 10 Year Strategy](#)
- 4 [Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol \(2024\) papur gwyn ar ddatganoli yn Lloegr](#)
- 5 Dadansoddiad yr Adran Busnes a Masnach o [Swyddfa Ystadegau Gwladol \(2023\) Output per Hour Worked, UK](#).
- 6 [Swyddfa Ystadegau Gwladol \(2024\) Business investment in the UK](#). Gweler hefyd [The Productivity Institute \(2023\) The Productivity Agenda](#); [Resolution Foundation \(2023\) Beyond Boosterism](#).
- 7 Dadansoddiad yr Adran Busnes a Masnach o [Swyddfa Ystadegau Gwladol \(2022\) Estimates of total factor productivity from the Annual Business Survey, Great Britain: 1998 to 2019: August 2022](#)
- 8 [Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd \(2024\) The state of UK competition](#)
- 9 [Centre for Cities \(2024\) Climbing the summit: big cities in the UK and the G7](#)
- 10 Dadansoddiad yr Adran Busnes a Masnach o [Swyddfa Ystadegau Gwladol \(2024\) Subregional productivity: labour productivity indices by city region](#) a [Swyddfa Ystadegau Gwladol \(2025\) Regional Gross Value Added \(balanced\) by industry: city and enterprise regions](#). Y ffigur a gyfrifwyd yn 2022 prisiau cyfredol ar gyfer lefelau cynhyrchiant a GVA 2023, trwy luosi cyflogaeth â'r gwahaniaeth rhwng lefelau cynhyrchiant cyfartalog y DU a'r rhai yn y dinas-ranbarthau a amlinellwyd.
- 11 Dadansoddiad yr Adran Busnes a Masnach o [Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol \(2024\) Employee earnings in the UK: 2024 \(unrevised\)](#) and [Employee earnings in the UK, 2011 to 2023 \(revised\)](#). Mae'r ffigur yn dangos y gwahaniaeth rhwng cyflog real canolrif 2024 unigolion yn y sectorau Strategaeth Ddiwydiannol (ac eithrio Diwydiannau Ynni Glân) a'r holl sectorau eraill yn yr economi (mewn cyflogaeth amser llawn, sydd â hawl i'r gyfradd Isafswm Cyflog Cenedlaethol i oedolion, nad oedd absenoldebau yn effeithio ar eu henillion). Addaswyd cyflogau gan ddefnyddio [Swyddfa Ystadegau Gwladol \(2025\) Consumer Price Index including owner occupiers' housing costs](#), indexed to April 2024. Gweler yr atodiad technegol am ragor o wybodaeth am ddiffiniadau sector IS-8.
- 12 Dadansoddiad yr Adran Busnes a Masnach o [Swyddfa Ystadegau Gwladol \(2025\) Output per job by division; GDP low-level aggregates; Annual Business Survey](#), ac Inter-Departmental Business Register (IDBR) employment count microdata. Cyfartaledd wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio data rhwng 2015 a 2023. Lle bo'n berthnasol, dosrannir nifer y swyddi ar gyfer pob cod SIC gan ddefnyddio data cyfrif cyflogaeth IDBR lefel is a dosrannir GVA gan ddefnyddio data Arolwg Busnes Blynyddol lefel is.

- 13 Ffigur GVA yn seiliedig ar ddadansoddiad yr Adran Busnes a Masnach o [Swyddfa Ystadegau Gwladol \(2025\) GDP low-level aggregates](#) ac [Annual Business Survey](#). Lle bo'n berthnasol, dosrannir GVA gan ddefnyddio data ABS lefel is. Ffigur swyddi yn seiliedig ar ddadansoddiad yr Adran Busnes a Masnach o [Swyddfa Ystadegau Gwladol \(2025\) GDP low-level aggregates](#), [Non-financial business economy](#), [Employee jobs by industry](#), [Self-employed jobs by industry](#), [Swyddfa Ystadegau Gwladol \(2024\) Low carbon and renewable energy economy, UK: 2022](#), Swyddfa Ystadegau Gwladol (2025) IDBR microdata. Mae amcanestyniadau ar gyfer y ddau ffigur yn seiliedig ar y gyfradd twf flynyddol gyfansawdd rhwng 2019 a 2023, yr ydym yn tybio ei bod yn gyson.
- 14 Yr Adran Busnes a Masnach (2025) Global Trade Outlook, cyhoeddiad i ddod.



GREAT

BRITAIN & NORTHERN IRELAND

TUNISIAN TECH ECOSYSTEM


Türkiye THE BEST PLACE TO START! \$2.5B IN TELECOM 2023 EXPORT TARGET

GSK

causaLens

DXCOVER

Hwylustod, cyflymder a sefydlogrwydd hirdymor i fusnes



Ers yn rhy hir mae economi'r DU wedi'i dal yn ôl gan amgylchedd busnes anghefnogol ac anhyblyg nad yw wedi addasu'n ddigon cyflym gyda'r amseroedd sy'n newid. Nid yw fframweithiau rheoleiddio wedi cadw i fyny ag arloesi. Mae seilwaith digidol wedi cael ei uwchraddio'n rhy araf, yn enwedig y tu allan i ddinasoedd mawr. Does dim digon o bobl yn dod o ysgolion, colegau, prifysgolion, neu'r system cymorth cyflogaeth ehangach sydd â'r sgiliau y mae eu hangen ar ddiwydiannau'r dyfodol. Mae rheolau cystadleuaeth wedi tueddu i fod o fudd i rai sy'n bodoli ers tro nid i herwyr. Ac mae hyd yn oed busnesau newydd uchel eu potensial mewn sectorau strategol bwysig yn wynebu heriau codi cyfalaf i barhau â'u taith twf.

Yn ffodus, mae'r pethau sylfaenol yn parhau i fod yn gryf ac mae diwygiadau'r Llywodraeth eisoes yn troi teimlad busnes i'r gwrthwyneb. Cododd y DU o'r pedwerydd safle i ddod yn gyrchfan fyd-eang ail fwyaf deniadol ar gyfer buddsoddi mewn arolwg diweddar o Brif Swyddogion Gweithredol.¹ Ond mae'n rhaid i ni wneud mwy i sicrhau bod gwell teimlad a hyder busnes yn trosi i fwy o fuddsoddi yn y DU, creu swyddi, adfywio cymunedau, a rhoi mwy o arian ym mhocedi pobl. Ni allwn fforddio gadael i'r cyfle hwn lithro i wneud amgylchedd busnes y DU mor ffafriol i dwf a gwynn â phosibl i'n diwydiannau ffiniol.

Mae hyn yn dechrau gyda'i gwneud hi'n haws ac yn gyflymach i'r IS-8 fuddsoddi. Mae gormod o feysydd lle mae gwneud busnes yn anoddach yn y DU nag yn ein cystadleuwyr. Mae pob punt a wariwyd - neu sydd heb ei gwario - oherwydd prisiau trydan anghystadleuol, oedi cynllunio, neu reoleiddio anghymesur yn bunt y gellid ei gwario ar fuddsoddiad cynhyrchiol mewn asedau neu allu strategol hirdymor, o sgiliau i feddalwedd.

Ond mae'n rhaid i wella'r amgylchedd busnes ymwneud â mwy na diwygiadau ar ochr y cyflenwad. Paradocs y wladwriaeth Brydeinig yn y degawdau diwethaf yw ei bod wedi bod yn ormodol ac yn rhy bell, yn microreoli trwy faich rheoleiddio ond yn mynd ar goll pan oedd angen partner ar fusnesau. Rhaid i ni ddefnyddio pŵer Llywodraethu strategol i ddarparu'r amodau a'r sefydlogrwydd i'r IS-8 gymryd risgiau a buddsoddi'n hyderus - gyda mwy o ddynameg, cylchoedd cyllido hirdymor ar gyfer ymchwil ac arloesi, mynediad mwy cystadleuol a strategol at gynnig cyllid, darpariaeth sgiliau wedi'i alinio â blaenoriaethau twf yn y dyfodol, cymhellion ar gyfer adeiladu gwynnwch, a mwy o gyfleoedd i werthu i farchnadoedd rhyngwladol.

Lleihau costau trydan, cyflymu cysylltiadau grid, a hyrwyddo datgarboneiddio diwydiannol

Mae prisiau trydan diwydiannol yn y DU yn sylweddol uwch na'r rhai yn y rhan fwyaf o economïau cystadleuol, yn enwedig ledled Ewrop a Gogledd America.² Talodd cwmnïau dwys o ran ynni ddwywaith y cyfartaledd Ewropeaidd mewn costau trydan llynedd.³ Y broblem hon yw un o'r heriau mwyaf amlwg i gystadleurwydd ein sectorau dwys o ran ynni ac atyniad y DU i fuddsoddiad tramor, er bod prisiau nwy yn debyg i'r rhai yng ngweddill Ewrop.⁴ I gynyddu'r her, mae rhai busnesau hefyd yn wynebu amseroedd aros hir ar gyfer cysylltiadau grid newydd neu wedi'u hatgyfnerthu - a rhai yn dweud y gallent aros am ddegawd.

Mae prisiau trydan uchel ac oedi wrth gysylltu â'r grid yn rhwystr i drydaneiddio yn ein diwydiannau dwys o ran ynni ac i gyflawni ein hymrwymadau sero net.⁵ Gall technolegau trydaneiddio fod yn llawer mwy effeithlon na chyferwerth â thanwydd ffosil, gan wneud cwmnïau'n fwy cynhyrchiol. Gallant hefyd leihau ein dibyniaeth ar fewnforion tanwydd ffosil, gan wneud y DU

yn fwy gwydn i aflonyddwch ac ansefydlogrwydd prisiau ar farchnadoedd rhyngwladol. A bydd digonedd o drydan glân yn hanfodol ar gyfer denu buddsoddiad i mewn ac o'r IS-8.

Nododd ymatebwyr i'r ymgynghoriad ffurfiol *Invest 2035* brisiau ynni ac oedi wrth gysylltu â'r grid yn rhwystrau i weithgarwch diwydiannol cystadleuol a mwy o drydaneiddio.⁶ Mae ein hymngysylltiad ehangach â rhanddeiliaid hefyd wedi tynnu sylw at effeithiau prisiau anrhagweladwy ynni'r DU o'i gymharu â'n cystadleuwyr rhyngwladol, oherwydd presenoldeb uchel nwy yn ein cyfuniad ynni, sy'n ei gwneud hi'n anoddach i fusnesau gynllunio a buddsoddi. Os ydym o ddifrif am fod yn arweinydd mewn gweithgynhyrchu uwch, technoleg sero net, ac ailgydbwysu rhanbarthol, rhaid i ni wneud yr hyn y gallwn i fynd i'r afael â chost anghystadleuol ynni diwydiannol.

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod pwysigrwydd strategol mynd i'r afael â'r rhwystrau hyn. Dyma pam rydym yn cynnig rhyddhad prisiau, trwy'r British Industry Supercharger, ar gyfer y cwmnïau mwyaf dwys o ran ynni a pham rydym yn diwygio cysylltiadau grid ar gyfer prosiectau

cynhyrchu a galw, a allai gyflymu dyddiadau cysylltu ar gyfer rhai prosiectau o 5 a 7 mlynedd.⁷ Bydd y diwygiadau hyn yn cynyddu faint o alw sy'n gysylltiedig â'r grid bob blwyddyn o'r cyfartaledd presennol o 2.1GW i 3.5GW erbyn 2035.

O dan ein Clean Energy Superpower Mission [Cenhadaeth Arch-bŵer Ynni Glân], mae gennym hefyd gynllun tymor hwy i gynyddu ein diogelwch ynni a lleihau biliau trydan trwy fuddsoddi mewn ynni glân a chryfhau ein cysylltiadau â marchnad ynni'r UE.⁸

Bydd mwy o gydweithrediad â'r UE ar brisio ynni a charbon yn dileu biwrocratiaeth, gan ei gwneud hi'n haws i fusnesau fasnachu a galluogi buddsoddi mewn prosiectau ym Môr y Gogledd. Ond er ein bod yn canolbwyntio ar drosi costau cyfanwerthol rhatach pŵer glân yn filiau is, rydym hefyd yn cydnabod yr angen i weithredu'n gyflym i gefnogi sectorau sydd â photensial twf uchel neu sy'n agored iawn i risg costau trydan uchel.

Y dull

Byddwn yn adeiladu ar gynlluniau rhyddhad prisiau trydan presennol a diwygiadau cysylltiadau grid i:

- **Wneud trydan yn rhatach ar gyfer diwydiannau gweithgynhyrchu yn y diwydiannau IS-8 a diwydiannau sylfaenol**, gan sicrhau prisiau cystadleuol er mwyn denu a chadw buddsoddiadau.
- **Cyflymu amserlenni cysylltu grid ar gyfer prosiectau buddsoddi mawr**, gan ddefnyddio ein dylanwad rheoleiddio a'n pwerau ymgynnull i leihau amseroedd aros.

Yr ymyriadau

Er mwyn datblygu'r blaenoriaethau hyn, rydym yn ymrwmo i:

- **Lleihau costau trydan ar gyfer diwydiannau gweithgynhyrchu IS-8 a diwydiannau sylfaenol** a chynyddu cefnogaeth i'n diwydiannau mwyaf dwys o ran ynni:
 - **O 2027 ymlaen, bydd Cynllun Cystadleurwydd Diwydiannol Prydain newydd yn lleihau costau trydan tua £35-40/MWh hyd at 2030 ac yn cefnogi miloedd o fusnesau.** Bydd y cynllun o fudd i ddiwydiannau ffiniol dwys o ran trydan gweithgynhyrchu yn yr IS-8, megis moduro ac awyrofod, a diwydiannau gweithgynhyrchu sylfaenol yn eu cadwyni cyflenwi, megis cemegau. Caiff busnesau cymwys eu heithrio rhag talu costau'r Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy, Tariffau Bwydo i mewn a'r Farchnad Capasiti. Bydd y cynllun yn gwneud costau trydan Prydain Fawr yn fwy unol ag economïau mawr eraill yn Ewrop, ac yn gwneud pethau'n decach i fusnesau Prydain Fawr. Bydd cymhwysedd yn cael ei benderfynu ar ôl ymgynghori, a fydd yn agor cyn bo hir, gyda phwynt adolygu yn 2030.
 - **Cynnydd yn y cymorth i'n diwydiannau mwyaf dwys o ran ynni sy'n gymwys ar gyfer pecyn British Industry Supercharger**, gyda chynnydd yn y cynllun lawndal Codi Tâl y Rhwydwaith o 60% i 90%. Bydd hyn yn darparu rhyddhad prisiau ychwanegol o 2026 i oddeutu 500 o fusnesau cymwys, gan leihau'r bwloch cystadleuol gyda gwledydd cyfagos tebyg ymhellach.
- **Bydd y Llywodraeth yn parhau i gefnogi'r Cynllun lawndal Diwydiannau Dwys o ran Ynni i gefnogi effeithlonrwydd ynni**, datgarboneiddio ac arloesi technolegol. Byddwn yn cynnal adolygiad o'r cynllun erbyn diwedd y flwyddyn hon a fydd yn nodi sut rydym yn bwriadu parhau i gefnogi diwydiannau-dwys o ran ynni pan fydd Mecanwaith Addasu Ffiniol Carbon y DU (CBAM) yn cael ei weithredu yn 2027.
- Bydd y mesurau hyn yn cael eu hariannu trwy ostwng ardollau a chostau eraill yn y system ynni. Mae'r Llywodraeth hefyd yn bwriadu defnyddio cyllid ychwanegol o gryfhau prisio carbon y DU, gan gynnwys o ganlyniad i gysylltu â marchnad garbon yr UE.
- **Cefnogi datblygiad y farchnad Cytundebau Prynu Pŵer Corfforaethol (CPPA) yn y DU**, fel llwybr posibl i ddefnyddwyr ynni sicrhau prisiau trydan mwy sefydlog ar gyfer y tymor hir. Mae CPPAs hefyd yn creu llwybrau amgen i'r farchnad ar gyfer generaduron trydan carbon isel. Bydd y Llywodraeth yn galw am dystiolaeth maes o law ar sut y gellir datblygu a gwella'r farchnad am CPPAs ar gyfer diwydiant, gan gynnwys lle gall y DU dynnu o arferion gorau rhyngwladol i wella cystadleurwydd.

<p>Mae Banc Datblygu Cymru yn darparu cyllid ecwiti, benthyciadau busnes ac eiddo i fusnesau yng Nghymru.</p> <p>Mae Banc Buddsoddi Cenedlaethol yr Alban yn darparu dyled ac ecwiti i brosiectau a busnesau yn yr Alban, neu sy'n awyddus i adleoli i'r Alban.</p> <p>Mae Invest NI yn helpu busnesau newydd a busnesau presennol i gystadlu'n rhyngwladol, a thrwy ddenu buddsoddiad newydd i Ogledd Iwerddon, gan gynnwys drwy ddarparu benthyciadau a buddsoddiad ecwiti yng Ngogledd Iwerddon.</p>	<p>Mae Great British Energy yn cyflymu prosiectau ynni glân a buddsoddiadau mewn technolegau sy'n dod i'r amlwg trwy gyd-fuddsoddi gyda'r sector preifat.</p>	<p>Mae'r Swyddfa Buddsoddi (OFI) yn darparu gwasanaeth gofawr pwrpasol i helpu'r buddsoddwyr mwyaf strategol bwysig i lywio tirwedd y DU, gan gynnwys y cynnig cyllid cyhoeddus, gan weithio gyda'r NWF, BBB, a Sefydliadau Ariannol Cyhoeddus eraill.</p>	

Mae **Llywodraeth y DU** hefyd yn darparu ystod eang o **gymorth grantiau** i'r rhai sy'n dechrau busnesau a'r rhai sydd eisoes yn masnachu, gan gynnwys cymorth wedi'i dargedu i sectorau strategol bwysig o'r economi a rhanbarthau'r DU.



Gyrru a chefnogi arloesi

Rhaid i'r DU fod ar flaen y gad o ran arloesi os ydym am adeiladu economi twf uchel, gwydn sy'n creu swyddi o safon ac sy'n gwella safonau byw. Mae arloesi yn helpu busnesau i ddod yn glyfrach ac yn fwy effeithlon. Mae'n creu mantais gystadleuol i symudwyr cyntaf sy'n creu cynhyrchion newydd neu sydd gyflymaf wrth harneisio technolegau newydd. Ac mae'n rhoi mwy o allu gweithredol a throsoledd i'r gwledydd sy'n ei feithrin ar lwyfan y byd. Rhaid i ni fod yn genedl o ddyfeiswyr, entrepreneuriaid a mabwysiadwyr technoleg.

Mae'r chwyldro technoleg yn agor posibiliadau enfawr ar gyfer arloesi a thwf economaidd. Mae AI, awtomeiddio, roboteg, digideiddio, realiti estynedig a rhithwir, meddyginiaethau, deunyddiau uwch, argraffu 3-D a thechnolegau ynni newydd yn trawsnewid sut rydym yn byw, yn gweithio, ac yn gwella iechyd a gwytnwch. Gallai'r budd o arloesi AI yn unig ychwanegu hyd at £47 biliwn y flwyddyn at y DU mewn cynnydd cynhyrchiant dros y degawd nesaf.²³ Mae datblygiadau mewn bioleg yn newid gweithgynhyrchu, gofal iechyd, a chyflenwad bwyd, wrth i dechnolegau glân yrru twf

i gwmnïau sy'n arloesi. Mae gwledydd yn ymgiprys i ddenu'r cwmnïau mwyaf arloesol, wrth geisio creu'r amodau i gwmnïau cartref ddod i'r amlwg. Ac mae gan arloesi amlygrwydd ychwanegol yn y bygythiadau byd-eang o dechnolegau newydd sydd, yn y dwylo anghywir, yn gallu cael eu datblygu a'u defnyddio i amharu ar ein buddiannau cenedlaethol.

Mae manteision y DU yn glir. Mae gennym rai o'r prifysgolion gorau yn y byd – pedair yn y 10 uchaf – gyda'r DU yn ail yn unig i'r Unol Daleithiau o ran y gwerth a grëir o gwmnïau deillio prifysgolion, a diwylliant sydd wedi cefnogi'r ail nifer uchaf o enillwyr Gwobr Nobel yn fyd-eang.²⁴ Y DU yw'r pumed economi fwyaf arloesol yn y byd ac mae ganddi system Eiddo Deallusol fyd-enwog.²⁵ Mae gennym glystyrau arloesi bywiog ar draws ein pedair gwlad, a manteision mynediad i Horizon Europe, y cynllun cyllido cydweithredol mwyaf ar gyfer ymchwil ac arloesi.²⁶ Mae gennym UK Research and Innovation (UKRI), ein hasiantaeth ariannu ymchwil a datblygu cenedlaethol o'r radd flaenaf, gyda chyllideb flynyddol o £8.8 biliwn, sy'n cefnogi arloesi ar draws yr IS-8.²⁷ Rydym wedi profi modelau ar gyfer cataleiddio cydweithredu rhwng ymchwil a diwydiant,

gan gynnwys y Rhwydwaith Catapwlt (canolfannau technoleg ac arloesi nid-er-elw mewn 65 o leoliadau yn y DU). Rydym yn ailffocysu Swyddfa'r Llywodraeth ar gyfer Trosglwyddo Technoleg i gyflymu'r fasnacheiddio o'r biliynau o bunnoedd o arloesi a ddatblygwyd gan ymchwil y Llywodraeth. Ac mae gennym yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Uwch (ARIA), wedi'i hadeiladu'n arbennig i ganolbwyntio ar brosiectau risg uchel, budd uchel. Gan weithio gyda phartneriaid entrepreneuriaidd fel Fifty Years, mae ARIA yn cysylltu egin gyfleoedd ymchwil â buddsoddwyr, gan ddarparu seilwaith i brototeipio dyfeisiadau newydd a meithrin talent trwy gymrodoriaethau.

Ond nid ydym yn gwneud digon i wireddu ein potensial. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf bu arafu mewn arloesi, gyda chyfran y cwmnïau 'arloesol weithgar' yn gostwng.²⁸ Mae'r DU yn parhau i ddenu busnesau i ddechrau, mae gennym hanes gwael o'u tyfu a'u cadw.²⁹ Fe wnaeth ymatebwyr i'r ymgynghoriad ffurfiol *Invest 2035* amlygu'r ffaith bod cydweithredu a phartneriaethau, gan gynnwys â'r byd academaidd, yn ogystal â chyllid yn rhwystrau i fasnacheiddio Ymchwil a Datblygu.³⁰ Roedd rhai ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn gweld bod yr amgylchedd rheoleiddio yn ddiffygiol o ran hyblygrwydd a'r gallu i addasu, gan ei gwneud hi'n anoddach i fusnesau arloesi.

Mae hyn ar y ffin – ond mae'r DU hefyd yn methu â gweld manteision arloesi yn gwasgaru ar draws yr economi gyfan. Yn ogystal â dyfeisio, mae mabwysiadu technolegau yn hanfodol i dwf economaidd. Mae busnesau sy'n integreiddio technolegau mwy datblygedig yn fwy cynhyrchiol, gyda throsiant uwch fesul gweithiwr.³¹ Wrth gynyddu cynhyrchiant trwy fabwysiadu technoleg mae potensial i gynyddu GDP go iawn 8% yn 2035, â thechnolegau AI ar eu pennau eu hunain yn cyfrannu 3%.³²

Ond er bod cyfraddau mabwysiadu technolegau digidol yn y DU wedi codi dros amser, yn enwedig ers y pandemig, mae gan fusnesau'r DU hanes gwael - dim ond 18% sydd wedi mabwysiadu AI, mae ein BBaChau ymhlith y lleiaf tebygol i fabwysiadu technoleg yn y G7, mae gennym lefelau isel o roboteg ac awtomeiddio o gymharu â gwledydd Ewropeaidd eraill, ac rydym yn llog o ran mabwysiadu'r cwmwl ymhlith gwledydd yr OECD.³³ Canfu ein *Hadolygiad o Fabwysiadu Technoleg* diweddar, dan arweiniad Prif Gynghorydd Gwyddonol a Chynghorydd Technoleg Cenedlaethol y Llywodraeth, fod busnesau yn wynebu nifer o rwystrau, gan gynnwys cyfyngiadau ariannu, diffyg sgiliau rheoli, bylchau gwybodaeth, ac ansicrwydd ynghylch polisi a rheoleiddio. Bydd mynd i'r afael â'r rhain yn hanfodol.

Y dull

Mae maint yr her yn gofyn am ddefnyddio pŵer strategol y wladwriaeth i ddod ag arloesi drwodd ar draws yr economi. Byddwn yn:

- **Blaenoriaethu cymorth Llywodraeth ar gyfer arloesi tuag at yr IS-8** a'r dinas-ranbarthau a'r clystyrau lle maent wedi'u crynhoi, gan sicrhau eu bod yn cael eu blaenoriaethu gan ein cyrff cyllido cyhoeddus, megis Ymchwil ac Arloesi'r DU.
- **Canolbwyntio system ymchwil a datblygu'r DU ar dwf economaidd hirdymor**, gyda thri nod pwysig ar gyfer buddsoddiad yn y sector cyhoeddus: hyrwyddo ymchwil sylfaenol sy'n cael ei yrru gan chwilfrydedd; cyflawni blaenoriaethau'r Llywodraeth; a gwella ffurfio a thwf cwmnïau arloesol.
- **Cymryd ymagwedd barhaol, ar lefel systemau** trwy ein Fframwaith Gwyddoniaeth a Thechnoleg, i sicrhau bod gwyddoniaeth a thechnoleg yn llywio sut rydym yn cyflawni ein cenhadaeth genedlaethol ac yn gyrru twf economaidd.
- **Helpu cwmnïau arloesol sydd â photensial twf uchel i ehangu a thyfu yn y DU**, gyda phecyn integredig o gymorth sy'n alinio ein hymyriadau arloesi ac ymchwil a datblygu â pholisi ehangach y Llywodraeth, gan gynnwys ar fynediad at gyllid, sgiliau, seilwaith, rheoleiddio a chaffael.
- **Gwneud y DU y lle gorau yn y byd i fuddsoddi mewn AI**, i harneisio ei phŵer trawsnewidiol i'r economi. Mae'r Llywodraeth yn gweithredu argymhellion y *Cynllun Gweithredu Cyfleoedd AI*, gan greu economi Barod am AI, trwy well seilwaith AI, mynediad at ddata sydd ar gael yn gyfreithiol, mabwysiadu AI ar draws yr economi, rheoleiddio o blaid arloesi, a datblygu a denu talent AI elitaid.
- **Cynyddu'r gwaith o fabwysiadu technoleg yn yr IS-8** i gynyddu eu cynhyrchiant a'u cystadleurwydd, gan weithredu ar y canfyddiadau a nodir yn yr *Adolygiad o Fabwysiadu Technoleg*.
- **Casglu arbenigeddau technoleg mewn diwydiant ffiniol** i gynyddu buddion goferu, yn enwedig mewn technolegau sifil/milwrol lle gall technoleg gynorthwyo diogelwch cenedlaethol a thwf economaidd.

Yr ymyriadau

Er mwyn datblygu'r blaenoriaethau hyn, rydym wedi ymrwymo i'r camau canlynol:

- **Sbarduno arloesi yn ein diwydiannau ffiniol**, wedi'i ategu gan y buddsoddiad cyhoeddus mwyaf erioed o £20.4 biliwn yn 2025/26 gan godi i £22.6 biliwn yn 2029/30, wedi'i dargedu at yr IS-8, gan ysgogi buddsoddi preifat mewn ymchwil, technolegau a chymwysiadau masnachol arloesol. Byddwn yn:
 - **Darparu mwy o sefydlogrwydd cyllid drwy gyllidebau 10 mlynedd ar fuddsoddi ym maes Ymchwil a Datblygu cyhoeddus mewn meysydd penodol**, gan gydnabod bod cylchoedd hirdymor yn ei gwneud hi'n haws i ymchwilwyr a busnesau ffurfio partneriaethau, datblygu talent a chydweithio'n rhyngwladol. Y cyntaf i dderbyn yr ymrwymiad hwn yw'r Sefydliad Technoleg Awyrfod, y rhaglen DRIVE35 ar gyfer moduro, y Ganolfan Gyfrifiadura Cwantwm Genedlaethol, a'r Labordy Bioleg Foleciwlaidd.
 - **Ysgogi cydweithio rhwng diwydiant a'r byd academiaidd** ynghylch cymhwyso ymchwil i heriau'r byd go iawn, gan gynnwys drwy ehangu'r Adnodd Ymchwil AI, clwstwr o uwchgyfrifiaduron, o leiaf 20x erbyn 2030 a Rhaglen Cyflymu Teithiau Ymchwil a Datblygu newydd, gyda £500 miliwn o gyllid. Bydd y mentrau hyn yn ategu buddsoddi parhaus mewn ymchwil sylfaenol sy'n cael ei yrru gan chwilfrydedd, ac sy'n sail i drawsnewidiadau technolegol.
- **Meithrin twf sy'n cael ei arwain gan arloesi ledled y DU** drwy'r Gronfa Partneriaethau Arloesi Lleol, a fydd yn darparu hyd at £500 miliwn i dyfu ein clystyrau arloesi potensial uchel ledled y DU. Bydd y gronfa yn anelu at gynhyrchu £1 biliwn o gyd-fuddsoddi a £700 miliwn o werth ychwanegol i economïau lleol, gan gynnwys trwy swyddi, cynhyrchion a gwasanaethau newydd.
- **Bydd UKRI yn cynyddu'r cymorth i'r IS-8 trwy droi ei raglenni a'i gyllidebau** tuag at flaenoriaethau ymchwil ac arloesi a nodir yn y Strategaeth Ddiwydiannol a'r Cynlluniau Sector - gan gydweithio'n agos â'i adran noddwyr, DSIT, yn ogystal ag adrannau eraill y Llywodraeth a diwydiant. Bydd hefyd yn cael amcanion newydd i nodi ei rôl wrth gyflawni blaenoriaethau'r Llywodraeth, gan gynnwys galluogi arloesi, masnacheiddio, a thyfu ledled y DU. Bydd Innovate UK, fel asiantaeth arloesi'r DU, yn chwarae rhan ganolog wrth gyflymu masnacheiddio technoleg newydd, a byddwn yn sicrhau bod y Rhwydwaith Catapult, y mae Innovate UK yn ei ariannu, hefyd yn canolbwyntio ar ein blaenoriaethau Strategaeth Ddiwydiannol.
- **Sefydlu Uned AI Sofran newydd** o fewn y Llywodraeth, gyda hyd at £500 miliwn i gynyddu cyfran y DU mewn AI ffiniol. Bydd yr Uned yn gweithio gyda Banc Busnes Prydain i wneud buddsoddiadau ochr yn ochr â chynnig ehangach ar ddata, cyfrifiadura a thalent i adeiladu galluoedd AI y DU mewn partneriaeth â'r sector preifat. Bydd llwyddiant yn cael ei

olrhain gan fetrigau gan gynnwys buddsoddiad a drosolir, nifer y busnesau newydd a gefnogir, canlyniadau partneriaeth gyda chwmnïau cyfnod diweddarach a safleoedd ymchwil AI y DU.

- **Parhau i gefnogi prifysgolion trwy Gyllid Arloesi Addysg Uwch.** Roedd hyn werth £280 miliwn yn 2024-2025, a bydd hyn yn parhau i gefnogi prifysgolion yn Lloegr i weithio gyda busnesau, elusennau a'r gymuned ehangach er budd economaidd a chymdeithasol, gan gynnwys trwy ddileu'r risg o arloesi cyfnod cynnar, darparu cymorth datblygu busnes a rhoi hwb i hyfforddiant entrepreneuriaeth.
- **Symud y deial ar fabwysiadu technoleg ar draws yr economi trwy:**
 - **Ehangu ymyriadau profedig.** Mae hyn yn cynnwys ehangu ein rhaglen lwyddiannus Made Smarter Adoption ledled Lloegr gyda hyd at £99 miliwn o 2026 i gefnogi 5,500 o fusnesau gweithgynhyrchu bach a chanolig eraill i gofleidio technolegau newydd. Byddwn hefyd yn ehangu'r model i greu cynllun pwrpasol ar gyfer y sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes. Byddwn hefyd yn rhoi rhaglenni arddangos ar waith i wella hyder a defnydd technoleg ar draws busnesau. Bydd hyn yn cael ei gyflawni, er enghraifft, trwy sefydlu hybiau mabwysiadu newydd ar gyfer roboteg.
 - **Cronfa Mabwysiadu AI Strategaeth Ddiwydiannol** i hwyluso datblygu atebion AI arloesol mewn cwmnïau potensial twf-uchel ar draws yr IS-8.

- **Y Llywodraeth yn cymryd mwy o rôl i gydlynu gweithgarwch mabwysiadu technoleg.** Gan adeiladu ar yr *Adolygiad Mabwysiadu Technoleg*, bydd yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg a DBT yn gweithio gyda thimau polisi a dadansoddi i ddatblygu polisi mabwysiadu technoleg ddigidol a monitro a gwerthuso effaith ymyriadau'r Llywodraeth. Bydd y gwaith hwn yn ceisio egluro tirwedd rhaglenni ar gyfer diwydiant; adeiladu partneriaethau â diwydiannau IS-8 i alluogi mabwysiadu'n gyflymach ac yn ehangach; monitro mabwysiadu AI ar draws yr economi; ac archwilio ymyriadau i wella sgiliau rheoli ar gyfer mabwysiadu, wedi'u targedu'n benodol at uwch arweinwyr mewn diwydiant.

"Gallai'r budd o arloesi AI yn unig ychwanegu hyd at £47 biliwn y flwyddyn at y DU mewn cynnydd cynhyrchiant dros y degawd nesaf."

Diwydiannau Ffiniol gyda Chymwysiadau Sifil a Milwrol

Mae ein Cynlluniau Sector yn blaenoriaethu diwydiannau ffiniol sy'n hanfodol i ddatblygu technolegau a galluoedd gyda chymwysiadau sifil a milwrol, a lle mae buddsoddi yn cefnogi twf economaidd a diogelwch. Mae'r rhain yn cynnwys deunyddiau uwch, awyrofod, ai, technolegau cysylltedd uwch, batris, seiber, bioleg beirianeg, niwclear, cwantwm, lled-ddargludyddion a gofod.

Byddwn yn datblygu ac yn cynnal ein mantais gymharol yn y meysydd hyn. Er mwyn gwneud y mwyaf o effaith twf a diogelwch ein hymyriadau ar draws ein Cynlluniau Sector, byddwn yn gwella cydlynu ar draws y Llywodraeth a chyda diwydiant, gyda'i gilydd yn nodi blaenoriaethau ar gyfer caffael a buddsoddi sifil-milwrol. Mae hyn yn cynnwys:

- Ymgynghori rhwng y Weinyddiaeth Amddiffyn ac adrannau eraill y Llywodraeth, gan gynnwys DSIT a DBT, wrth ddatblygu blaenoriaethu mentrau ymchwil a datblygu a gwariant arloesi yn y dyfodol, gyda mewnbwn ychwanegol gan y gymuned gudd-wybodaeth.
- Cynnydd mewn cyfranogiad y diwydiant wrth lunio'r cynlluniau hyn, gan gynnwys trwy hysbysebu allanol o rolau arweinyddiaeth, a mewnbwn gan y Panel Cyngori Arloesi Amddiffyn a'r Cyd-gyngor Diwydiannol Amddiffyn.
- Parhau i uwchsgilio cnewyllyn y Gwasanaeth Sifil sy'n gweithio ar groesffordd diogelwch cenedlaethol ac amddiffyn a gwyddoniaeth a thechnoleg, gan gynnwys trwy'r Coleg Diogelwch Cenedlaethol a gwella sylw cliriadau diogelwch perthnasol.
- Gwell trefniadau rhannu gwybodaeth a Llywodraethu rhwng adrannau perthnasol, gan gynnwys fforwm traws-lywodraethol newydd i ddod â chysondeb i ymdrechion i annog datblygu'r technolegau hyn yn y DU, a thwf a llwyddiant cwmnïau sy'n eu datblygu.
- Cydweithio rhwng sefydliadau a chyrrff cyllido ar draws yr ecosystem gwyddoniaeth, arloesi a thechnoleg i sicrhau bod manteision ehangach ymchwil a ariennir mewn meysydd sifil-filwrol yn cael eu cydnabod, gan sicrhau gwerth effeithiol am arian a meithrin amgylchedd ymchwil domestig iach.

Manteisio ar werth data

Mae data yn un o asedau twf heb eu gwireddu yn y DU: mae'n sail fwyfwy i arloesi a chynhyrchiant ym mhob sector. Amcangyfrifir bod gan harneisio data sector preifat a chyhoeddus yn effeithiol y potensial i gynyddu twf cynhyrchiant 0.5%-1.3% y flwyddyn, ag 85% o'r potensial yn y sector preifat, a 15% o'r potensial yn y Llywodraeth a'r trydydd sector.³⁴ Wrth i'r IS-8 ddibynnu'n fwyfwy ar ddata o ansawdd uchel i ddarparu cynhyrchion a gwasanaethau gwell, mae'r gallu i gasglu, rhannu a defnyddio data mewn ffordd ddiogel a dibynadwy wedi dod yn hanfodol.

Mae'r DU eisoes yn creu, cynnal a rhannu ystod o asedau data. Mae hyn yn cynnwys data crai a chynnwys wedi'i ddigideiddio, yn ogystal â chudd-wybodaeth, cynhyrchion a gwasanaethau sy'n deillio o ddata. Mae Banc Bio'r DU yn chwarae rhan bwysig wrth helpu ymchwilwyr i ddeall clefydau a datblygu triniaethau, ac mae Ymchwil Data Gweinyddol y DU yn helpu'r sector cyhoeddus i ddatblygu polisiau mwy gwybodus ar wasanaethau cyhoeddus. Amcangyfrifir y bydd y Gofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol, sef map digidol o bibellau a cheblau tanddaearol yng

Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, yn cynhyrchu dros £400 miliwn o fudd economaidd bob blwyddyn.³⁵ Gallai digideiddio parhaus casgliad yr Amgueddfa Hanes Natur o 80 miliwn o wrthrychau gynhyrchu hyd at £2 biliwn i economi'r DU dros 30 mlynedd a helpu ymchwilwyr i fynd i'r afael â chwestiynau sylfaenol am fywyd ar y Ddaear.³⁶ Mae gan yr asedau data hyn werth cynhenid ac maent yn pweru'r economi ddigidol, yn cefnogi llunio polisiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ac yn gwella'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

Fodd bynnag, mae data yn aml yn rhy ynysig, yn dameidiog neu'n cael ei danddefnyddio yn y DU i'n busnesau a'n gwasanaethau cyhoeddus sicrhau manteision. Adleisiwyd hyn yn yr ymateb i'r ymgynghoriad ffurfiol *Invest 2035* lle awgrymodd ymatebwyr y gallai'r Llywodraeth gymryd camau i oresgyn rhwystrau mynediad i ddata a rhannu data. Mae ein hymgysylltiad â'r diwydiant hefyd wedi amlygu pryderon ynghylch preifatrwydd, rhagfarn ac ymddiriedaeth, yn enwedig wrth ddefnyddio data a chynnwys i hyfforddi AI. Heb weledigaeth glir i ddatgloi gwerth data ar draws yr economi, mae risg bod y DU yn syrthio y tu ôl i gystadleuwyr rhyngwladol sy'n buddsoddi'n helaeth mewn seilwaith rhannu data. Heb gymhellion uniongyrchol i fusnesau rannu data, a all

gynnwys darganfod gwerth y farchnad ar ei gyfer, mae gwarchod data yn aml yn cael ei ystyried fel y dewis masnachol mwy deniadol.

Mae'r DU mewn sefyllfa dda i fod yn arweinydd byd-eang yn yr economi data, gan adeiladu ar ein safle presennol fel yr economi ddata flaenllaw yn Ewrop. Mae gennym sefydliadau academaidd pwerus a Diwydiannau Creadigol sy'n cynhyrchu data a chynnwys i arwain arloesi. Mae'r DU yn cynhyrchu rhai o'r setiau data cyhoeddus hydredol gorau yn y byd, gyda mewnwelediadau eisoes yn cael eu defnyddio i greu polisi ac ymyrraeth fwy effeithiol. Ac mae ein rheoleiddio digidol cymesur yn cefnogi sector technoleg ffyniannus sy'n gallu defnyddio data yn gyfrifol. Mae ein cwmnïau sy'n cael eu gyrru gan ddata yn cynhyrchu £85 biliwn bob blwyddyn ac yn cyflogi 5% o holl weithwyr y DU.³⁷

Mae gan y Llywodraeth rôl allweddol i'w chwarae. Trwy wella mynediad at ddata i arloeswyr, ymchwilwyr a busnesau ledled y DU, gallwn drawsnewid bywydau trwy well gwasanaethau cyhoeddus ac arloesi arloesol. Gall mwy o ddefnydd a rhannu data iechyd y DU leihau amseroedd aros y GIG a gwella diagnosteg, tra gall ein data geo-ofodol wella trafniadaeth gyhoeddus

a chynllunio trefol. Trwy gysylltu data ar draws meysydd megis addysg a thai, gallwn nodi rhwystrau a chefnogi ymyriadau sydd wedi'u targedu fwy. Gall gwella mynediad at ddata trafniadaeth a logisteg wella galluoedd a gwytnwch y gadwyn gyflenwi, gan sicrhau bod busnesau a defnyddwyr y DU yn cael mynediad at y nwyddau y mae eu hangen arnynt.

Bydd y manteision economaidd mwyaf yn dod dim ond pan fydd busnesau, dinasyddion a sefydliadau'r sector cyhoeddus yn gallu casglu, rhannu a defnyddio data yn hyderus, yn effeithiol ac yn gyfrifol. Er mwyn gwneud yn fawr o botensial economaidd data ar draws yr economi, rhaid i ni nid yn unig wella mynediad at ddata sector cyhoeddus o ansawdd uchel, ond hefyd sicrhau y gallwn fesur ei werth a cheisio budd priodol. Mae angen i ni wella gallu busnesau a defnyddwyr y DU, er mwyn sicrhau bod manteision rhannu data yn cael eu gwireddu ar hyd pob agwedd ar ein heconomi. Mae angen eglurder polisi, arweinyddiaeth, cydweithredu traws-sector a gweledigaeth hirdymor glir y byddwn yn ei chyflawni trwy'r Strategaeth Ddiwydiannol fodern.

Y dull

I fynd i'r afael â hyn, byddwn yn:

- **Trin data fel ased economaidd, ariannol a chymdeithasol modern**, gan greu'r amodau ar gyfer buddsoddi mewn data a sicrhau bod ei werth yn cael ei wireddu'n uniongyrchol ac ar draws yr economi.
- **Sicrhau bod gan fusnesau, arloeswyr a'r sector cyhoeddus yr offer, y seilwaith a'r galluedd** i ddatgloi manteision ariannol, economaidd a chymdeithasol data.
- **Trawsnewid sut mae data yn cael eu defnyddio i gynyddu twf a gwella bywydau**, grymuso unigolion gyda'u data eu hunain a galluogi busnesau i wneud mwy gyda data a chael budd ariannol o'u hasedau wrth gynnal ymddiriedaeth y cyhoeddus.

Yr ymyriadau

Erbyn 2035, ein nod yw sefydlu'r DU yn arweinydd byd-eang mewn arloesi a chreu cynnwys sy'n cael ei yrru gan ddata, gyda seilwaith rhannu data cadarn, diogel a rhyngweithredol sy'n cefnogi twf economaidd cynaliadwy, yn gwella gwasanaethau cyhoeddus, ac yn gwneud y gorau o weithlu mwy llythrennog i wella twf cynhyrchiant. Er mwyn hyrwyddo'r blaenoriaethau hyn, bydd y Llywodraeth yn:

- **Datblygu a gweithredu fframwaith prisio data erbyn Ebrill 2026** i lywio dull y Llywodraeth o wireddu gwerth data. Bydd y fframwaith hwn yn helpu'r sector cyhoeddus i asesu ac elwa o werth ariannol, economaidd a chymdeithasol y gwahanol fathau o ddata sydd ganddo - cydbwysu cyfleoedd masnachol â budd y cyhoedd a thwf hirdymor. I weithredu hyn, byddwn yn:
 - **Ehangu'r ystod o drwyddedau safonol a ddefnyddir i sicrhau bod data sector cyhoeddus ar gael.** Bydd hyn yn galluogi arloesi ac yn cynyddu buddion economaidd, cymdeithasol ac ariannol uniongyrchol y DU o ddata cyhoeddus.
 - **Cyflwyno deddfwriaeth** pan fydd amser seneddol yn caniatáu, i symleiddio sut mae'r sector cyhoeddus yn trefnu bod data ar gael mewn ffordd ddibynadwy i fusnesau arloesi a thyfu, wrth ystyried y goblygiadau ar gyfer diogelwch cenedlaethol a diogelu dinasyddion a busnesau.
- **Buddsoddi hyd at £12 miliwn ym Mentrau Seilwaith Rhannu Data'r DU o fis Ebrill 2026 ymlaen.** Gan ddysgu o arferion rhyngwladol, gan gynnwys y Gofodau Data Ewropeaidd Cyffredin, bydd y rhain yn hyrwyddo dulliau effeithiol a mwy cydgysylltiedig o lywodraethu, ystyriaethau cyfreithiol, rheoliadau, rhyngweithrededd data,

diogelwch ac ymddiriedaeth. Bydd busnesau'n gallu mabwysiadu'r dulliau hyn a derbyn arweiniad, gan leihau costau a gwella eu gallu i harneisio data o wahanol sectorau.

- **Cefnogi datblygiad marchnadoedd neu gyfnewidfeydd data a chynnwys yn y DU.** Bydd y rhain yn sefydlu marchnadoedd yn y DU ar gyfer data fel ein bod yn sicrhau mantais gystadleuol i'n busnesau, arloeswyr a chrewyr. Trwy eu galluogi i drafod telerau, bydd yn caniatáu iddynt greu gwerth o'u hasedau a chefnogi arloesi. Fel cam cyntaf, ac fel y nodir yn y Cynllun Gweithredu AI, byddwn yn sefydlu Cyfnewidfa Cynnwys Creadigol (CCE) i fod yn farchnad ddibynadwy ar gyfer gwerthu, prynu, trwyddedu a galluogi mynediad a ganiateir i asedau diwylliannol a chreadigol wedi'u digido. Bydd hyn yn agor ffrydiau refeniw newydd ac yn caniatáu i berchnogion cynnwys fasnacheiddio ac ariannu eu hasedau wrth ddarparu rhwyddineb mynediad i ddefnyddwyr data. Yn y modd hwn, bydd y CCE yn helpu i danio'r don nesaf o arloesi creadigol wrth hwyluso datblygu modelau AI gwerth uchel. Caiff y gwaith o ddarganfod a phrofi modelau a thechnolegau priodol gyda pherchnogion cynnwys mabwysiadwyr cynnar gymorth gan Raglen Cyflymu Cenadaethau Ymchwil a Datblygu UKRI.

- **Buddsoddi £36 miliwn i gefnogi cynlluniau Data Clyfar newydd,** gan ganiatáu i ddefnyddwyr a busnesau rannu eu data'n ddiogel â thrydydd partïon awdurdodedig yn gyfnewid am gynigion cynnyrch gwell, gwasanaethau wedi'u teilwra, ac iawndal ariannol. Byddwn yn bwrw ymlaen â chynigion ar gyfer cynlluniau mewn ynni a gwasanaethau ariannol ac yn archwilio'r potensial ar gyfer Data Clyfar mewn sectorau eraill, gan gynnwys trafnidiaeth, marchnadoedd digidol, ac eiddo. Gallai Data Clyfar gael effaith sylweddol ar dwf oherwydd buddion symudedd data o ran cystadleuaeth a chynhyrchiant. Mae hyn i'w weld o lwyddiant Bancio Agored, lle mae 82 o gwmnïau yn unig wedi codi dros £2 biliwn mewn cyllid preifat ers 2018 ac wedi creu 4,800 o swyddi medrus.³⁸
- **Cyflwyno'r Llyfrgell Ddata Genedlaethol,** gyda chymorth dros £100 miliwn o gyllid y Llywodraeth. Bydd hyn yn cryfhau sector AI y DU sy'n tyfu'n gyflym, yn darparu'r sylfeini data dibynadwy ar gyfer arloesi a thwf yn yr IS-8, ac yn cefnogi digideiddio yn y Llywodraeth gan ddatgloi data sector cyhoeddus gwerth uchel mewn modd cyfrifol. Bydd y Llyfrgell Ddata Genedlaethol yn ategu mentrau a gyhoeddwyd yn ddiweddar, gan gynnwys creu ein Gwasanaeth Ymchwil Data Iechyd newydd drwy bartneriaeth gwerth £600 miliwn ag Ymddiriedolaeth Wellcome, gan sefydlu un pwynt mynediad diogel i setiau data'r GIG.

Gwella sgiliau a chyflymu mynediad at dalent

Mae cystadleurwydd ein sectorau twf uchel yn dibynnu ar eu mynediad at sgiliau a thalent. Bydd sicrhau bod gan y DU boblogaeth iach y mae ei sgiliau yn bodloni anghenion cyflogwyr yn dod â phobl i mewn i'r farchnad lafur ac yn datgloi cyfleoedd am swyddi ansawdd uchel. Mae sgiliau yn cynyddu cynhyrchiant, yn cynyddu arloesi, ac yn cefnogi mabwysiadu technoleg.³⁹ Mewn oes o newid technolegol cyflym, wrth i sgiliau newydd ddod i'r amlwg ac awtomeiddio ac AI drawsnewid natur gwaith yn sylfaenol, bydd cryfder a dyfnder cyflenwad sgiliau'r DU, gan ddechrau gyda'r blynyddoedd cynnar a'r ysgol hyd at ymwybyddiaeth dechnoleg uwch reolwyr, yn hanfodol ar gyfer denu buddsoddi symudol yn fyd-eang a thrawsnewid busnesau. Mae hyn yn golygu bod angen i ni gefnogi'r gweithlu i fod yn barod ar gyfer swyddi gwyrdd y dyfodol, yn ddigidol lythrennog iawn, yn ddeallus ynghylch AI, ac yn barod i uwchsgilio ac ailhyfforddi i fanteisio ar gyfleoedd mewn sectorau sy'n dod i'r amlwg.

Sgiliau a thalent yw nodwedd ddeniadol y DU i'r byd ers tro. Mae gennym brifysgolion o'r radd flaenaf a gweithlu addysgedig gydag un o'r lefelau uchaf o gyrhaeddiad trydyddol yn yr OECD.⁴⁰ Mae'r ffaith ein bod yn agored yn ein gwneud yn atyniadol i'r mwyaf disglair a'r goreuon. Ac mae ein system sgiliau, canolfannau gwaith, a'n system cymorth cyflogaeth ehangach yn creu cyfleoedd ac yn adeiladu gwytnwch economaidd trwy ddarparu cyfleoedd hanfodol i garfan amrywiol, o'r rhai sy'n awyddus i ymuno â'r gweithlu am y tro cyntaf i'r rhai sydd mewn perygl o golli eu swydd i awtomeiddio – gan gefnogi ein huchelgais hirdymor o 80% o gyflogaeth.

Ond nid yw'r system bresennol yn gweithio i bawb. Nid yw gormod o bobl ifanc wedi symud ymlaen i addysg dechnegol a galwedigaethol neu uwch, ac mae gormod o weithwyr yn cael eu dal mewn gwaith ansicr, o ansawdd isel.

Dros y 15 mlynedd ddiwethaf, rydym wedi gweld gostyngiadau mewn cyfranogiad mewn addysg bellach oedolion a buddsoddiad cyflogwyr mewn hyfforddiant fesul gweithiwr. Rydym hefyd wedi gweld gostyngiad mewn cyfranogiad mewn prentisiaethau a'r niferoedd yn gostwng bron pumed ran rhwng 2016/17 a 2023/24.⁴¹ Mae 10% o fusnesau yn nodi o leiaf un swydd wag oherwydd prinder sgiliau.⁴²

Yn benodol, nid yw'r system yn gweithio ar gyfer yr IS-8. Mae prinder sgiliau sylweddol ar draws ein diwydiannau ffiniol a sylfaenol, a dim ond 9% o ddysgwyr galwedigaethol uwchradd uwch sy'n graddio yn y sectorau peirianeg, gweithgynhyrchu ac adeiladu y mae galw amdanynt, o'i gymharu â chyfartaledd yr OECD o 32%.⁴³ Dros y pum mlynedd ddiwethaf bu cynnydd o 20% mewn ceisiadau prifysgol mewn peirianeg a thechnoleg, ond mae nifer y graddedigion peirianeg bob blwyddyn wedi aros yn sefydlog.⁴⁴ Yn ein hymgynghoriad ffurfiol *Invest 2035*, nododd ymatebwyr nifer

o rwystrau sy'n effeithio ar ddatblygiad y gweithlu yn y DU ac roeddent yn teimlo y dylid blaenoriaethu hyblygrwydd i fodloni gofynion penodol gwahanol sectorau neu ddiwydiannau. Yn ein hymgysylltu ehangach â rhanddeiliaid, mae Busnesau wedi dweud wrthym nad yw'r system sgiliau yn diwallu eu hanghenion, heb ddigon o'r hyblygrwydd y mae ei angen arnynt i adeiladu gweithlu modern, sydd â'r sgiliau cywir – gan gynnwys sgiliau AI, digidol, rheoli a sgiliau data, gan lesteirio ymdrechion i fabwysiadu technoleg a'r buddion o ran cynhyrchiant y gall hyn eu cynnig.

Y dull

I fynd i'r afael â hyn, byddwn yn:

- **Sicrhau bod y system sgiliau a'r cymorth cyflogaeth yn cael eu halinio â blaenoriaethau economaidd strategol, gan gynnwys anghenion yr IS-8 a chyfleoedd trawsnewidiol fel AI.** Gan weithio gyda phartneriaid gan gynnwys Awdurdodau Strategol y Maer, byddwn yn harneisio pob rhan o'r system i greu cyflenwad talent ar gyfer galwedigaethau hanfodol, o'n cynlluniau profiad gwaith a'n prentisiaethau, i'n sectorau Addysg Uwch ac Addysg Bellach, i'n rhwydwaith o Ganolfannau Gwaith - sy'n darparu cymorth cyflogaeth i filiynau o bobl, a llawer ohonynt â chymwysterau lefel gradd.⁴⁵ Gan fod polisi addysg wedi'i ddatganoli, byddwn yn partneru â Llywodraethau datganoledig i alinio dulliau ar flaenoriaethau sgiliau a rennir yn ein sectorau Strategaeth Ddiwydiannol.

- **Symleiddio'r system sgiliau yn Lloegr i ddarparu mynediad haws i swyddi yn yr IS-8, a fydd o fudd i bawb.** Bydd Skills England yn chwarae rôl hanfodol wrth fynd i'r afael â materion systemig trwy ddod â chydlyniant, symleiddio'r dirwedd a chyd-dylunio atebion i brinder sgiliau mewn cydweithrediad â busnesau.
- **Annog ymgysylltu a buddsoddi gan gyflogwyr i fynd i'r afael â bylchau sgiliau ac adeiladu cyflenwadau talent,** gan gynnwys drwy weithio gyda Skills England i nodi anghenion a chyd-ddatblygu atebion. Bydd Skills England hefyd yn gweithio gyda Llywodraethau datganoledig i greu system sgiliau gydlynol a hygyrch i'r IS-8 fanteisio arni ledled y DU.
- **Ei gwneud hi'n haws i arloeswyr, buddsoddwyr, entrepreneuriaid, ymchwilwyr a phobl greadigol ddod i'r DU i fyw a gweithio** drwy leihau biwrocratiaeth a chynyddu ein talent ryngwladol.
- **Hyrwyddo mentrau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, fel y nodir yn ein Cynlluniau Sector, gyda'r nod o wella amrywiaeth y gweithlu i gefnogi twf busnes ac economaidd.** Mae amrywiaeth yn y gweithlu yn hanfodol i ddenu a chadw talent yn yr IS-8.

Yr ymyriadau

Er mwyn datblygu'r blaenoriaethau hyn, rydym yn ymrwymo i:

- **Alinio ein systemau sgiliau â'r IS-8.** Byddwn yn cymryd camau i sicrhau bod unigolion yn cael eu cefnogi ar bob cam o fywyd i ddatblygu'r sgiliau y mae eu hangen arnom i yrru cynnydd:
 - **Darpariaeth ar gyfer pobl ifanc 16-19 oed:**
 - **Byddwn yn sicrhau bod digon o gyrsiau i gefnogi 65,000 ychwanegol o bobl ifanc 16-19 oed yn Lloegr erbyn 2028-29,** gan gynnwys darparu llwybrau allweddol i alwedigaethau blaenoriaeth yn yr IS-8. Trwy Breimymau Cwrs Gwerth Uchel byddwn yn darparu codiadau cyllid i gyrsiau blaenoriaeth sy'n

cefnogi sectorau IS allweddol, megis peirianeg a digidol. Mae'r meysydd hyn yn mynd i'r afael â phrinder sgiliau critigol sy'n sail i sawl sector yn yr IS.

- **Byddwn yn sicrhau bod cyllid yn cael ei ddarparu i fynd i'r afael â'r heriau o recriwtio a chadw athrawon o ansawdd uchel mewn Addysg Bellach, yn enwedig ar gyfer cyrsiau sy'n cwmpasu sgiliau mewn prinder mewn sectorau blaenoriaeth.** Rydym wedi rhoi hwb £400 miliwn i'r cyllid ar gyfer darpariaeth 16-19 oed yn 2025-26, ac rydym yn buddsoddi £160 miliwn arall mewn colegau a darparwyr eraill i fynd i'r afael â blaenoriaethau, megis recriwtio a chadw. Yn ogystal,

mae bron 6,000 o athrawon AB ar ddechrau eu gyrfa mewn meysydd megis STEM wedi derbyn taliadau Cymhelliant Cadw wedi'u Targedu gwerth hyd at £6,000 yn ddi-dreth.

- **Byddwn hefyd yn buddsoddi yn yr ystâd a'r cyfleusterau sydd eu hangen i ddarparu hyfforddiant blaenoriaeth** gyda Buddsoddiad Cyfalaf o £200 miliwn drwy'r Gronfa Cenhadaeth Sgiliau i fynd i'r afael â phrinder penodol i'r sector, gan gynnwys ehangu Colegau Rhagoriaeth Dechnegol y tu hwnt i adeiladu. Mae hyn yn ychwanegol at £375 miliwn o fuddsoddiad cyfalaf i gefnogi capasiti ôl-16 i ddarparu ar gyfer dysgwyr ychwanegol sy'n dod i mewn i'r system. Mae'r Llywodraeth hefyd yn buddsoddi £1.7 biliwn o gyllid cyfalaf rhwng 2026-27 a 2029-30 i helpu colegau i gynnal cyflwr eu hystâd, gan gynnwys dyraniad blynyddol sy'n codi yn unol â chwyddiant.
- **Hyblygrwydd yr Ardoll Twf a Sgiliau:**
 - **Byddwn yn parhau i gyflwyno prentisiaethau byrrach a phrentisiaethau sylfaen** i roi cyfle i fwy o bobl ddysgu ac ennill yn sectorau IS-8 o fis Awst 2025 ymlaen. Mae hyn yn adeiladu ar enghreifftiau a gyhoeddwyd yn flaenorol ym maes peirianeg, gweithgynhyrchu a digidol.
 - **Byddwn yn mynd ymhellach trwy gyflwyno cyrsiau byr yn Lloegr, a ariennir drwy'r Ardoll Twf**

a Sgiliau, mewn meysydd megis digidol, deallusrwydd artiffisial a pheirianeg.

Bydd y rhain yn cefnogi sectorau Strategaeth Ddiwydiannol megis y Diwydiannau Creadigol a Gweithgynhyrchu Uwch o fis Ebrill 2026 ymlaen. Byddwn yn gweithio gyda Skills England i benderfynu ar y cyrsiau a fydd yn cael eu blaenoriaethu yn y don gyntaf a gyflwynir a'r tonnau dilynol, a sut mae'r rheini yn eistedd ochr yn ochr â phrentisiaethau a llwybrau hyfforddi eraill. Byddwn yn gweithio gyda Skills England i gyflwyno'r cyrsiau byr hyn ac ystyried sut i flaenoriaethu buddsoddi ar draws y rhaglen

- **Addysg Uwch:**

- **Bydd y Grant Blaenoriaethau Strategol yn cael ei dargedu'n fwy effeithiol** tuag at ddarpariaeth flaenoriaeth sy'n cefnogi anghenion sgiliau yn y dyfodol a'r Strategaeth Ddiwydiannol. Byddwn hefyd yn nodi diwygiadau ar gyfer y system Addysg Uwch yn Lloegr yn y Papur Gwyn Addysg a Sgiliau Ôl-16 sydd i ddod, gan gydnabod rôl hanfodol prifysgolion yn beiriannau arloesi a sgiliau (gweler y ffeithlun prifysgolion isod).
- **Dysgu gydol oes:**
 - **O fis Ionawr 2027 ymlaen byddwn yn lansio'r Hawl i Ddysgu Gydol Oes** a fydd yn galluogi unigolion i ddysgu, uwchsgilio ac ailhyfforddi ar draws eu bywydau gwaith.

Bydd y cyrsiau modiwlaid cyntaf i'w cymeradwyo yn cefnogi dilyniant i'r IS-8. Mae'r gyfran sylweddol o'r Gronfa Sgiliau i Oedolion sy'n cael ei datganoli i Awdurdodau Strategol Meiri'n targedu anghenion sgiliau lleol yn unol â Chynlluniau Twf Lleol a Chynlluniau Gwella Sgiliau Lleol, gan ddarparu cymorth pellach i oedolion sy'n dysgu, i ddiwallu anghenion sgiliau yn yr IS-8, gan gynnwys drwy Fwtcampau Sgiliau, Rhaglenni Academi Gwaith Seiliedig ar y Sector, a Chyrsiau Rhad ac Am Ddim ar gyfer Swyddi.

– **Buddsoddi:**

- **Byddwn yn darparu £1.2 biliwn o fuddsoddiad ychwanegol mewn sgiliau y flwyddyn erbyn 2028-29** ochr yn ochr â chefnogaeth bellach gan fesurau a amlinellir yn y Papur Gwyn Mewnfudo.

- **Darparu cymorth penodol ar gyfer sgiliau sy'n hanfodol i'r IS-8. Byddwn yn cyflwyno tri phecyn arall wedi'u targedu at sgiliau sydd eu hangen mewn sawl sector IS.** Bydd hyn yn adeiladu ar ein pecyn adeiladu ac yn dangos ymhellach ein hymrwymiad i flaenoriaethu a chefnogi'r IS-8 o fewn y system sgiliau:

- **Y cyntaf yw ein pecyn sgiliau technoleg TechFirst**, a gyhoeddwyd gan y Prif Weinidog yn Wythnos Tech Llundain 2025. Byddwn yn buddsoddi £187 miliwn i ddod â sgiliau digidol a dysgu AI i ystafelloedd dosbarth ar draws pob cymuned a pharatoi dinasyddion o bob cefndir ar gyfer gyrfaedd y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys cefnogi dros 4,000

o raddedigion, ymchwilwyr ac arloeswyr mewn meysydd megis AI, seiberddiogelwch a chyfrifiadureg trwy'r rhaglenni TechGrad, TechExpert a TechLocal, ochr yn ochr â chefnogi 1 miliwn o blant ysgol trwy'r rhaglen TechYouth. Rydym wedi lansio partneriaeth diwydiant newydd ar wahân gyda chwaraewyr technoleg mawr, gan gynnwys NVIDIA, Google a Microsoft, i hyfforddi 7.5 miliwn o weithwyr yn y DU mewn sgiliau AI hanfodol erbyn 2030 a byddwn yn archwilio sut i weithredu argymhellion sgiliau AI yr Adolygiad Mabwysiadu Tech, sy'n cynnwys creu rhwydwaith ledled y DU o ganolfannau mabwysiadu AI.

- **Mae'r ail yn becyn peirianeg, sy'n cydnabod bod sgiliau peirianeg wrth wraidd sawl un o'r IS-8.** Byddwn yn darparu buddsoddiad o dros £100 miliwn dros dair blynedd i gefnogi sgiliau peirianeg yn Lloegr, gan weithio gyda Skills England i benderfynu sut y gall hyn gynyddu'r cyflenwad sgiliau drwy addysg bellach ac uwch a phrentisiaethau. Gyda chyllid cyfalaf a ddarperir drwy'r Gronfa Cenhadaeth Sgiliau, bydd hyn yn cynnwys lansio Colegau Rhagoriaeth Dechnegol i fynd i'r afael â phrinder mewn peirianeg, sy'n hanfodol i'r sgiliau sydd eu hangen mewn sectorau blaenoriaeth gan gynnwys Gweithgynhyrchu Uwch, Diwydiannau Ynni Glân a Digidol a Thechnolegau. Bydd Skills England yn sicrhau bod hyfforddiant a chymwysterau yn parhau i gyd-fynd ag anghenion newidiol y gweithlu, gan gynnwys edrych ar fandiau cyllido i sicrhau eu bod yn

adlewyrchu'r cyflawniad (gan weithio gyda phartneriaid allweddol megis Make UK). Byddwn yn gweithio gyda'r sector i sicrhau effaith fwyaf posibl y pecyn hwn, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer cyd-fuddsoddi yn y diwydiant neu gyfraniadau eraill.

- **Mae'r trydydd yn becyn amddiffyn i roi hwb i nifer y gweithwyr medrus sy'n mynd i mewn i'r sector amddiffyn**, sy'n sylfaenol ar gyfer diogelwch cenedlaethol a thwf economaidd. Byddwn yn sefydlu Colegau Rhagoriaeth Dechnegol Amddiffyn, yn darparu cyllid i gyrsiau ar gyfer sgiliau sy'n gysylltiedig ag amddiffyn, ac yn buddsoddi mewn cyfleusterau prifysgol arloesol i gynyddu lleoedd ar gyfer darparu sgiliau amddiffyn. Bydd cyflwyno'r pecyn hwn yn ymdrech ar y cyd rhwng y Llywodraeth a'r diwydiant; rhoddir manylion llawn yn y Strategaeth Ddiwydiannol Amddiffyn.
- **Bydd y tri pecyn hyn yn adeiladu ar ein pecyn sgiliau adeiladu** sydd, fel y cyhoeddwyd yn flaenorol, yn cynnwys dros £600 miliwn o fuddsoddiad dros y 4 blynedd nesaf i hyfforddi hyd at 60,000 yn fwy o weithwyr adeiladu medrus. Bydd hyn yn cynnwys sefydlu 10 Coleg Rhagoriaeth Dechnegol adeiladu, ehangu'r ddarpariaeth cyrsiau adeiladu, ymestyn Bwtcampiau Sgiliau adeiladu a darparu lleoliadau diwydiant i helpu dysgwyr i fod yn 'barod am y safle'.
- **Gweithio gyda chyflogwyr i ysgogi buddsoddi mewn hyfforddiant a sicrhau ymrwymadau i ddatblygu gweithlu medrus ar gyfer eu sectorau.** Fel y nodir

isod ("Darparu system dreth sy'n cefnogi twf"), gall busnesau hefyd ddiwynnu cost hyfforddi eu staff wrth gyfrifo eu rhwymedigaeth treth gorfforaethol. Bydd annog buddsoddi gan gyflogwyr mewn hyfforddiant hefyd yn cynnwys:

- **Dyfnhau partneriaethau cyflogwyr** trwy Golegau Rhagoriaeth Dechnegol, ehangu lleoliadau diwydiant a hwyluso cyfnewidiadau gweithlu gyda'r system AB. Bydd Skills England yn ymgysylltu â diwydiant a phartneriaid eraill i ddatblygu pasbortau sgiliau, gan adeiladu ar arferion gorau a dysgu o enghreifftiau blaenorol. Bydd hyn yn cefnogi'r gwaith o ddogfennu a throsglwyddo sgiliau a chýmwy-seddau a gydnabyddir gan y diwydiant, yn gwella gwelededd i gyflogwyr a darparwyr, ac yn gwella dilyniant a dysgu gydol oes.
- **Defnyddio pŵer caffael y Llywodraeth i greu swyddi lleol o ansawdd da a hybu sgiliau** trwy symleiddio a chryfhau meini prawf i gyflenwyr gyfrannu at yr amcanion hyn yn eu cynigion. Byddwn yn ymgynghori cyn bo hir ar ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau contractio gyhoeddi ac adrodd yn erbyn o leiaf un dangosydd perfformiad allweddol mewn contractau mawr sy'n sicrhau cyflawni ymrwymadau i greu swyddi, cyfleoedd a sgiliau lleol newydd, gan gynnwys ar gyfer prosiectau seilwaith. Rydym hefyd yn cynnig newidiadau i gyrff cyhoeddus i osod o leiaf un maen prawf dyfarnu mewn caffaeliadau mawr sy'n ymwneud â'r meini prawf gwerth cymdeithasol hyn.

- **Cytuno ar Strategaethau Gweithlu ar gyfer sectorau sy'n wynebu prinder sy'n gysylltiedig â sgiliau, hyfforddiant ac amodau yn y DU, gyda set o gamau diriaethol i symud y deial a chefnogi swyddi da.** Caiff y rhain eu cydlynu a'u cyhoeddi gan adrannau perthnasol y Llywodraeth sy'n gweithio mewn partneriaeth â diwydiant ochr yn ochr ag undebau llafur, arweinwyr lleol, Llywodraethau datganoledig a rhanddeiliaid ehangach. Bydd penderfynu a oes angen Strategaeth Gweithlu ar sector yn seiliedig ar asesiad cychwynnol gan adrannau perthnasol y Llywodraeth ar y cyd â'r sector a Skills England i benderfynu a oes digon o gynlluniau eisoes ar waith i uwchsgilio'r gweithlu domestig. Caiff y gyntaf o'r Strategaethau hyn ei chyhoeddi gan y Swyddfa Swyddi Ynni Glân yn 2025, gan ddefnyddio ein gweithlu ynni medrus presennol wrth i ni greu swyddi da ledled y DU. Bydd y broses ar gyfer cynhyrchu strategaethau yn y dyfodol yn cael ei chefnogi gan grŵp arbenigol newydd, Grŵp Tystiolaeth y Farchnad Lafur (LMEG), sy'n cynnwys y Cyngor Ymgynghorol ar Strategaeth Ddiwydiannol, y Pwyllgor Cynghori ar Ymfudo (MAC), Skills England (a sefydliadau cyfatebol yn y Llywodraethau datganoledig) a'r Adran Gwaith a Phensiynau. Bydd y grŵp hwn yn darparu dadansoddiad ac yn rhannu tystiolaeth i gefnogi datblygiad y strategaethau ac yn helpu'r Llywodraeth i sicrhau bod busnesau'r DU yn yr IS-8 yn cael mynediad at y gweithwyr medrus y mae eu hangen arnynt.
- **Gan gydnabod maint yr her sgiliau, yn ogystal â'r ymyriadau a nodir uchod,** bydd Cadeirydd Skills England, mewn partneriaeth â'r Cyngor Ymgynghorol ar y Strategaeth Ddiwydiannol, yn archwilio sut mae cyflogwyr, unigolion a Llywodraeth leol a chanolog yn gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael ag anghenion sgiliau'r DU i gefnogi swyddi'r dyfodol yn y sectorau sy'n gyrru twf, ac yn arbennig cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu ymhellach â busnes a buddsoddi yn y cyflenwad sgiliau.
- **Helpu mwy o bobl i ddechrau a symud ymlaen mewn gyrfaedd yn yr IS-8, trwy ddiwygiadau i'r ffordd yr ydym yn cefnogi ceiswyr gwaith a'r rhai economaidd anweithgar a thrwy well arweiniad, cyngor a mynediad:**
 - **Cefnogi pobl i ymgymryd â rolau mewn galwedigaethau blaenoriaeth drwy 634 o Ganolfannau Gwaith yr Adran Gwaith a Phensiynau** wedi'u gwasgaru ledled Prydain a thrwy'r system cymorth cyflogaeth ehangach. Bydd DWP yn ehangu'r ystod o gyflogwyr y mae'n eu cefnogi drwy'r Gwasanaeth Swyddi a Gyrfaedd newydd, sy'n dod â'r Ganolfan Byd Gwaith ynghyd â'r Gwasanaeth Gyrfaedd Cenedlaethol, yn Lloegr, i wneud cymorth cyflogaeth, sgiliau a darpariaeth gyrfaedd yn fwy cyfunol. Trwy gynllun Braenaru yng Ngorllewin Swydd Efrog rydym eisoes wedi dechrau profi opsiynau ar gyfer sut y dylai hyn weithredu. Bydd y gwasanaeth newydd ar gael i bawb, nid hawlwyr budd-daliadau yn unig, bydd wedi'i gynllunio i ddiwallu anghenion lleol, a bydd yn hanfodol wrth sicrhau bod mwy o'n gweithlu

domestig yn gallu manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd y bydd y Strategaeth Ddiwydiannol yn eu cynnig.

- **Gan adeiladu ar ymrwymiad y Llywodraeth yn y Papur Gwyn Get Britain Working i greu marchnad lafur gynhwysol lle gall pawb gymryd rhan a chynnydd mewn gwaith.**

Er enghraifft, byddwn yn cefnogi pobl ifanc i gael mynediad at yrfaeod mewn sectorau sy'n gyrru twf drwy'r Warant leuenctid newydd, a fydd yn sicrhau bod gan bob person ifanc 18-21 oed fynediad at ddysgu pellach a help i gael swydd neu brentisiaeth. Rydym hefyd wedi lansio Arloeswyr Anweithgarwch i helpu'r rhai economaidd anweithgar i gael gwaith neu hyfforddiant. Wedi'u teilwra i anghenion ardaloedd lleol, mae'r Arloeswyr hyn yn profi ffyrdd o leihau anweithgarwch ac yn datblygu cynigion cyfunol o gymorth iechyd, cyflogaeth a sgiliau lleol.

- **Galwedigaethau sydd wedi eu heithrio dros dro ac sy'n hanfodol i gyflawni'r Strategaeth Ddiwydiannol o'r cynnydd arfaethedig i'r trothwy ar gyfer y fisa Gweithiwr Medrus.** Bydd yr eithriadau hyn yn berthnasol trwy'r Rhestr Prinder Dros Dro newydd, a fydd yn cael ei chyhoeddi cyn bo hir. Mae'r rhestr yn cynnwys galwedigaethau o bob rhan o'n diwydiannau ffiniol fel weldwyr, labordy, dylunio â chymorth cyfrifiadur, technegwyr TG a pheirianneg, a dadansoddwyr data. Yng Ngwanwyn 2026, bydd y rhestr yn destun adolygiad ar gyngor gan y MAC ynghylch a ddylid ymestyn cynhwysiant galwedigaeth. Gan gydnabod pwysigrwydd hanfodol sgiliau i dwf yn yr IS-8, yn ei gyngor bydd y MAC yn cael ei gefnogi gan aelodau o'r LMEG

i ystyried bylchau sgiliau a ragwelir, gan gydnabod y bydd newidiadau i'r system sgiliau yn cymryd amser i ddwyn ffrwyth. Er mwyn ychwanegu galwedigaethau neu aros ar y Rhestr Prinder Dros Dro, bydd yr LMEG yn disgwyl bod cynllun priodol ar waith sy'n nodi sut y bydd cyflogwyr yn chwarae eu rôl wrth ddatblygu sgiliau domestig a chynnyddu recriwtio lleol. Bydd yr LMEG yn gweithio gyda'r Llywodraeth a'r diwydiant i asesu a oes angen Strategaeth Gweithlu sector ffurfiol a sicrhau bod cynllun o'r fath ar waith mewn pryd i'r MAC wneud eu hasesiad yng ngwanwyn 2026.

- **Canolbwyntio ar gael meddyliau mwyaf craff y byd i adleoli i'r DU, trwy:**

- **Sefydlu Tasglu Talent Fyd-eang newydd**, sy'n adrodd wrth Swyddfa'r Prif Weinidog a'r Trysorlys. Bydd hyn yn darparu gwasanaeth gofawr ar gyfer talent o'r radd flaenaf, gan ddefnyddio ein rhwydwaith rhyngwladol a diaspora'r DU i gysylltu ag unigolion elitaidd; hwyluso glaniad llyfn a meddal i'r DU iddynt; a nodi gwelliannau i'n cynnig i wneud y DU yn gyrchfan naturiol iddynt ddod iddi.
- **Gwella ein cynnig ar gyfer talent o'r radd flaenaf**, gyda Chronfa Dalent Fyd-eang gwerth £54 miliwn i ddenu tua 10 o ymchwilwyr o'r radd flaenaf a'u timau i'r DU, gan dalu costau adleoli ac ymchwil dros bum mlynedd, gyda'r cyllido yn dechrau eleni; a 'Chymrodoriaethau Byd-eang' Al Turing newydd yn benodol ar gyfer ymchwilwyr tramor, sy'n darparu £25 miliwn o gyllid aml-flwyddyn i academyddion i adeiladu tîm a chynnal ymchwil Al arloesol mewn sefydliad yn y DU.



- **Cefnogi hyn gyda'n llwybrau fisa a'n diwygiadau yn ein Papur Gwyn Mewnfudo diweddar.** Byddwn yn gweithredu ehangiad wedi'i gapio a'i dargedu o'r llwybr Unigolyn Potensial Uchel ar gyfer y graddedigion gorau, gan ddyblu nifer y prifysgolion cymwys yn unol â dechrau'r flwyddyn academaidd nesaf, a diwygio'r fisa Talent Fyd-eang i'w gwneud yn fwy hygyrch i dalent orau addawol. Bydd hyn yn cynnwys ehangu'r ystod o gymrodoriaethau sy'n rhoi mynediad i'r fisa Talent Fyd-eang a thrwy wneud y fisa yn hygyrch i ystod ehangach o dalent dylunio. Byddwn hefyd yn adolygu ein fisa Sylfaenydd Arloeswr fel y gall talent entrepreneuriaidd sy'n astudio ym mhrifysgolion y DU symud ymlaen yn haws. Byddwn yn gofyn i'r Tasglu Talent Fyd-eang barhau i hyrwyddo ein holl lwybrau fisa yn rhan o'n cynnig deniadol i dalent gorau'r byd.

- **Gwella symudedd busnes.** Byddwn yn parhau i archwilio ffyrdd i'w gwneud hi'n haws i weithwyr proffesiynol Prydain symud dros dro rhwng y DU, yr UE, a phartneriaid rhyngwladol eraill i ddiwallu anghenion busnes tymor byr ac i ddarparu gwasanaethau i'w cwsmeriaid. Mae hyn yn adeiladu deialogau newydd ar symudedd a chydabod cymwysterau proffesiynol a gyhoeddwyd mewn Uwchgynhadledd rhwng y DU a'r UE ym mis Mai 2025, ac fel rhan o gytundebau rhyngwladol eraill.

Rydym yn cyflawni safleoedd byd-eang uchel ar gyfer arloesi yn gyson ac rydym yn enwog am ein system Addysg Uwch, gyda **4 prifysgol yn y deg uchaf byd-eang, a 17 yn y 100 uchaf.**



QS World University Rankings (2026) Top global universities.



385,500

Swyddi FTE a grëwyd yn uniongyrchol (2021-22)

London Economics (2023) "The impact of the higher education sector on the UK economy; Summary Report for Universities.



£21.74bn

Gweithgarwch allforion ac addysg draws-wladol sy'n gysylltiedig ag addysg y DU (2021)

Llywodraeth EF (2024) Refeniw y DU o allforion sy'n gysylltiedig ag addysg a gweithgarwch addysg traws-wladol ar gyfer 2021

Mae prifysgolion yn **hanfodol i effeithiau economaidd rhanbarthol a lleol** ac maent yn sefydliadau angor yn eu cymunedau lleol, gydag ymchwil yn dangos eu bod ymhlith y tri allforiwr uchaf mewn 102 etholaeth yn y DU*

*Public First (2025) "Global talent and local growth"



382,500

Cefnogir swyddi FTE ledled yr economi ehangach (2021-22)

London Economics (2023) "The impact of the higher education sector on the UK economy; Summary Report for Universities.



Mwy na **80%**

Ymchwil prifysgolion y DU wedi'i ddsbarthu fel 'sy'n arwain y byd' neu'n 'rhagorol yn rhyngwladol'

Research Excellence Framework (2021) Results and submissions

Mae prifysgolion yn gwneud cyfraniad sylweddol i'r economi ac yn chwarae rôl hanfodol yn y system sgiliau ac arloesi ehangach, gydag ymchwil yn dangos y gellid disgwyl i £100 miliwn o fuddsoddiad ymchwil a datblygu cyhoeddus ar gyfartaledd, ymhen 6 blynedd, arwain at gynyrrch blyneddol y sector preifat gwerth **£40 miliwn**

Research Excellence Framework (2021) Results and submissions

Frontier Economics (2024) "Returns to Public R&D: Report for the Department for Science, Innovation and Technology"



Mae prifysgolion yn **ddeoryddion syniadau sy'n sbarduno llwyddiannau masnachol**



Dros 22,000[†]

o gwmnïau gweithredol yn 2023/24 yn gysylltiedig â gweithgareddau deillio eiddo deallusol gan ddarparwyr y DU



Mewn bron i ddegawd (2014-2015 i 2023-2024), tyfodd nifer y busnesau gweithredol a sefydlwyd mewn prifysgolion

72%^{††}

[†] [Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch \(HESA\)](#)

^{††} [Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch \(HESA\)](#)

Lleihau beichiau rheoleiddiol

Mewn oes anrhagweladwy, rhaid i amgylchedd rheoleiddio'r DU fod yn gryfder sy'n cefnogi busnesau yn yr IS-8 i dyfu a buddsoddi yma. Mae llawer o wledydd wedi dysgu'r wers hon o ddull y DU: bod fframwaith rheoleiddio cyson yn hanfodol ar gyfer cynnal cystadleuaeth yn y farchnad a rhoi'r hyder i fusnesau wneud penderfyniadau buddsoddi a herio busnesau presennol.⁴⁶ Mae rheoleiddio cymesur, wedi'i dargedu yn gwella gwytnwch economaidd a diogelwch cenedlaethol.⁴⁷ Mae rheoleiddio ystwyth sy'n cadw i fyny â chynnydd technolegol yn darparu mantais gystadleuol, gan greu amgylchedd dibynadwy ar gyfer dod ag arloesiadau i'r farchnad yn gyflym ac yn ddiogel.

Ond yn rhy aml mae rheoleiddio yn rheswm pam nad yw buddsoddwyr yn buddsoddi. Fel y nodwyd gennym yn ein Cynllun Gweithredu Rheoleiddio, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2025, mae fframwaith rheoleiddio'r DU wedi dod yn rhy gymhleth, ansicr ac yn ofni risg. Mae'n gosod beichiau sylweddol ar ddiwydiant, yn enwedig ar fusnesau twf uchel.⁴⁸ Adleisiodd ymatebwyr i'r ymgynghoriad ffurfiol *Invest 2035* hyn, gyda rhai yn dweud eu bod yn gweld y system reoleiddio yn gymhleth ac yn ddiffygiol o ran gallu addasu, gan ei gwneud hi'n anoddach i fusnesau arloesi ac i BBaChau fynd i mewn i'r farchnad. Ni fyddwn yn cyflawni ein huchelgeisiau oni bai ein bod yn mynd i'r afael â'r risgiau o reoleiddio'n mygu twf.

Y dull

Mae ein Cynllun Gweithredu Rheoleiddio yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer sicrhau bod y system reoleiddio yn cefnogi twf, yn cael ei thargedu ac yn gymesur, yn dryloyw ac yn rhagweladwy, ac yn addasu i gadw i fyny ag arloesi. Bydd hyn yn golygu chwalu rhwystrau rheoleiddio diangen, agor cyfleoedd i gwmnïau potensial uchel, a gwneud arloesi'n haws.

Gan adeiladu ar hyn, byddwn yn:

- **Bwrw ymlaen â diwygio'r system**, gan gynnwys trwy leihau costau gweinyddol rheoleiddio o 25% erbyn diwedd y Senedd hon. Rydym yn cwestiynu costau cyfundrefn reoleiddio'r DU, wrth gyflawni diwygiadau wedi'u targedu i symleiddio neu gael gwared ar brosesau beichus sy'n atal twf a buddsoddi, gan gynnwys ailwampio ein system gynllunio. Lle mae angen rheoleiddio newydd, byddwn yn sicrhau bod costau ar fusnesau yn cael eu lleihau, a byddwn yn parhau i hyrwyddo dewisiadau amgen i reoleiddio.
- **Blaenoriaethu diwygio rheoleiddiol ar gyfer ein diwydiannau ffiniol**, trwy ymyriadau sector-benodol i adnewyddu rheoliadau a chynyddu gallu ac ystwythder rheoleiddwyr, fel y nodir yn ein Cynlluniau Sector, a thrwy sicrhau bod ein fframweithiau rheoleiddio trosfwaol, cyfundrefn cystadleuaeth, cyfraith cwmnïau, a phrosesau diogelwch cenedlaethol yn cefnogi.

Yr ymyriadau

Er mwyn datblygu'r blaenoriaethau hyn, rydym yn ymrwymo i:

- **Gwella perfformiad rheoleiddiwr trwy dryloywder ac atebolrwydd cryfach.** Rydym yn gweithio gyda rheoleiddwyr i ddatblygu targedau clir, wedi'u rhwymo o ran amser ar gyfer prosesu awdurdodiadau ac i gyhoeddi eu perfformiad yn erbyn y targedau hyn yn ogystal â'u Dangosyddion Perfformiad Allweddol eraill. Bydd disgwyl i reoleiddwyr brofi'r mesurau hyn gyda diwydiant ac adrodd i'r Llywodraeth ar eu cynlluniau ar gyfer gwella gwasanaethau. Bydd y rhain yn rhan o fframwaith cryfach gyda mwy o atebolrwydd i reoleiddwyr, mwy o aliniad strategol â blaenoriaethau'r Llywodraeth, a mewnbwn gan arbenigwyr.
- **Gwneud ein system reoleiddio yn fwy cyson ac yn haws i'w llywio.** I wneud hyn byddwn yn:
 - **Symleiddio dyletswyddau ar gyfer rheoleiddwyr y DU,** gyda ffocws cryfach ar dwf a buddsoddi i gynyddu dynameg a menter, ac i gynyddu a gwella craffu ar effeithiolrwydd rheoliadau. Bydd hyn yn cael ei lywio gan yr Adolygiad Corry annibynnol diweddar i reoleiddwyr Defra i asesu a yw tirwedd reoleiddio Defra yn ateb y diben wrth yrru twf economaidd ac adferiad natur.
 - **Uno neu gydgrynhoi rheoleiddwyr lle mae'n gwneud synnwyr i wneud hynny,** gan leihau nifer y rhyngweithiadau sy'n ofynnol i fusnesau ar unrhyw fater unigol. Mae hyn yn ategu adolygiad Swyddfa'r

Cabinet o gyrff cyhoeddus i leihau aneffeithlonrwydd. Mae'r gwaith hwn eisoes wedi dechrau: byddwn yn ymgynghori yn haf 2025 ar gydgrynhoi'r Rheoleiddiwr Systemau Talu a'i swyddogaethau yn bennaf o fewn yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, a byddwn yn dod â'r Awdurdod Meistri Gangiau a Chamdrin Llafur, Arolygiaeth Safonau'r Asiantaeth Cyflogaeth a'r Cyfarwyddwr Gorfodi'r Farchnad Lafur i mewn i'r Asiantaeth Gwaith Teg (FWA) fel bod un corff sy'n gyfrifol am orfodi hawliau cyflogaeth.

- **Gosod dull wedi'i ddiweddarau at reoleiddio economaidd erbyn diwedd 2025,** fel yr amlinellir yn y Strategaeth Seilwaith 10 Mlynedd.
- **Rhoi ffocws a chymesuredd i'n system reoleiddio,** trwy gryfhau goruchwyliaeth y Llywodraeth ganolog o'r agenda diwygio rheoleiddiol trwy greu uned newydd yn y Trysorlys a fydd yn herio reoleiddio diangen ac yn cefnogi cynnydd yn erbyn ein hymrwymiad i leihau costau gweinyddol rheoleiddio o 25% erbyn diwedd y Senedd hon.
- **Dylanwadu ar safonau rhyngwladol** i leihau rhwystrau masnach a'i gwneud hi'n haws i dechnolegau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg gael eu masnacheiddio. Yn benodol, byddwn yn gweithio 'n agos gyda Sefydliad Safonau Prydain, ac yn cyhoeddi strategaeth sy'n nodi ein dull o ddylanwadu ar safonau digidol byd-eang.

- **Sicrhau bod rheoleiddio yn cefnogi ac yn dilyn hynt arloesi.** Mae'r Swyddfa Arloesi Rheoleiddiol (RIO) yn ganolog i'n huchelgais i greu amgylchedd rheoleiddio o blaid arloesi. Mae'r RIO yn mynd i'r afael â'r rhwystrau rheoleiddiol mwyaf i arloesi mewn sectorau sy'n gyrru twf, gan alluogi cymwysiadau technoleg newydd i gyrraedd y farchnad, gyrru newid yn ymddygiad rheoleiddwyr ac agweddau at arloesi, a chefnogi twf economaidd.
- **Gwneud newidiadau rheoleiddiol wedi'u targedu i gefnogi'r IS-8,** gan gynnwys:
 - **Adnewyddu'r mandad Cerbydau Allyriadau Sero** i leihau costau i wneuthurwyr moduro.
 - **Egluro gofynion Gwrth-Wyngalchu Arian a Gwybod Eich Cwsmer** i gefnogi'r sectorau Gwasanaethau Ariannol a Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes.
 - **Symleiddio'r llwybr i'r farchnad ar gyfer cynhyrchion meddygol** sydd eisoes wedi'u cymeradwyo'n rhyngwladol.
 - **Lleihau biwrocratiaeth cynllunio ar gyfer gosod pypiau gwres,** gan gynnwys ar ofynion maint a ffiniau.
- **Datgloi potensial llawn cystadleuaeth i gynyddu dynameg y farchnad a thwf economaidd.** Rydym wedi rhoi llywio strategol newydd i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA), gan osod disgwyliad clir y dylai hyrwyddo twf yn yr IS-8 ac yn ehangach. Rydym yn croesawu ymgysylltiad y CMA â'r rhaglen hon, gan gynnwys ei gyngor ar hybu cystadleuaeth ac arloesi yn y sector Amddiffyn. Wrth edrych ymlaen, byddwn

ni'n ymgynghori ar ddiwygiadau pellach, gan gynnwys newidiadau i brofion awdurdodaeth uno i greu rhagor o sicrwydd i fusnes. Byddwn hefyd yn ystyried cyflwyno mesurau i sicrhau bod angen rhwymedïau marchnad rhwymol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, ac yn gweithio gyda'r CMA i wella cyfundrefn y marchnadoedd yn ei chyfanrwydd.

- **Addasu pa gymorthdaliadau sy'n galw am graffu CMA.** Yn ystod haf 2025 byddwn ni'n cynyddu'r trothwy y mae'n rhaid atgyfeirio cymorthdaliadau at y CMA i'w hadolygu arno, o £10 miliwn i £25 miliwn. Bydd hyn yn helpu'r CMA i ganolbwyntio ar y cymorthdaliadau mwyaf gyda'r effaith fwyaf posibl, yn ogystal â hwyluso'r broses weinyddol a'r amserlenni sy'n ofynnol ar gyfer darparu cymorthdaliadau cymharol lai. Ar gyfer rhai sectorau sensitif bydd y trothwy yn parhau i fod yn £5 miliwn. Rydym yn parhau i adolygu effaith a chymesuredd y gyfundrefn rheoli cymorthdaliadau, a bydd y CMA yn cyhoeddi ei adroddiad annibynnol ar effeithiolrwydd y gyfundrefn yn 2026.
- **Symleiddio gofynion adrodd corfforaethol ac archwilio sut i'w gwneud hi'n haws i gwmnïau tramor symud i'r DU.** Rydym wedi ymrwymo i fwrw ymlaen ag ystod ehangach o fesurau i symleiddio a moderneiddio cyfraith cwmnïau a byddwn yn cyhoeddi ymgynghoriad ar symleiddio gofynion adrodd anariannol o dan Ddeddf Cwmnïau 2006. Rydym hefyd wedi croesawu adroddiad y Panel Arbenigol Annibynnol ar gyflwyno cyfundrefn ailgartrefu corfforaethol yn y DU a byddwn yn ymgynghori ar sut i ddylunio a gweithredu cyfundrefn o'r fath.


Rôl safonau mewn cerbydau hunan-yrru

Ers 2019 mae Sefydliad Safonau Prydain (BSI) wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Ganolfan Cerbydau Cysylltiedig ac Awtonomaidd i gynorthwyo'r gwaith o dreialu, datblygu a masnacheiddio cerbydau hunan-yrru yn ddiogel. Mae hyn wedi golygu bod BSI yn gweithio'n agos gyda sefydliadau treialu, gan gynnwys Wayve, OXA, Horiba Mira a WMG, i ddiffinio arfer da a blaenoriaethu, a gweithredu arferion da yn ystod eu treialon a'u gwaith datblygu.

Yn seiliedig ar fetrigau gwefan a ddarperir gan y BSI, mae'r gyfres o safonau CAM wedi ennyn diddordeb yn fyd-eang, gan ddenu dros 10,000 o lawrlwythiadau o dros 75 o wledydd, ac wedi llywio datblygiad safonau moduro rhyngwladol (ISO), gan arddangos arweinyddiaeth dechnegol y DU. Mae safonau BSI wedi derbyn sylw gan Fforwm Diogelwch ar y Ffyrdd UNECE ac maent wedi'u cynnwys yn y llenyddiaeth gyfeirio ar gyfer rheoleiddio byd-eang y cytunwyd arno.

Gweithiodd BSI hefyd gyda Chomisiwn y Gyfraith cyn y Ddeddf Cerbydau Awtomataidd i ddangos sut y gall safonau gefnogi fframweithiau deddfwriaethol, polisi a diogelwch sy'n dod i'r amlwg. Mae hyn yn hanfodol i greu amgylchedd rheoleiddio cadarn ond arloesol sy'n parhau i ddenu buddsoddiadau ac sy'n ysgogi gwasanaethau a thwf newydd. Cyfle twf pellach o'r gwaith yw'r potensial i rannu'r sylfaen wybodaeth a'r safonau hyn ar draws dulliau trafndiaeth eraill, megis morwrol, hedfanaeth a rheilffyrdd, y mae pob un yn archwilio manteision a heriau integreiddio systemau awtomataidd, ac yn cefnogi arbenigedd academaidd, technegol a gallu cynyddol y DU yn y maes.

"Byddwn ni'n bwrw ymlaen â diwygio'r system, gan gynnwys trwy gryfhau goruchwyliaeth y Llywodraeth ganolog i gyflawni ein hymrwymiad i leihau costau gweinyddol rheoleiddio o 25% erbyn diwedd y Senedd hon."



Cael gwared ar rwystrau cynllunio a chyflymu seilwaith

Mae seilwaith yn darparu'r sylfeini y mae eu hangen ar sectorau twf uchel i arloesi, tyfu a chystadlu'n fyd-eang. Mae seilwaith digidol yn hanfodol ar gyfer bron pob agwedd ar wneud busnes a bydd yn sail i'r chwyldro AI. Mae rhwydweithiau ynni a datblygiadau ynni adnewyddadwy yn hanfodol ar gyfer diogelwch ynni a sero net a gallant gael effaith bendant ar gystadleurwydd busnesau ar draws yr economi.⁴⁹ Mae busnesau yn dibynnu ar seilwaith trafniadaeth i symud eu cynhyrchion a chael mynediad at dalent.

Mae buddsoddi mewn seilwaith yn hanfodol ond nid yw'r DU wedi gweld digon ohono. Mae gan ormod o fuddsoddwyr ganfyddiad o'r DU yn lle mae'n anodd cael unrhyw beth wedi'i adeiladu ynddi – rhy araf, ansicr a drud. Mae rhy ychydig o brosiectau a ariennir yn gyhoeddus wedi'u hymrwymo ac ychydig iawn sydd wedi'u cwblhau. Mae'r galw am seilwaith yn cynyddu ond mae angen gwella'r rhwyddineb cyflawni. Mae ansicrwydd polisi dros yr 20 mlynedd ddiwethaf wedi chwarae rhan, fel y mae'r system gynllunio, yn aml yn gweithredu fel rhwystr i dwf. Yn ôl Grŵp Ymgynghori Boston, mae prosiectau seilwaith mawr yn treulio 65 mis ar gyfartaledd yn y cyfnod cyn-adeiladu, a chynyddodd yr amser cyflenwi bron dwy ran o dair rhwng 2012 a 2021.⁵⁰ Dywedodd ymatebwyr i'r ymgynghoriad ffurfiol *Invest 2035* wrthym fod caniatâd cynllunio, oedi a chymhlethdod yn rhwystr i fuddsoddi mewn seilwaith.

Y dull

Rydym yn bwrw ymlaen â diwygiadau uchelgeisiol i'r system gynllunio yn Lloegr a fydd yn cael Prydain yn adeiladu, ar ôl gosod targed o adeiladu 1.5 miliwn o gartrefi newydd a gwneud penderfyniadau cynllunio ar 150 o brosiectau seilwaith mawr erbyn diwedd y Senedd hon.⁵¹ Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol wedi rhagweld y bydd mesurau adeiladu tai a nodir yn y Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol (NPPF) yn ychwanegu £6.8biliwn at yr economi erbyn 2029/30.⁵² Mae hyn hyd yn oed cyn i'r diwygiadau a gyflwynwyd drwy'r Bil Cynllunio a Seilwaith gael eu hystyried, ac rydym yn amcangyfrif y gallai roi hwb i'r economi hyd at £7.5 biliwn dros y degawd nesaf.⁵³

Byddwn yn:

- **Sicrhau bod y fframwaith cynllunio yn cefnogi twf yn ein hwyth sector blaenoriaeth, fel yr adlewyrchir yn yr NPPF diwygiedig.** Caiff y gwaith o flaenoriaethu hwn ei ymgorffori ymhellach pan fyddwn yn ymgynghori ar set o bolisiâu cenedlaethol i lywio penderfyniadau cynllunio yn ddiweddarach eleni. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r Llywodraethau datganoledig i sicrhau bod ein diwygiadau cynllunio yn effeithio'n gadarnhaol ar dwf ar draws y gwledydd.
- **Darparu mwy o sicrwydd, hyder a sefydlogrwydd trwy ein Strategaeth Seilwaith 10 Mlynedd,** gan sicrhau bod seilwaith yn cael ei gynllunio a'i ddylunio'n dda ac yn cael ei gyflawni'n gyflym ac yn effeithlon i fodloni'r galw cynyddol gan sectorau pwysig.

Yr ymyriadau

Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn:

- **Cyflymu mwy o brosiectau drwy'r broses gynllunio**, trwy:
 - **Cynyddu sicrwydd ar gyfer gigaffatrioedd, labordai, a chanolfannau data** – cyfleoedd masnachol hanfodol yn yr IS-8 - trwy ganiatáu iddynt 'optio i mewn' i'w dynodi'n Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol.
 - **Lleihau'r cyfnod cyn-ymgeisio cyfartalog** ar gyfer prosiectau seilwaith mawr o ddwy flynedd i 12 mis trwy ddileu gofynion ymgynghori gorfeichus. Mae gan hyn y potensial i arbed £1 biliwn i brosiectau yn ystod y Senedd hon, gan fod o fudd i'r IS-8 trwy gyflymu cyflenwi seilwaith trafndiaeth ac ynni mawr.⁵⁴
 - **Lansio Galwad am Dystiolaeth ar ehangu hawliau datblygu a ganiateir** i gefnogi gwaith adeiladu penodol a chyflymu'r gwaith o adeiladu ein seilwaith cenedlaethol, gan gynnwys rhwydweithiau sefydlog a symudol a rhwydweithiau trydan.
 - **Symleiddio prosesau ar gyfer adolygiadau barnwrol** fel bod hawlwy'r yn cael dim ond un cynnig i herio penderfyniad caniatâd datblygu ar gyfer hawliadau a ystyrir yn gwbl ddi-sail, yn hytrach na thri.
 - **Sefydlu Parthau Twf AI** yn hybiau pwrpasol i gyflymu datblygiad seilwaith AI, cefnogi cymeradwyaethau cynllunio, a datgloi mynediad at ynni.
- **Gwneud penderfyniadau cynllunio amserol**, gyda tharged 13 wythnos ar gyfer penderfyniadau a wneir gan Weinidogion ar geisiadau a alwyd i mewn. Mae hyn yn rhoi mwy o hyder i fusnesau bod penderfyniadau ar ddatblygiadau blaenoriaeth uchel, o ffermydd solar a chanolfannau data i dai a thrafnidiaeth, yn cael eu gwneud yn gyflym ac yn cael eu cefnogi gan fframwaith polisi cynllunio mwy strategol.
- **Gwella ymateboldeb Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLLau)** Rydym yn darparu cyllid ar gyfer 300 o swyddogion cynllunio newydd ac yn cynnig hyblygrwydd newydd ar gyfer ffioedd ceisiadau cynllunio i'w gosod yn lleol fel eu bod yn talu costau'r gwasanaeth. Rydym hefyd yn cyflymu digideiddio i annog datblygu a mabwysiadu'r to nesaf o wasanaethau cynllunio. Rydym wedi gweithio gydag ACLLau i gyd-greu meddalwedd cynllunio sy'n hawdd ei ddefnyddio i gyflymu penderfyniadau cynllunio. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau PlanX, sydd wedi lleihau anghywirdebau ceisiadau a nifer y galwadau sy'n gysylltiedig â chynllunio hyd at 60%.⁵⁵
- **Arbed amser ac arian i ddatblygwyr** trwy weithredu Cronfa Adfer Natur a fydd yn golygu y gallant wneud taliad sengl i nodi a bodloni eu rhwymedigaethau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â safleoedd a rhywogaethau gwarchoddedig, gan leihau beichiau presennol ar gyfer yr IS-8 (yn ogystal â sectorau eraill) wrth greu buddion i fyd natur. Mae'r cynllun hwn yn

ddarostyngedig i basio'r Bil Cynllunio a Seilwaith, sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd.

- **Darparu sicrwydd hirdymor ar anghenion a chyflenwi seilwaith y DU,** fel y gall buddsoddwyr wneud penderfyniadau tymor hir. Rydym wedi nodi ein dull gweithredu'n llawn yn ein Strategaeth Seilwaith 10 Mlynedd, gan ategu ein Strategaeth Ddiwydiannol, ac yn haf 2025 byddwn yn cyhoeddi cyflenwad o brosiectau seilwaith y bydd y Llywodraeth yn eu blaenoriaethu. O dan y rhaglen Offeryn Gofodol Seilwaith Cenedlaethol rydym hefyd yn gweithio i ddeall anghenion seilwaith lleol, yn seiliedig ar dai, twf diwydiannol, a senarios defnydd tir, i gryfhau tystiolaeth ar gyfer penderfyniadau buddsoddi mewn seilwaith sy'n seiliedig ar le. Bydd fersiynau o'r offeryn yn y dyfodol yn darparu modd cyson i lywodraeth ganolog a lleol brofi sut mae polisiâu, strategaethau a phenderfyniadau yn rhyngweithio'n ofodol â seilwaith ac i nodi cyfaddawdau gofodol, gyda'r uchelgais o ddarparu gwell tystiolaeth ar ble gall seilwaith wneud y cyfraniadau mwyaf arwyddocaol at dwf economaidd.
- **Dileu rhwystrau i ddefnyddio seilwaith digidol,** gan gynnwys trwy weithredu'r darpariaethau sy'n weddill yn Neddf Diogelwch Cynnyrch a Thelathrebu 2022. Byddwn hefyd yn cyflwyno system drwyddedu fwy hyblyg ar gyfer gwaith stryd ledled Lloegr os bydd y treialon parhaus yn llwyddiannus, gan ei gwneud hi'n haws defnyddio band eang mewn fflatiau, a lansio Galwad am Dystiolaeth ar newidiadau mewn deddfau cynllunio a allai alluogi cyflwyno cysylltiad sefydlog a symudol yn gynt.
- **Helpu teithwyr busnes i fod yn fwy cynhyrchiol gyda gwell mynediad at Wi-Fi.** Drwy wario £41 miliwn i gyflwyno cysylltedd lloeren orbit isel y ddaear ar bob prif drên, byddwn yn gwella'n sylweddol gyflymder argaeledd a chysylltiad rhyngwyrdd ar gyfer teithwyr sy'n gysylltiedig â Wi-Fi, gan alluogi rhwydwaith trafndiaeth wedi'i integreiddio'n well yn ei dro.
- **Gwella cysylltedd drwy fuddsoddi mewn seilwaith trafndiaeth newydd ledled Cymru a Lloegr yn ystod cyfnod yr Adolygiad Gwariant hwn,** gyda:
 - Cyflawni prosiectau rheilffyrdd mawr megis Rheilffordd y Dwyrain i'r Gorllewin, Uwchraddio'r Llwybr Transpennine, HS2, a seilwaith yng Nghymru, a bwrw ymlaen â'r gwaith ar Northern Powerhouse Rail, yn ogystal ag adnewyddu a chynnal a chadw'r rhwydwaith presennol.
 - £24 biliwn o gyllid cyfalaf rhwng 2026-27 a 2029-30 i gynnal a gwella traffyrdd a ffyrdd lleol ledled y wlad.
 - £15.6 biliwn hyd at 2031/32 ar gyfer rhai o ddinas-ranbarthau mwyaf Lloegr i wella cysylltedd trafndiaeth drwy'r aneddiadau Trafndiaeth ar gyfer Dinas-ranbarthau, a £2.3 biliwn o gyllid ar gyfer y Grant Trafndiaeth Leol i wella cysylltedd trafndiaeth mewn dinasoedd, trefi ac ardaloedd gwledig llai.
 - £900 miliwn y flwyddyn i gynnal a gwella gwasanaethau bysiau. Mae dadansoddiad darluniadol o'r diwydiant yn awgrymu y gall buddsoddi cyhoeddus mewn seilwaith a gwasanaethau bysiau gynhyrchu budd o hyd at £4.55 am bob £1 a fuddsoddir.⁵⁶
 - £400 miliwn i gefnogi'r gwaith o gyflwyno seilwaith gwefru ledled y wlad, gan gynnwys hwyluso'r gwaith o ddefnyddio faniau a cherbydau nwyddau trwm di-allyriadau.

Darparu system dreth sy'n cefnogi twf

Yn ogystal â chyllido gwasanaethau cyhoeddus, mae'r system dreth yn elfen hanfodol o dwf a pholisi diwydiannol yn y DU. Mae trethiant yn chwarae rhan sylweddol wrth ddylanwadu ar ymddygiad busnes, defnyddwyr a buddsoddwyr trwy greu cymhellion i fuddsoddi, arloesi a thyfu.

Mae gan y DU gyfundrefn dreth gorfforaethol gystadleuol, gyda'r brif gyfradd isaf yn y G7 a chymorth treth hael ar gyfer buddsoddi mewn asedau ffisegol ac anniriaethol, gwariant ymchwil a datblygu, a masnacheiddio patentau.⁵⁷ Byddwn yn parhau i ystyried sut y gall yr amgylchedd treth gefnogi uchelgeisiau'r Strategaeth Ddiwydiannol, codi ymwybyddiaeth o'r cynnig presennol, a symleiddio'r system dreth i gefnogi cwmnïau twf uchel.

Y dull

Mae'r Llywodraeth eisoes yn darparu cymorth sylweddol i'r IS-8 trwy ystod o ddulliau dylanwadol:

- **Prif gyfradd dreth gystadleuol yn rhyngwladol**, sy'n ategu atyniad y DU fel cyrchfan ar gyfer buddsoddiad a thwf busnes.
- **Lwfansau cyfalaf sy'n arwain y byd**, gan gynnwys treuliau llawn a'r Lwfans Buddsoddi Blynyddol, sy'n hwyluso buddsoddiadau hanfodol mewn offer a pheiriannau sy'n gwella twf.
- **Credydau treth ymchwil a datblygu sylweddol**, sy'n meithrin datblygiadau technolegol, yn gwella cynhyrchiant, yn creu swyddi sgiliau uchel, ac yn helpu busnesau i ennill mantais gystadleuol yn fyd-eang. Mae credydau ymchwil a datblygu uwch hefyd yn darparu cymorth wedi'i dargedu i fusnesau bach sy'n gwneud colledion ac yn darparu ar gyfer gorwelion buddsoddi hirach mentrau arloesol.

- **Cyfundrefn Blwch Patentau cystadleuol**, sy'n sicrhau bod busnesau'r DU sy'n ymwneud ag arloesi yn gallu elwa yn uniongyrchol o'u heiddo deallusol.
- **Cynlluniau buddsoddi fel y Cynllun Buddsoddi Menter Hadau, y Cynllun Buddsoddi Menter, a'r cynllun Ymddiriedolaeth Cyfalaf Menter**, sy'n ysgogi buddsoddi preifat mewn busnesau posibl cyfnod cynnar a thwf uchel, a llawer o'r rhain o fewn yr IS-8.
- **Y Cynllun Cymhelliant Rheoli Menter**, sy'n cefnogi busnesau i recriwtio a chadw gweithwyr medrus pwysig.
- **Cyfes o ryddhad treth hael i'r sector creadigol**, gan atgyfnerthu safle'r DU yn arweinydd byd-eang a gwneud cyfraniadau sylweddol i'r economi a'r diwylliant.
- **Gall busnesau hefyd ddidynnu cost hyfforddi** eu staff wrth gyfrifo eu rhwymedigaeth treth gorfforaethol.

Er bod lleihau cost buddsoddi i fusnesau yn bwysig, rydym wedi derbyn llawer iawn o adborth gan y diwydiant yn pwysleisio'r angen am amgylchedd treth sefydlog a rhagweladwy, gan roi'r hyder i fusnesau wneud buddsoddiadau hirdymor sy'n hybu twf.

Fe wnaethom ddangos ein hymrwymiad i ddarparu sicrwydd a sefydlogrwydd trwy gyhoeddi'r Map Ffordd Treth Gorfforaethol yng Nghyllideb yr Hydref 2024.⁵⁸ Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad i gapio'r Gyfradd Treth Gorfforaethol ar 25%, cynnal y Gyfradd Elw Bach a'r rhyddhad ymylol ar y cyfraddau a'r trothwyon cyfredol, a chynnal nodweddion pwysig megis Treuliau Llawn, y Lwfans Buddsoddi Blyneddol, cyfraddau rhyddhad Ymchwil a Datblygu, a'r Blwch Patentau.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gellir gwneud mwy i ddiwygio a symleiddio'r systemau treth a thollau, i leihau beichiau ar fusnesau a rhoi'r sefydlogrwydd a'r sicrwydd y mae eu hangen arnynt i wneud penderfyniadau buddsoddi hirdymor a pharhau i fewnforio ac allforio. Mae ymrwymadau diweddar wedi cynnwys 39 o fesurau i leihau beichiau gweinyddol ar fusnesau a moderneiddio elfennau sydd wedi dyddio o'r system dreth a phrosesau tollau i symleiddio profiad y cwsmer; a diwygiadau wedi'u targedu ar ddyletswyddau penodol, gan gynnwys moderneiddio trethi stamp ar gyfranddaliadau.⁵⁹ Ymhellach, yn rhan o adolygiad o bob Corff Hyd Braich, bydd swyddogaethau'r Swyddfa Brisió, Asiantaeth Weithredol CThEF yn cael eu dwyn o fewn CThEF i wella'r profiad busnes a chynyddu effeithlonrwydd.

Yr ymyriadau

Rydym yn ystyried yr adborth penodol a dderbynnir yn ofalus a byddwn yn archwilio rhinweddau newid pellach trwy ymgynghoriadau ac ymgysylltu'n ehangach â'r diwydiant:

- Yn unol â chyhoeddiadau a wnaed yn Natganiad y Gwanwyn, mae'r Llywodraeth wedi bod yn cyfarfod â rhanddeiliaid pwysig, gan gynnwys entrepreneuriaid blaenllaw a chwmnïau cyfalaf menter, i archwilio opsiynau i feithrin amgylchedd cadarnhaol, dynamig ymhellach i entrepreneuriaid a busnesau ehangu.
- Fel y nodir yn y Map Treth Gorfforaethol a gyhoeddwyd yng Nghyllideb yr Hydref, rydym wedi bod yn ymgynghori ar broses newydd a fydd yn rhoi mwy o sicrwydd ymlaen llaw i fuddsoddwyr mewn prosiectau mawr ynghylch y dreth a fydd yn berthnasol.
- Byddwn yn edrych ar draws yr holl ddulliau o ddylanwadu sydd ar gael i gyflawni newid yn y Gyllideb yn Hydref 2025 ac ar draws y Senedd, gan gynnwys drwy ystyried yr amgylchedd treth yn barhaus i sicrhau ei fod yn cefnogi uchelgeisiau'r Strategaeth Ddiwydiannol.

Map trethi corfforaethol

Mae'r Map yn gwneud ymrwymiadau ar draws y system dreth gorfforaethol ar gyfer y Senedd hon. Mae'n nodi'r nodweddion allweddol a fydd yn cadw cyfundrefn y DU yn gystadleuol ac yn gefnogol i fuddsoddiad, gan gynnwys:

Capio'r brif gyfradd treth gorfforaethol yn


25%



Cynnal system lwfansau cyfalaf hael y DU, gan gynnwys treuliau llawn parhaol a'r Lwfans Buddsoddi Blyneddol gwerth **£1m**



Cadw Blwch Patentau a chyfundrefn gystadleuol y DU ar gyfer asedau sefydlog anniriaethol




Cynnal haelioni rhyddhad ymchwil a datblygu'r DU



Ymgynghori ar faterion Trethi Corfforaethol rhyngwladol



Moderneiddio gweinyddiaeth dreth a lleddfu'r baich ar fusnes



Cymorth ehangach i sectorau

Mae ein Strategaeth Ddiwydiannol yn canolbwyntio ar yrru twf yn yr IS-8, wedi'i lywio gan ein hasesiad o'r cyfleoedd a'r rhwystrau penodol y maent yn eu hwynebu. Mae'r mesurau a nodir uchod wedi'u cynllunio i sicrhau bod gan y DU yr amgylchedd busnes mwyaf cystadleuol i fusnesau yn y sectorau hyn fuddsoddi a chodi cyfalaf, ac i herwyr newydd fynd i mewn i'r marchnadoedd hyn a gwthio'r ffiniau. Mae'r dewis hwn yn sylfaenol i'n dull gweithredu.

Serch hynny, mae gan y Llywodraeth gyfrifoldeb nid yn unig am yr IS-8 ond am bob diwydiant yn y DU. Er ein bod wedi ymrwymo i gefnogi'r IS-8, fel y ffordd orau o yrru twf cynaliadwy, gwydn a glân sy'n gwella safonau byw ledled y DU, mae gan sectorau eraill rôl i'w chwarae wrth greu swyddi, angori cymunedau, a chryfhau'r economi.

Mae llawer o'r rhwystrau i fuddsoddi ar gyfer yr IS-8 hefyd yn broblem i sectorau eraill, o oedi cynllunio i ansicrwydd rheoleiddio. Bydd eu dadflocio yn ei gwneud hi'n gyflymach ac yn haws gwneud busnes yn y sectorau hyn hefyd. Bydd twf yn yr IS-8 hefyd yn cynhyrchu manteision goferu i weddill yr economi: i ddarparu ond ychydig o ddarluniau, bydd twf yn y Diwydiannau Creadigol yn creu cyfleoedd i'r diwydiannau lletygarwch a manwerthu a'r economi ymwelwyr; bydd awtomeiddio newydd a arloeswyd ac a fabwysiadwyd mewn Gweithgynhyrchu Uwch yn lledaenu ar draws y sector gweithgynhyrchu; a bydd sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes yn tanio ar bob silindr yn helpu busnesau o bob math i gynyddu cynhyrchiant.

Y tu hwnt i'r buddion hyn, bydd y Llywodraeth hefyd yn parhau i weithio gyda sectorau nad ydynt yn perthyn i'r IS-8 yn uniongyrchol. Bydd timau nawdd sector yn y Llywodraeth yn darparu cyngor ymarferol ac yn datblygu polisiau i'w helpu i ffynnu. Bydd hyn yn sicrhau bod gan bob busnes fwy o gyfleoedd i fasnachu, cael mynediad at gyllid ac arloesi.

Cludo nwyddau a logisteg

Mae'r sector cludo nwyddau a logisteg yn gwneud cyfraniad hanfodol i economi'r DU a chystadleurwydd yr IS-8, gan sicrhau bod y nwyddau cywir yn y lle cywir ar yr adeg gywir. Â 76% o weithwyr logisteg wedi'u lleoli y tu allan i Lundain a'r De-ddwyrain, mae'r sector yn cefnogi economïau lleol a chreu swyddi ar draws y pedair gwlad, gyda hybiau mawr yng Nghanolbarth Lloegr a llain ganolog yr Alban. Yn 2023, cyfrannodd oddeutu £79.8 biliwn mewn GVA.⁶⁰ Mae Oxford Economics wedi amcangyfrif bod pob punt o allbwn o'r sector cludo nwyddau a logisteg yn cynhyrchu £2 o wariant mewn manau eraill o'r economi yn 2019, trwy gadwyni cyflenwi a gwariant gweithwyr – un o'r olion troed economaidd uchaf o unrhyw sector yn y DU.⁶¹ Maent hefyd wedi amcangyfrif y gallai twf cynhyrchiant gael hwb o 20% pe bai'r DU yn dod yn arweinydd byd-eang yn y sector.⁶²

Mae'r Llywodraeth yn darparu cymorth parhaus i helpu busnesau cludo nwyddau a logisteg i oresgyn heriau, gan gynnwys tagfeydd trafniadaeth a rhwystrau eraill, prinder sgiliau digidol, a dibyniaeth ar danwydd ffosil. Rydym yn partneru â DHL, DFDS, Port of Tyne, Porthladd Rhyngwladol Portsmouth, Grŵp Welch, Wincanton, a Veterans into Logistics i gefnogi arloesi BBaChau trwy'r cyflymydd Cronfa Arloesi Cludiant Nwyddau. Mae ei lwyddiannau yn cynnwys Skyports, a gymerodd ran ym mlwyddyn gyntaf y Gronfa ac sydd bellach yn darparu gwasanaeth post drôn masnachol cyntaf y DU yn Orkney, mewn partneriaeth â'r Post Brenhinol. Mae ein rhaglen Arddangoswr Seilwaith HGV a Seilwaith Allyriadau Di-allyriadau yn cyflwyno cannoedd o HGVs trydan batri a chelloedd tanwydd hydrogen, a seilwaith gwefru a thanwydd newydd, erbyn mis Mawrth 2026. A bydd uwchraddiadau yn ein seilwaith ledled y DU o fudd sylweddol i'r sector: amcangyfrifir y bydd 4.4 miliwn o gerbydau nwyddau trwm yn defnyddio Croesfan Tafwys Isaf yn ei flwyddyn gyntaf, yn dilyn ein penderfyniad i roi caniatâd datblygu ar gyfer y prosiect.⁶³ Gan weithio'n agos gyda diwydiant, byddwn yn cyflwyno cynllun newydd ar gyfer cludo nwyddau a logisteg yn ddiweddarach eleni fel y gall y sector barhau i chwarae ei ran wrth dyfu'r economi.

Ôl-nodiadau


- 1 [PWC \(2025\) 28ain arolwg blynyddol byd-eang o Brif Swyddogion Gweithredol](#)
- 2 [Yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net \(2025\) International industrial energy prices](#)
- 3 [Yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net \(2025\) Industrial electricity prices in the EU for small, medium, large and extra large consumers](#)
- 4 [Yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net \(2025\) International industrial energy prices](#)
- 5 [UK Steel \(2025\) Industrial electricity prices](#)
- 6 [Yr Adran Busnes a Masnach \(2024\) Invest 2035: the UK's modern industrial strategy](#). Am ragor o wybodaeth am ymgynghoriad Buddsoddi 2035, gweler yr atodiad technegol.
- 7 [National Energy System Operator \(2023\) Connections Reform: final recommendations report](#)
- 8 [National Energy System Operator \(2024\) Clean power 2030](#)
- 9 [CBI Economics \(2025\) The future is green: the economic opportunities brought by the UK's net zero economy](#)
- 10 Dadansoddiad yr Adran Busnes a Masnach (DBT) o [UNCTAD \(2024\) Matrics masnach nwyddau, blynyddol](#) a [Gwasanaethau \(BPM6\): Allforion a mewnforion yn ôl categori gwasanaeth, partner masnach, blynyddol](#). Mae'r dadansoddiad yn cwmpasu 2013-2023 (y blynyddoedd diweddaraf sydd ar gael), wedi'i fapio i sectorau diwydiant (ac eithrio Amddiffyn ac Ynni Glân) gan ddefnyddio diffiniadau sector o'r Adran Busnes a Masnach (2025) Rhagolwg masnach fyd-eang, cyhoeddiad i ddod. USD wedi'i drosi i GBP gan ddefnyddio cyfraddau cyfnewid cyfartalog y flwyddyn, wedi'u tynnu o [Swyddfa Ystadegau Gwladol \(2025\) Cyfradd gyfnewid gyfartalog y bunt: Doler yr Unol Daleithiau](#). Cyfrifwyd twf cyfanredol gan gadw cyfraddau cyfnewid USD / GBP yn gyson.
- 11 Yr Adran Busnes a Masnach (2025) Global Trade Outlook, cyhoeddiad i ddod
- 12 [Yr Adran Busnes a Masnach \(2025\) Cytundeb masnach y DU-India: crynodeb o'r casgliad](#)
- 13 [Yr Adran Busnes a Masnach \(2025\) UK-Japan strategic economic policy and trade dialogue – joint statement](#)
- 14 [Fforwm Economaidd y Byd \(2023\) These are the world's leading science and technology hotspots](#)
- 15 [Yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net \(2024\) Government reignites industrial heartlands](#)
- 16 [Yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net \(2024\) Government reignites industrial heartlands](#)
- 17 [Yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net \(2024\) Civil nuclear: roadmap to 2050](#)
- 18 [Cogent Skills \(2025\) Nuclear workforce assessment](#)
- 19 [London Stock Exchange Group \(2021\) Llundain: open to the world; Banc Busnes Prydain \(2024\) UK now the third largest venture capital market in the world, with biggest increase in share of global investment; Yr Adran Busnes a Masnach \(2025\) Overview of Greenfield foreign direct investment \(FDI\) 2003 to 2023](#).
- 20 [Dealroom \(2025\) The state of global VC](#)
- 21 [Y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(2023\) Ownership of UK quoted shares: 2022](#)

- 22 [Y Gronfa Gyfoeth Wladol \(2025\) Financing the Future, a statement of intent by the National Wealth Fund](#); [Banc Busnes Prydain \(2025\) The Power of 10: 10 Year Impact Report](#); [Cyllid Allforio'r DU \(2023\) UK Export Finance Annual Report and Accounts 2022 to 2023](#); [Cyllid Allforio'r DU\(2024\) UK Export Finance Annual Report and Accounts 2023 to 2024](#)
- 23 Yn seiliedig ar ddadansoddiad gan Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg [y Gronfa Ariannol Ryngwladol \(2024\) Rhagolwg economaidd y byd](#); [Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol \(2024\) Rhagolwg economaidd a chyllidol](#). Mae'r llinell sylfaen yn defnyddio amcangyfrif GDP (2023) yr OBR ag amcangyfrif cynhyrchiant o 1.5% wedi'i gymhwyso dros gyfnod o 10 mlynedd. Y gwahaniaeth yw'r effaith GDP ychwanegol y gellir ei briodoli i fabwysiadu AI gyda ffigur cyfartalog blynyddol o £ wedi'i ddarparu. Mae'r dadansoddiad yn tybio effaith flynyddol linol ar gynhyrchiant, a allai or-symleiddio dymameg economaidd. Efallai na fydd cynnydd cynhyrchiant wedi'i yrru gan AI yn arwain at gynnydd cyfrannol mewn GDP neu gyflogaeth, yn enwedig os yw dadleoli llafur yn fwy na chreu swyddi.
- 24 [Global University Venturing \(2023\) University spinouts doubled fundraising in the last decade](#); [QS World University Rankings \(2025\) Top global universities](#); [World Population Review \(2025\) Nobel prizes by country](#); [World Intellectual Property Organization \(2024\) Which are the most innovative economies in 2024?](#)
- 25 [Yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg \(2024\) Horizon Europe press release](#)
- 26 [Ymchwil ac Arloesi'r DU \(2025\) 2025-26 budget allocations for UK research and innovation](#)
- 27 [Yr Adran Busnes a Masnach \(2024\) UK innovation survey 2023: report](#)
- 28 [Senedd y DU \(2024\) Why is scaling-up still so hard in the UK? Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi i ymchwilio](#)
- 29 [Yr Adran Busnes a Masnach \(2024\) Invest 2035: the UK's modern industrial strategy](#)
- 30 [Yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg \(2025\) Effaith lledaeniad technoleg ar dwf a chynhyrchiant](#)
- 31 [Department for Science, Innovation, and Technology \(2025\) The wider economic impacts of emerging technologies in the UK](#)
- 32 [Swyddfa Ystadegau Gwladol \(2025\) Business insights and impact on the UK economy](#); [Swyddfa Ystadegau Gwladol \(2023\) Digital economy survey: 2021](#); [International Federation of Robotics \(2024\) Robot boom in the UK hits all-time high](#); [Be the Business \(2023\) Productive business index](#); [Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd \(2024\) Share of businesses purchasing cloud services](#)
- 33 [Yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg \(2024\) Business data use and productivity study \(wave 1\)](#)
- 34 [Yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg \(2024\) Data use and access bill NUAR impact assessment](#)
- 35 [Amgueddfa Astudiaethau Natur \(2021\) Digitising the entire museum collection could contribute over £2bn to the global economy](#)
- 36 [Yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg \(2024\) The UK data driven market](#)
- 37 [Yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg \(2024\) Data \(use and access\) bill factsheet: growing the economy](#)

- 38 [Yr Adran Addysg \(2023\) Skills and UK productivity; Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd \(2021\) The role of innovation and human capital for the productivity of industries](#)
- 39 [Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd \(2024\) United Kingdom – overview of the education system – attainment \(2023\); QS World University Rankings \(2025\) Top global universities](#)
- 40 [Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd \(2021\) The role of innovation and human capital for the productivity of industries; Institute for Fiscal Studies \(2023\) Investment in training and skills](#)
- 41 [Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd \(2021\) The role of innovation and human capital for the productivity; Institute for Fiscal Studies \(2023\) Investment in training and skills](#)
- 42 [Yr Adran Addysg \(2022\) Employer skills survey](#)
- 43 [Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd \(2024\) United Kingdom: Overview of the education system; Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd \(2022\) Distribution of enrolled students, new entrants and graduates by field of education.](#)
- 44 [Dadansoddiad yr Adran Busnes a Masnach o UCAS \(2024\), Undergraduate end of cycle data resources](#)
- 45 [Yr Adran Gwaith a Phensiynau \(2025\) Universal credit statistics, 29 April 2013 to 10 April 2025; Yr Adran Gwaith a Phensiynau \(2025\) Get Britain Working White Paper](#)
- 46 [Trysorlys EF \(2025\) New approach to ensure regulators and regulation support growth](#)
- 47 [Trysorlys EF \(2025\) New approach to ensure regulators and regulation support growth](#)
- 48 [Yr Adran Busnes a Masnach \(2022\) Business perceptions survey](#)
- 49 [Yr Asiantaeth Ynni Ryngwladol \(2024\) World Energy Outlook; McKinsey \(2021\) Opportunities for UK businesses in the net-zero transition](#)
- 50 [Boston Consulting Group \(2024\) Reshaping British Infrastructure: Global Lessons to Improve Project Delivery; Yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau \(2023\) Nationally significant infrastructure: action plan for reforms to the planning process](#)
- 51 [Llywodraeth EF \(2024\) Plan for Change: milestones for mission-led government](#)
- 52 [Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol \(2025\) Economic and fiscal outlook](#)
- 53 [Yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau \(2025\) Planning and infrastructure bill: impact assessment](#)
- 54 [Yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau \(2025\) Planning and infrastructure bill: impact assessment](#)
- 55 [Yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau \(2024\) Digital planning programme: our year in review](#)
- 56 [KPMG \(2024\) The economic impact of local bus services](#)
- 57 [Dadansoddiad Llywodraeth EF o Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd \(2024\) Corporate tax statistics](#)
- 58 [Trysorlys EF\(2024\) Corporate tax roadmap 2024](#)

- 59 [Cyllid a Thollau EF \(HMRC\) \(2025\) Tax update spring 2025: simplification, administration and reform summary](#)
- 60 Dadansoddiad yr Adran Busnes a Masnach o [Annual Business Survey y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(2025\)](#). Yn seiliedig ar gategorïau cod SIC 4 digid: 4920, 4941, 4950, 5020, 5040, 5121, 5210, 5221, 5222, 5223, 5224, 5229, 5310, 5320.
- 61 [Oxford Economics \(2025\) Logistics: Delivering a solution to the UK's productivity puzzle](#)
- 62 [Oxford Economics \(2025\) Logistics: Delivering a solution to the UK's productivity puzzle](#)
- 63 [National Highways \(2023\) Lower Thames Crossing 9.72 NTEM 8 and Common Analytical Scenarios](#). Amcangyfrifir ffigur HGV blynyddol o ffigurau modelu traffig sy'n cymhwyso ffactor blynyddol.

Cefnogi dinas- ranbarthau a chlystyrau'r DU



Bydd twf economaidd cenedlaethol yn dod o gynyddu cynhyrchiant lleoedd ledled y DU, â llawer ohonynt yn tanberfformio o'u cymharu â'u cymharwyr rhyngwladol. Mae'r IS-8 yn weithredol ym mhob un o wledydd a rhanbarthau'r DU, ond ni allwn fod yn ddall i le: rhaid i ni nodi a chyflymu'r cyfleoedd mwyaf posibl ym mhob un, wrth fynd i'r afael â'r rhwystrau buddsoddi penodol sydd ynddynt. Bydd hyn nid yn unig yn cryfhau cystadleurwydd yr IS-8 ond hefyd yn gwella gwytnwch cyffredinol yr economi, gyda swyddi â chyflog da, busnesau ffyniannus, a chymunedau lleol wedi'u hadnewyddu ledled y wlad.

- **Dinas-ranbarthau** yw peiriannau'r economi fodern. Canol dinasoedd yw lle mae busnesau, gweithwyr medrus, darparwyr Addysg Uwch, a rhwydweithiau arloesi yn cysylltu; a lle mae sectorau gwasanaeth ddwys o ran gwybodaeth yn ffynnu. Yn eu tro, maent yn creu cyfleoedd gwaith i bobl sy'n byw mewn trefi cyfagos.¹ Mae cyfleoedd a heriau dinas-ranbarthau yn wahanol ledled y wlad:
 - Mae Llundain yn atyniad i ddenu talent fyd-eang, yn un o'r ddwy ganolfan ariannol ryngwladol flaenllaw yn y byd ac yn gartref i ecosystem busnesau newydd blaenllaw Ewrop a rhai o'r prifysgolion gorau yn y byd.² Mae'r Coridor Twf rhwng Rhydychen a Chaergrawnt wedi'i angori gan ddwy o'r prifysgolion gorau yn y byd ac mae'n cyfrannu £40 biliwn i'r economi y flwyddyn.³ Bydd ein Strategaeth Ddiwydiannol yn cefnogi eu cryfderau ar draws yr IS-8.

- Mae gan ddinas-ranbarthau y tu allan i Lundain botensial enfawr. Er mwyn cyflawni hyn, mae'n rhaid i ni fynd i'r afael â'r materion y mae busnesau wedi dweud wrthym eu bod yn cyfyngu ar dwf, gan gynnwys cysylltiadau trafniadaeth gwael, prinder sgiliau, a diffyg cyllid twf a chyfleoedd buddsoddi masnachol hyfyw. Hwn fydd un o ffocysau craidd ein Strategaeth Ddiwydiannol, gyda'r nod o wireddu potensial cynhyrchiant dinas-ranbarthau megis Belfast, Caerdydd, Caeredin, Glasgow, Manceinion Fwyaf, Lerpwl, Gogledd-ddwyrain Lloegr, De Swydd Efrog, Gorllewin Canolbarth Lloegr, Gorllewin Lloegr, a Gorllewin Swydd Efrog. Gallai codi cynhyrchiant yn y dinas-ranbarthau hyn i lefelau cenedlaethol ychwanegu dros £90 biliwn at economi'r DU bob blwyddyn.⁴

- **Mae clystyrau diwydiannol** yn cefnogi sectorau cyfalaf-ddwys, yn aml gyda galwadau sylweddol am dir a phŵer. Mae clystyrau ledled y DU yn hanfodol ar gyfer cystadleurwydd yr IS-8 a gwytnwch economaidd cenedlaethol – o ymreolaeth forol yn Plymouth i Awyrofod yng Ngogledd Cymru a Gogledd Iwerddon, a Diwydiannau Ynni Glân yn Humber a'r Ucheldiroedd. Ond mae busnesau wedi tynnu sylw at y ffaith bod llawer o glystyrau yn cael eu cyfyngu gan ddiffyg cysylltiadau grid a safleoedd sy'n barod i fuddsoddi.

Mae'r Strategaeth Ddiwydiannol yn ymdrech ledled y DU, a byddwn yn sicrhau ei bod yn creu cyfleoedd i bobl a busnesau'r Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Mae gan y tair gwlad gynnig deniadol i fuddsoddwyr yn yr IS-8, ond nid yw strategaethau diwydiannol blaenorol wedi mynd yn ddigon pell i ddiwallu eu hanghenion twf penodol.

Y dull

Byddwn yn:

- **Canolbwyntio ein hymdrechion ar y dinas-ranbarthau a'r clystyrau lle mae'r IS-8 yn canolbwyntio**, trwy:
 - Fuddsoddiadau wedi'u targedu, penodol i'r sector. Mae pob un o'n Cynlluniau Sector yn nodi'r dinas-ranbarthau a'r clwstr pwysicaf ar gyfer y sector hwnnw, gydag ymyriadau i'w cefnogi, o Barthau Arloesi lechyd i'r Gronfa Twf Mannau Creadigol gwerth £150 miliwn, Hybiau Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes a chymorth ar gyfer gweithgynhyrchu Cerbydau Trydan.
 - Pecyn o ymyriadau ar sgiliau, arloesi, safleoedd, hyrwyddo buddsoddiad, cyllid catalytig, a thai i helpu dinas-ranbarthau a chlystyrau i ddenu buddsoddiad preifat, gan adeiladu ar ein diwygiadau ehangach i'r amgylchedd busnes a nodir ym Mhennod 1.
 - Partneriaeth â Llywodraethau datganoledig i sicrhau bod y Strategaeth Ddiwydiannol o fudd i bobl a busnesau yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon, gan adeiladu ar gryfderau pob cenedl a datgloi'r prif rwystrau rhag twf. Byddwn yn parhau i barchu trefniadau datganoledig a chydlynu â strategaethau economaidd Llywodraethau datganoledig, megis *Rhaglen Lywodraeth yr Alban*, *Cenhadaeth Economaidd Llywodraeth Cymru*, a *Rhaglen Lywodraethu Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon* a chynlluniau gweithredu sectoraidd. Mae'r Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Busnes a Diwydiant, a ailgyflwynwyd ym mis Ionawr 2025, yn darparu canolbwynt ar gyfer ymgysylltu rhwng gweinidogion economaidd o bob gwlad.
 - Cydweithio â Meiri ac awdurdodau lleol ar flaenoriaethau a rennir, gan alinio ein Strategaeth Ddiwydiannol â Chynlluniau Twf Lleol 10 mlynedd.
- **Cryfhau cysylltiadau rhwng ac o fewn dinas-ranbarthau a chlystyrau**, gan ddenu a chyfuno ymyriadau i gael yr effaith fwyaf posibl. Mewn amgylchedd byd-eang cystadleuol, mae cysylltedd yn rhan hanfodol o gynnig lle'r DU a'i hatyniad i fuddsoddwyr, gan greu'r amodau a'r integreiddio sy'n cynyddu arloesi, ehangu'r mynediad at dalent, a chryfhau cadwyni cyflenwi.
- **Sicrhau bod buddsoddi cyhoeddus yng ngwledydd a rhanbarthau'r DU yn cael gwrandawriad teg**. Yn dilyn yr adolygiad o'r Llyfr Gwyrdd, y fframwaith ar gyfer ystyried costau, manteision a chyfaddawdau ymyriadau polisi'r Llywodraeth, byddwn yn symleiddio canllawiau ac yn cyflwyno 'achosion busnes seiliedig ar leoliadau' sy'n asesu prosiectau cyflenwol lluosog – megis trafndiaeth, tai a datblygiadau masnachol – mewn un lle.


Yr ymyriadau

Dwyn ymlaen ragor o safleoedd y gellir buddsoddi ynddynt.

Byddwn yn:

- **Lansio Cyflymydd Safleoedd Strategol newydd gyda dros £600 miliwn** i alluogi'r Llywodraeth i ddefnyddio ystod o ymyriadau i ddod â safleoedd i'r farchnad yn gynt, megis adfer tir, capasiti grid rhagweladwy, gwelliannau trafndiaeth, a chymeradwyo caniatâd cynllunio'n gyflym. Cyhoeddir y don gyntaf o safleoedd o fewn blwyddyn, â chyllid yn dechrau o 2026/27. Bydd hon yn rhaglen ledled y DU, a byddwn yn gweithio gyda Llywodraethau datganoledig, arweinwyr lleol, a Meiri i'w gweithredu yng Nghymru, Lloegr, yr Alban, a Gogledd Iwerddon.
- **Gwella ein cynnig ar gyfer Parthau Strategaeth Ddiwydiannol.** Mae porthladdoedd rhydd ledled y DU wedi denu £6.4 biliwn o fuddsoddiad hyd yma.⁵ Rydym wedi ymrwmo i Borthladdoedd Rhydd yn ogystal â Pharthau Buddsoddi ond rydym yn cydnabod bod yn rhaid i ni wneud mwy i'w gwneud yn llwyddiant. Fel y nodir yn y Cynllun Gweithredu a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'n Strategaeth Ddiwydiannol ac a ddatblygwyd gyda'r Llywodraethau datganoledig, byddwn yn gwella ein holl Parthau Strategaeth Ddiwydiannol gyda phrosesau cynllunio symlach, hyrwyddo buddsoddi wedi'i dargedu'n well, cymorth i gael mynediad at gyllid consesiynol, a chymorth cydgysylltiedig ar sgiliau. Rydym hefyd yn gweithio gyda Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon i sefydlu Parth Buddsoddi Uwch yng Ngogledd Iwerddon i adeiladu ar ei gryfderau sector.

- **Sefydlu Parthau Twf AI newydd ledled y DU** i ddenu buddsoddi mewn seilwaith AI mewn lleoliadau strategol, gyda chefnogaeth ar gyfer cymeradwyo ceisiadau cynllunio, mynediad at ynni, a phartneriaethau gyda'r sector preifat. Bydd y Llywodraeth yn cadarnhau lleoliadau maes o law, ac mae wedi ymrwmo i ddarparu Parthau Twf AI mewn lleoliadau strategol ledled y DU.



Clwstr amddiffyn Plymouth

Mae Plymouth a'r ardal gyfagos yn gartref i ecosystem gyfoethog o arloesi a chydweithredu amddiffyn ac mae wedi'i henwi fel y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ymreolaeth Forol. Mae'n gartref i labordy Cyber-SHIP Prifysgol Plymouth, platfform ymchwil caledwedd gwerth £3.2 miliwn ar gyfer ymchwil morol, gwybodaeth a thechnoleg weithredol sy'n canolbwyntio ar ddyfodol ymreolaeth forol a seiberddiogelwch; Smart Sound, prif ardal brofi y DU i fusnesau ddatblygu technolegau morol uwch, gyda dros 1000 cilomedr sgwâr o ddŵr wedi'i fonitro'n uchel ac yn ddi-wrthdaro; a Turnchapel Wharf, lle mae amrywiaeth o fusnesau yn parhau i arloesi'r gwaith o ddatblygu, asesu ac ardystio systemau ymreolaethol newydd. Yn y cyfamser, mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn buddsoddi £4.4 biliwn yng Nghanolfan Llynges Ei Fawrhydi Devonport dros y 10 mlynedd nesaf, gan dynnu sylw at y rôl sylfaenol y mae Plymouth yn ei chwarae wrth amddiffyn a diogelu'r DU, ac mae statws Porthladd Rhydd yn golygu y bydd yr ardal yn parhau i elwa o gefnogaeth a chymhellion Llywodraeth EF.

Cefnogi dinas-ranbarthau a chlystyrau i ddenu buddsoddi preifat.

Byddwn yn:

- **Adeiladu gallu cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i ddenu a chyflawni buddsoddi.** Mae gan ddinas-ranbarthau a chlystyrau ledled y DU gyfleoedd sylweddol i fuddsoddwyr ond mewn rhai achosion nid oes gan eu timau arweinyddiaeth yr arbenigedd, y gallu na'r dylanwad ariannol i nodi a datblygu cynigion credadwy o raddfa ddigonol i fuddsoddwyr. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, rydym wedi dylunio cyfres o bartneriaethau buddsoddi, gan roi'r arbenigedd a'r cyllid catalytig i ddinas-ranbarthau a chlystyrau i sicrhau buddsoddiad preifat ac i gyflawni Cynlluniau Twf Lleol y Maer:
 - **Bydd Banc Busnes Prydain (BBB) yn cyflwyno rhaglen Hyrwyddwyr Clwstr newydd mewn 10 lle.** Bydd 'hyrwyddwyr' sydd ag arbenigedd dwfn a gwybodaeth leol yn cydlynu

rhaglenni parodrwydd i fuddsoddi, yn cryfhau rhwydweithiau ariannol, ac yn cysylltu cwmnïau potensial uchel yn yr IS-8 â buddsoddwyr mewn 10 dinas-ranbarth: Manceinion Fwyaf, Gorllewin Swydd Efrog, Gorllewin Canolbarth Lloegr, Dinas-ranbarth Lerpwl, De Swydd Efrog, Gogledd-ddwyrain Lloegr, Gorllewin Lloegr, Dinas-ranbarth Glasgow, Dinas-ranbarth Caerdydd, a Dinas-ranbarth Belfast. Bydd hyn yn cael ei ategu gan ehangiad gwerth £100 miliwn o Gronfeydd Buddsoddi Cenedloedd a Rhanbarthau (NRIF) y BBB, i ddarparu cyfalaf ychwanegol wedi'i dargedu i gefnogi cwmnïau yn y clystyrau hyn. Bydd y BBB hefyd yn ehangu NRIF gyda £350 miliwn i gwmpasu De-ddwyrain a Dwyrain Lloegr am y tro cyntaf, yn ogystal â buddsoddi mewn rhaglen Cyfalaf Llwybr Buddsoddwyr i dyfu cronfa fwy amrywiol o reolwyr cronfeydd medrus i godi mwy o arian a buddsoddi yn yr IS-8.

- Mae'r **Gronfa Gyfoeth Wladol**, sydd eisoes yn cynnig cyllid yn ogystal â chynghor masnachol i awdurdodau lleol a dinas-ranbarthau ledled y DU, yn treialu Partneriaethau Strategol gyda Manceinion Fwyaf, Gorllewin Swydd Efrog, Gorllewin Canolbarth Lloegr, a Glasgow i ddarparu cymorth gwell, ymarferol i helpu'r dinas-ranbarthau hyn i ddatblygu a sicrhau cyfleoedd buddsoddi hirdymor.
- **Bydd y Swyddfa Buddsoddi yn sefydlu fframwaith partneriaeth buddsoddi cenedlaethol newydd** i helpu Awdurdodau Strategol Maerol a lleoedd eraill i adeiladu eu capasiti a'u gallu buddsoddi. Bydd hefyd yn lansio tîm Cyfleoedd Buddsoddi Strategol newydd, a fydd yn gweithio gydag arweinwyr lleol, Llywodraethau datganoledig, a'u hasiantaethau buddsoddi i helpu i nodi, llunio a chyflawni cyfleoedd buddsoddi strategol lle mae posibilrwydd o gyfalaf preifat sylweddol a diddordeb buddsoddwyr, gyda ffocws penodol ar feysydd a flaenoriaethir yn y Strategaeth Seilwaith a'r Strategaeth Ddiwydiannol.
- **Bydd diwygiadau i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru a Lloegr** yn cryfhau ei ffocws presennol ar gyfleoedd sy'n cefnogi twf lleol a rhanbarthol, megis Parthau Strategaeth Ddiwydiannol. Bydd gofyn i awdurdodau gweinyddol, o'r 86 o gronfeydd sy'n ffurfio'r LGPS, sydd â thua £400 biliwn mewn asedau dan reolaeth, ystyried blaenoriaethau twf lleol yn eu strategaethau buddsoddi ac i weithio gyda Meiri yn Lloegr a Chyd-bwyllgorau Corfforaethol yng Nghymru i gefnogi cyfleoedd buddsoddi rhanbarthol.
- **Bydd Great British Energy, y mae ei bencadlys yn Aberdeen, yn gweithio gydag Awdurdodau Strategol Maerol, awdurdodau lleol, grwpiau ynni cymunedol, a Llywodraethau datganoledig.** Mae hyn yn cynnwys darparu cyllid a chymorth – o gynllunio i gyngor strategol – i helpu i gynyddu'r gwaith o gyflwyno prosiectau ynni adnewyddadwy.
- **Bydd Cyllid Cyllido'r DU yn ehangu ei rwydwaith o Reolwyr Cyllid Allforio mewn dinas-ranbarthau a chlystyrau** sydd â chryfderau yn yr IS-8. Bydd y rhain yn cefnogi datblygiad busnes ac yn darparu cyngor rhad ac am ddim a diduedd i fusnesau ar eu hanghenion cyllid allforio.
- **Bydd y Banc Tai Cenedlaethol newydd yn gweithio gyda Meiri ac arweinwyr lleol** i ddatblygu cymorth ariannol i gyflawni blaenoriaethau tai ac adfywio lleol, gan ategu tir ehangach a chyllid grantiau.
- **Adeiladu cyflenwad sgiliau cryfach ar gyfer cyflogwyr lleol.** Bydd Skills England yn cefnogi cyrff cynrychioliadol cyflogwyr a Meiri i ddatblygu Cynlluniau Gwella Sgiliau Lleol a fydd yn cefnogi Cynlluniau Twf Lleol drwy nodi anghenion sgiliau lleol a'r camau sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r rhain. Rydym hefyd yn creu Colegau Rhagoriaeth Dechnegol i arbenigo mewn hyfforddi gweithlu medrus ar gyfer busnesau lleol. Byddwn yn darparu £200 miliwn drwy'r Gronfa Cenhadaeth Sgiliau i ddarparwyr addysg bellach yn Lloegr fuddsoddi mewn cyfleusterau, offer, cymwysterau technegol,

a chydweithrediad â darparwyr hyfforddiant a chyflogwyr eraill. Bydd ein rhwydwaith o 634 o Ganolfannau Gwaith ledled Prydain Fawr a'n Gwasanaeth Swyddi a Gyrfaedd newydd yn Lloegr – gyda'i gynllun peilot braenaru yng Ngorllewin Swydd Efrog – hefyd yn chwarae rhan bwysig wrth ddatblygu cyflenwad o weithwyr ar gyfer cyflogwyr lleol yn yr IS-8.

- **Tyfu ecosystemau arloesi uchel eu potensial drwy'r Gronfa Partneriaethau Arloesi Lleol**, a fydd yn darparu hyd at £500 miliwn ledled y DU. Clystyrau yw'r manau lle mae'r integreiddio sy'n cynyddu arloesi yn digwydd, ac mae'r gronfa hon wedi'i chynllunio i gynhyrchu £1 biliwn o gyd-fuddsoddiad ac ychwanegu £700 miliwn at economïau lleol yng nghyfnod yr Adolygiad o Wariant, gan gynnwys drwy swyddi, cynhyrchion a gwasanaethau newydd.⁶ Gan adeiladu ar fuddsoddiad Ymchwil a Datblygu cyhoeddus ledled y DU, a chynlluniau gweithredu ar y cyd Innovate UK gyda Llywodraethau datganoledig ac Awdurdodau Strategol Maerol (MSA), mae hyn yn clustnodi o leiaf £30 miliwn a fydd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni Cynlluniau Twf Lleol ym mhob un o saith MSA sefydledig Lloegr: Manceinion Fwyaf, Gorllewin Canolbarth Lloegr, Gorllewin Swydd Efrog, Dinas-ranbarth Lerpwl, De Swydd Efrog, Gogledd-ddwyrain Lloegr, Llundain Fwyaf, a, gan weithio gyda'r Llywodraethau datganoledig, lle ym mhob un o genhedloedd yr Alban, Cymru, a Gogledd Iwerddon. Bydd y cynllun hefyd yn cynnwys cystadleuaeth ar gyfer clystyrau ym mhob rhan arall o'r DU i ymgeisio am gymorth i dyfu eu hecosystemau arloesi.

- **Sefydlu cronfa twf lleol newydd**, gan gynnwys setliad cyfalaf 10 mlynedd o 2026-27 ar gyfer dinas-ranbarthau maerol penodol yng Ngogledd a Chanolbarth Lloegr sydd â'r potensial uchaf o ran dal i fyny a chydgasgliad. Yn yr Alban, Cymru, a Gogledd Iwerddon, bydd cyllid ar draws y cynllun hwn ac ar gyfer cymunedau ar yr un lefel gyffredinol mewn termau arian parod ag o dan Gronfa Ffyniant a Rennir y DU, yn 2025-26. Bydd Llywodraeth y DU yn gweithio mewn partneriaeth â'r Llywodraethau datganoledig i weithredu'r rhaglen newydd hon.
- **Adolygu'r argymhellion a gyflwynwyd gan y Tasglu Trefi Newydd** yn ei adroddiad a ddisgwyllir yn ystod y misoedd nesaf, a fydd yn ystyried lleoliad sectorau sy'n gyrru twf ledled Lloegr.
- **Adleoli rolau'r Gwasanaeth Sifil a 50% o uwch weision sifil yn y DU i drefi a dinasoedd ledled y DU** i weithio gyda gweithwyr rheng flaen ac arweinwyr lleol. Fel rhan o hyn, bydd £244 miliwn yn cael ei fuddsoddi i gwblhau'r gwaith o ddatblygu hybiau Llywodraeth newydd. Mae hyn yn cynnwys Campws Economaidd Darlington yn Brunswick Street, Hyb Stryd Manchester First, a Hyb Canolog Caerefrog. Bydd y buddsoddiad hwn hefyd yn helpu i ailddatblygu'r ardaloedd hyn ac yn rhoi hwb i'w heconomïau rhanbarthol.

Adnewyddu ein partneriaethau yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon

Yn rhan o'n partneriaethau â'r Llywodraethau datganoledig:

- **Byddwn yn gweithio'n agos gyda Llywodraethau Cymru a'r Alban ar y Gwasanaeth Cyflymu Cysylltiadau**

newydd a fydd yn cefnogi prosiectau galw sy'n sicrhau cysylltiadau diogel, gan gynnwys blaenoriaethu'r rhai sy'n gwarantu swyddi o ansawdd uchel ac sydd â'r gwerth economaidd mwyaf

- **Bydd y Gronfa Partneriaethau Arloesi Lleol yn clustnodi o leiaf £30 miliwn ar gyfer lle ym mhob cenedl**, gan adeiladu ar fuddsoddiad ymchwil a datblygu cyhoeddus ledled y DU a chynlluniau gweithredu ar y cyd Innovate UK gyda Llywodraethau datganoledig i dyfu ecosystemau arloesi potensial uchel. Bydd y rhan gystadleuol o'r gronfa a nodir uchod hefyd yn agored i ardaloedd yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.
- Bydd y **Gronfa Gyfoeth Wladol** yn gweithio gyda Banc Buddsoddi Cenedlaethol yr Alban, Banc Datblygu Cymru, a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon i nodi a sicrhau'r cyllid cywir ar gyfer prosiectau buddsoddi yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.
- **Bydd Hyrwyddwyr Clwstwr Banc Busnes Prydain yn cael eu penodi i glystyrau ym mhob gwlad** i ddenu buddsoddiad preifat mewn prosiectau uchel eu potensial ac sy'n benodol i leoedd sy'n gyrru twf.
- **Bydd Skills England yn gweithio gyda Llywodraethau datganoledig** i greu system sgiliau gydlynol a hygyrch ar gyfer yr IS-8 ledled y DU.
- **Bydd Great British Energy yn buddsoddi ledled y DU**, a bydd GBE Local yn gweithio gyda chymunedau lleol i rymuso pobl i gynhyrchu eu hynni eu hunain, arbed arian ar eu biliau ynni, ac ail-fuddsoddi'r arbedion lle mae eu hangen fwyaf.
- **Bydd ymyriadau pellach yn seiliedig ar leoedd yn gyrru twf yn y gwledydd**, gan gynnwys y rhaglen Cyflymu

Safleoedd Strategol a'n cynnig gwell ar gyfer Parthau Strategaeth Ddiwydiannol (Parthau Buddsoddi a Phorthladdoedd Rhydd), ochr yn ochr â Pharth Buddsoddi Uwch yng Ngogledd Iwerddon.

- **Mae Cynlluniau Sector** wedi'u llunio gyda Llywodraethau datganoledig. Mae cymorth sector yn cynnwys:
 - **Cytundeb Twf Amddiffyn** yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon i drosoli buddsoddiad amddiffyn i dyfu clystyrau diwydiannol rhanbarthol.
 - Rhaglenni cyllido sector, a fydd ar gael i fusnesau ym mhob un o'r tair gwlad. Mae'r rhain yn cynnwys Cronfa Gweithgynhyrchu Arloesol Gwyddorau Bywyd, a chronfeydd ar gyfer y meysydd Moduro ac Awyrofod. Byddai hyn yn adeiladu ar lwyddiannau diweddar, gan gynnwys gan y Gronfa Trawsnewid Moduro i sicrhau buddsoddiad o £250 miliwn gan Vishay yn y clwstwr lled-ddargludyddion cyfansawdd yng Nghasnewydd; a chan y Sefydliad Technoleg Awyrofod i sicrhau Canolfan Ragoriaeth Hydrogen newydd ZeroAvia yn Ardal Arloesi Gweithgynhyrchu Uwch yr Alban.
- **Bydd gan ddinasoedd a rhanbarthau ledled y cenedloedd y gallu priodol i ddylanwadu er mwyn gwireddu eu potensial economaidd.** Gall hyn adeiladu ar strwythurau Llywodraethu presennol, sefydledig a chydweithredol, fel Bargeinion Dinas a Thwf a Pharthau Strategaeth Ddiwydiannol, sydd eisoes yn dod â Llywodraethau ynghyd ag arweinwyr ar draws busnesau lleol, y byd academiaidd, a'r trydydd sector i gynyddu twf economaidd rhanbarthol.



Cryfderau a chyfleoedd yn yr Alban

Mae'r Alban wrth wraidd trawsnewidiad ynni'r DU, lle mae cyfle unwaith mewn cenhedlaeth i adeiladu ar sgiliau a seilwaith diwydiannol o'r radd flaenaf ym maes olew a nwy i gyflymu twf yn Niwydiannau Ynni Glân y dyfodol. Rydym yn cefnogi'r diwydiannau hyn gyda chyllid datblygu i hyrwyddo prosiect Dal a Storio Carbon Acorn, gan fanteisio ar arbenigedd yn y sector olew a nwy o amgylch Aberdeen. Bydd penderfyniad buddsoddi terfynol yn cael ei wneud yn ddiweddarach yn y Senedd hon, yn amodol ar barodrwydd a fforddiadwyedd y prosiect.

Mae'r Alban yn gystadleuol yn fyd-eang ym maes Amddiffyn a Gweithgynhyrchu Uwch - lle mae Glasgow yn adeiladu popeth o'r ffrigid Math 26 dosbarth City i loerennau bach wedi'u peiriannu'n fanwl gywir - tra bydd gan Gaeredin y sector Gwasanaethau Ariannol mwyaf yn y DU y tu allan i Lundain.⁷ Mae'r brifddinas hefyd yn ganolfan flaenllaw i'r Diwydiannau Creadigol ac

yn gartref i ŵyl celfyddydau perfformio fwyaf y byd, ac mae Dundee yn ffynnu fel hyb gemau fideo byd-eang a chlwstwr Gwyddorau Bywyd sy'n tyfu'n gyflym. Yn y cyfamser, mae prifysgolion elitaidd yr Alban yn gyrru arloesi gemau fideo ar draws Quantum, Diwydiannau Ynni Glân, Gwyddorau Bywyd a llawer o feysydd eraill. Mae gan yr Alban glystyrau o gryfder mewn Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes, y byddwn yn helpu i'w tyfu trwy ganolfan sgiliau PBS newydd yn y Llain Ganolog; a byddwn yn ariannu cymorth sgiliau drwy beilot sgiliau rhanbarthol newydd yn y Diwydiannau Ynni Glân yn Aberdeen. Bydd manteisio ar gyfleoedd ar draws sectorau yn gofyn am fynd i'r afael â'r heriau a amlygwyd gan fusnesau yn yr Alban, o fabwysiadu technoleg a pharodrwydd arloesi i fylchau sgiliau, yr angen am fwy o gefnogaeth i ehangu busnesau, ac amseroedd aros cysylltiad grid sylweddol a phrisiau trydan uchel ar gyfer prosiectau ynni'r Alban.




Cryfderau a chyfleoedd yng Nghymru

Mae Cymru'n gartref i gystystrawdd Gweithgynhyrchu Uwch eithriadol o gryf, o gynhyrchu adenydd awyrennau yn y Gogledd i ddylunio a gweithgynhyrchu lled-ddargludyddion cyfansawdd yn y De, gyda chymorth y Ganolfan Deunyddiau Lled-ddargludyddion Integreiddiol newydd ym Mhrifysgol Abertawe a buddsoddiad Llywodraeth y DU mewn Canolfan Hyfforddiant Doethurol newydd, dan arweiniad Prifysgol Abertawe.

Mae'r pum prif gwmni Amddiffyn yn bresennol yng Nghymru yn dylunio ac yn adeiladu cynhyrchion arloesol; mae'r wlad yn gartref i nifer o gwmnïau Gwyddorau Bywyd cystadleuol yn fyd-eang; mae'n

ganolfan ffyniannus ar gyfer y Diwydiannau Creadigol ac mae'n chwarae rhan bwysig yn y broses o drawsnewidiad ynni glân y DU, gyda chyfleoedd i fuddsoddi mewn technolegau gwynt, hydrogen a niwclear. Fodd bynnag, mae busnesau wedi dweud wrthym fod angen mwy o gymorth arnynt i sicrhau bod talent yn cael ei gadw, cyfalaf preifat yn cael ei ddenu ar raddfa fwy, a chysylltedd yn cael ei wella, a dyna pam rydym yn buddsoddi mewn arloesi a seilwaith Cymru, gan gynnwys o leiaf £445 miliwn mewn gwelliannau rheilffyrdd Cymru (gweler isod).



Cryfderau a chyfleodd yng Ngogledd Iwerddon

Mae gan Ogledd Iwerddon gryfderau ar draws yr IS-8. Mae cyflogaeth yn ei sector Gweithgynhyrchu Uwch wedi tyfu mwy na phedair gwaith yn gynt na chyfartaledd y DU, gan gyfrannu dros 10% at GVA lleol.⁸ Mae ei sector Gwyddorau Bywyd bywiog o dros 250 o fusnesau a sefydliadau ymchwil yn allforio'n fyd-eang i fwy na 140 o wledydd, gyda chymorth canolfannau ymchwil sy'n arwain y byd ym Mhrifysgol y Frenhines, Belfast a Phrifysgol Ulster.⁹ Mae'r Diwydiannau Creadigol yn ffynnu, gyda Dinas-ranbarth Belfast yn ganolfan fyd-eang ar gyfer cynhyrchu ffilm a theledu. Mae ei sector amddiffyn yn ffynnu, gyda Thales yn Belfast yn sicrhau contract gwerth £1.6 biliwn gyda chymorth Llywodraeth y DU i gynhyrchu dros 5,000 o Daflegrau Aml-Rôl Ysgafn ar gyfer Wcráin ac atgyfnerthu safle Gogledd Iwerddon yn y gadwyn gyflenwi amddiffyn fyd-eang.¹⁰ Mae Gogledd Iwerddon hefyd yn elwa o fynediad i Farchnad Sengl yr UE o dan Fframwaith Windsor y DU-UE.

Wedi'i ategu gan arloesi a sgiliau mewn peirianeg meddalwedd, mae clwstrw Seiberddiogelwch Belfast yn enghraifft wych o gryfderau unigryw Gogledd Iwerddon. Mae Gogledd Iwerddon yn gartref i dros 100 o fusnesau Seiberddiogelwch, sy'n cefnogi tua 2,750 o swyddi gyda chyflog cyfartalog o £53,300.¹¹ Yn ganolog i hyn mae'r Cyber-AI Hub, menter ar y cyd rhwng Llywodraeth y DU a Phrifysgol y Frenhines, Belfast, sy'n hyrwyddo cydweithredu rhwng y byd academaidd, y sector seiberddiogelwch, a diwydiannau eraill, gan gynnwys Amddiffyn, Awyrofod a Gwasanaethau Ariannol. Mae cyrsiau PhD ac MSc a ddarperir gan yr Hyb wedi creu cyflenwad o weithwyr medrus iawn i gynnal twf y clwstrw, yn ogystal â chryfderau ledled Gogledd Iwerddon, yn Derry/Londonderry, Omagh, Antrim, a thu hwnt.

Cefnogi Meiri ac awdurdodau lleol yn Lloegr

Ledled Lloegr, mae MSAs yn datblygu Cynlluniau Twf Lleol uchelgeisiol, a fydd yn cael eu cyhoeddi yn dilyn yr Adolygiad Gwariant. Bydd y cynlluniau hyn yn mynegi gweledigaeth 10 mlynedd ar gyfer twf, gan nodi cryfderau unigryw eu rhanbarth, nodi blaenoriaethau a rennir o bwysigrwydd cenedlaethol i'w symud ymlaen ar y cyd â Llywodraeth y DU, ac arddangos y cyfleoedd mwyaf deniadol ar gyfer buddsoddi yn y sector preifat. Byddant yn cyd-fynd â'n Cynlluniau Sector Strategaeth Ddiwydiannol – gan dynnu sylw at y cysylltiadau rhwng mentrau lleol a chenedlaethol i gefnogi'r IS-8. Byddwn yn cefnogi Meiri i weithredu eu cynlluniau trwy roi mwy o bwerau iddynt dros gynllunio strategol, cymorth busnes, sgiliau a thrafnidiaeth, wedi'i ategu gan Setliadau Integredig hyblyg, lle bo'n berthnasol, a chyllid datganoledig arall. Byddwn hefyd yn:

- **Sicrhau bod Cronfa Twf Ailgylchadwy Maerol newydd gwerth £500 miliwn ar gael** i Feiri yng Ngogledd a Chanolbarth Lloegr gyda setliad integredig, gan eu galluogi i ddarparu buddsoddiadau ariannol ar gyfer prosiectau twf. Gan weithio gydag awdurdodau lleol, bydd Meiri yn gallu defnyddio'r cyllid hwn i chwalu rhwystrau mynediad at gyllid a chreu cyfleoedd newydd i fusnesau dyfu trwy ddarparu cyfalaf tymor estynedig ar gyfer prosiectau megis datblygiadau mawr yng nghanol y ddinas a safleoedd diwydiannol strategol.

- **Buddsoddi mewn strydoedd mawr**, gan gydnabod mai economi pob dydd ffyniannus yw sylfaen economïau lleol. Trwy Ddeoryddion Stryd Fawr a Thwf newydd, byddwn yn targedu cyllid mewn detholiad o MSAs Sefydledig, trwy setliadau integredig, i gefnogi strydoedd mawr, sbarduno buddsoddi eiddo preifat pellach, a chefnogi busnesau i addasu a thyfu.

Mae gan awdurdodau lleol ledled Lloegr rôl hanfodol i'w chwarae wrth gefnogi cryfderau eu hardaloedd yn yr IS-8. Byddwn yn gweithio gyda nhw i gyflawni'r ymyriadau a nodir yn ein Strategaeth Ddiwydiannol, o wneud yn fawr o botensial Parthau Strategaeth Ddiwydiannol i nodi, datblygu a sicrhau'r cyllid cywir ar gyfer prosiectau buddsoddi yng nghanol dinasoedd a safleoedd diwydiannol strategol.

Rhyddhau potensial ein dinasoedd a'n rhanbarthau



1 De-orllewin Lloegr

- Mae economi £47bn **Gorllewin Lloegr** yn gartref i asedau ymchwil a datblygu o'r radd flaenaf megis Isambard AI ac IAAPS.¹²
- Cartref i un o glystyrau awyrofod ac amddiffyn mwyaf y DU, gyda chyfleoedd twf uchel ymmeysydd Creadigol, Digidol ac Ynni Glân.
- Mae'r cryfderau yn cynnwys Ynni Glân a gweithgynhyrchu yng **Ngwlad yr Haf** - gyda Hinkley Point C, Gravity Smart Campus ac Agratas, a - phrif hyb Amddiffyn Plymouth.

2 De-ddwyrain Lloegr

- Mae gan **Rydychen** gryfderau byd-enwog ym meysydd Digidol a Thechnolegau a Gwyddorau Bywyd, gyda phrifysgol fawreddog fyd-eang, yr UKAEA, a chrynodiadau uchel o uncyrn biotechnoleg a chwmnïau sydd wrthi'n tyfu.
- Wedi'i leoli'n strategol, mae gan **Solent** Borthladd Rhydd, gyda chryfderau ym meysydd Amddiffyn, Gweithgynhyrchu Uwch ac Ynni Glân, yn ogystal â sefydliadau ymchwil rhagorol.

3 Llundain Fwyaf

- Llundain yw un o'r ddwy ganolfan Gwasanaethau Ariannol a Gwasanaethau Busnes Proffesiynol fwyaf yn y byd ac mae'n arwain Ewrop ar gyfer buddsoddiad VC, ecosystem busnesau technoleg a Gwyddorau Bywyd newydd.^{13,14,15,16}
- Porth y DU i fuddsoddi, mae ei sefydliadau o'r radd flaenaf yn cynnwys pedair o'r 100 prifysgol orau'r byd.¹⁷

4 Dwyrain Lloegr

- Mae **Swydd Gaergrawnt a Peterborough**, yn uwch-glwstwr Ymchwil a Datblygu Gwyddorau Bywyd, Deunyddiau, Digidol a Thechnoleg.¹⁸
- Mae'n gartref i Brifysgol Caergrawnt, hyb arloesi fyd-eang newydd, Peterborough sy'n tyfu'n gyflym a champws biofeddygol sy'n ehangu.

5 Gorllewin Canolbarth Lloegr

- Mae Gorllewin Canolbarth Lloegr yn cysylltu safleoedd buddsoddi ledled y rhanbarth, wedi'u cryfhau gan HS2.
- Mae cryfderau yn cynnwys meysydd Moduro, Batris, Technoleg Feddygol, gwasanaethau gwerth uchel, Diwydiannau Creadigol a chlwstwr Ynni Clyfar.

6 Dwyrain Canolbarth Lloegr

- Mae Dwyrain Canolbarth Lloegr yn ganolfan hanfodol ar gyfer Gweithgynhyrchu Uwch, Ynni Glân a Gwyddorau Bywyd, sy'n arwain mewn gwyddoniaeth ymasiad a pheirianneg gyrru, ac yn gartref i Rolls-Royce. Mae ei maes awyr, Porthladd Rhydd a'i Barth Buddsoddi yn gyrru buddsoddiad i mewn.
- Gyda chryfderau hanfodol ym meysydd Technoleg Amaeth, Amddiffyn ac Ynni Glân, mae Swydd Lincoln Fwyaf yn ganolfan hanfodol ar gyfer logisteg fyd-eang a Gweithgynhyrchu Uwch, sy'n arbenigo mewn Amaeth-Roboteg, cynhyrchu ynni, ac atebion amddiffyn dan arweiniad data.

7 Gogledd-orllewin Lloegr

- Mae gan Fanceinion Fwyaf gryfderau ym meysydd Gwyddorau Bywyd, Creadigol, Seiberwyddoniaeth, AI a Thechnoleg, Gwasanaethau Ariannol, Gwasanaethau Busnes Proffesiynol, Ynni Glân a Gweithgynhyrchu Uwch, gydag asedau cenedlaethol megis UKBioBank, GCHQ, MediaCityUK, Sefydliad Cenedlaethol Graphene, Canolfan Celloedd Tanwydd Hydrogen, a NERIC.
- Mae Dinas-ranbarth Lerpwl yn cyfuno porthladd sydd wedi'i gysylltu'n fyd-eang, â statws Porthladd Rhydd, â phrif grwpiau mawr megis JLR ac Unilever, gyda chymorth ecosystem arloesi ffyniannus a Pharth Buddsoddi Gwyddorau Bywyd gwerth £800m.¹⁹
- Mae gan Swydd Gaer a Swydd Gaerhirfryn glystyrau rhyng-gysylltiedig ar draws Diwydiannau Gweithgynhyrchu Uwch, Amddiffyn, Ynni Glân a Gwyddorau Bywyd.

8 Swydd Efrog a Humber


- Gyda nifer o ganolfannau ymchwil hanfodol a chewri byd-eang megis Boeing a Rolls-Royce, mae Ardal Arloesi Gweithgynhyrchu Uwch a Pharth Buddsoddi De Swydd Efrog yn cynnig cymorth hyblyg i fuddsoddwyr, asedau gweithgynhyrchu o'r radd flaenaf, a safleoedd datblygu.
- Mae Gorllewin Swydd Efrog yn gartref i "Filltir Sgwâr y Gogledd" sy'n tyfu'n gyflym - canolfan Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol pwysig; Parth Buddsoddi Healthtech; ac asedau allweddol y Diwydiannau Creadigol gan gynnwys Channel 4 a'r Parc Cynhyrchu.

- Mae Caerefrog a Gogledd Swydd Efrog yn cynnal sefydliadau a phartneriaethau arloesi Technoleg Amaeth blaenllaw megis Canolfan Technoleg Amaeth y DU, FERA Science, a BioYorkshire, ochr yn ochr â chyfleoedd buddsoddi sy'n dod i'r amlwg ledled Gogledd Swydd Efrog.
- Mae Hull a Dwyrain Swydd Efrog, cartref Porthladd Rhydd Humber, yn borth masnach allweddol gyda sylfaen ymchwil ac arloesi sy'n tyfu'n gyflym, galluoedd blaenllaw ym meysydd Gweithgynhyrchu Uwch a chynhyrchu ynni newydd, gydag enwau byd-eang megis Siemens Gamesa.

9 Gogledd-ddwyrain Lloegr

- Mae cryfderau Gogledd-ddwyrain Lloegr yn cynnwys Gwynt ar y Môr a Gweithgynhyrchu Uwch, ffocws ei Barth Buddsoddi, Gwyddorau Bywyd a Diwydiannau Prosesu, gan gynnwys Canolfan Arloesi P&G; a'i Glwstwr Creadigol, gan gynnwys Stiwdios Crown Works.
- Mae Dyffryn Tees yn fro ddiwydiannol bwysig, gyda chyfleoedd Ynni Glân gan gynnwys datblygiad NZT o Ddal a Storio Carbon ar raddfa fawr a gweithgynhyrchu gwynt ar y môr gan SeAH; ac mae'n gartref i'r Parth Buddsoddi Creadigol a Digidol gwerth £160m.

Yr Alban



10 Dinas-ranbarth Glasgow

Mae Dinas-ranbarth Glasgow yn rym byd-eang ym maes Gweithgynhyrchu Uwch. Y gartref i Ardal Gweithgynhyrchu Uwch a phrifysgolion cystadleuol ar lefel ryngwladol, mae gan Glasgow gryfderau ar draws meysydd Amddiffyn, Gofod a Chwantwm

11 Dinas-ranbarth Caeredin

Mae Dinas-ranbarth Caeredin yn ganolfan ariannol fyd-eang. Mae hefyd yn arloeswr ym maes AI; mae ganddi Borthladd Rhydd Gwyrdd Forth ac mae'n cynnal gŵyl celfyddydau perfformio fwyaf y byd; a, gyda chymorth Llywodraeth y DU, bydd yn gartref i uwchgyfrifiadur mwyaf y DU.²⁰

12 Dundee

Mae Dundee yn cynhyrchu mwy o fusnes yn y Gwyddorau Bywyd nag unrhyw le arall yn y DU. Mae'n enwog am yr athrylith greadigol y tu ôl i rai o gemau fideo mwyaf adnabyddus y byd.²¹

13 Dinas-ranbarth Aberdeen

Mae Dinas-ranbarth Aberdeen yn brifddinas ynni fyd-eang. Yn gartref i GB Energy, mae'r ddinas yn gyrru twf glân, wedi'i adeiladu ar ddegawdau o arbenigedd wrth arwain newid olew a nwy. Mae Aberdeen yn ymfalchïo mewn buddsoddiad newydd mewn Hydrogen a CCUS, gyda'i Barth Pontio Ynni arloesol yn ail-leoli Gogledd-ddwyrain Lloegr fel clwstwr ynni integredig yn fyd-eang.

14 Yr Ucheldiroedd ac Ynysoedd yr Alban

Mae gan Ucheldiroedd ac Ynysoedd yr Alban gyfleoedd unigryw mewn Diwydiannau Ynni Glân. Bydd Inverness a Phorthladd Gwyrdd Cromarty Firth - yn ogystal â mentrau fel SaxaVord Spaceport - yn dod â swyddi medrus a chyfleoedd newydd i gymunedau yn y rhanbarth.

Cymru



15 De-ddwyrain Cymru

Mae De-ddwyrain Cymru yn tyfu'n gyflym ac mae'n cael ei gefnogi gan Barth Buddsoddi newydd. Mae ganddo gryfderau ar draws Diwydiannau Creadigol, Gwyddorau Bywyd, Amddiffyn, Gwasanaethau Ariannol, a Digidol a Thechnolegau - yn enwedig mewn lled-ddargludyddion cyfansawdd.

16 Canolbarth a De-orllewin Cymru

Mae gan Ganolbarth a De-orllewin Cymru gryfderau ym maes Gwyddorau Bywyd, Technoleg amaeth a Gweithgynhyrchu Uwch, gan gynnwys Dur. Mae ganddo gyfleoedd mawr ym maes Ynni Glân, gan gynnwys Gwynt ar y Môr Arnofiol yn y Môr Celtaidd, gyda chymorth Porthladd Rhydd.

17 Gogledd Cymru

Mae gan Ogledd Cymru gryfderau ym maes Gweithgynhyrchu Uwch, Amddiffyn ac Ynni Glân gyda chymorth Parth Buddsoddi newydd, Porthladd Rhydd ac AMRC Cymru.

Gogledd Iwerddon



18 Dinas-ranbarth Belfast

Mae Dinas-ranbarth Belfast yn ganolfan ffyniannus ar gyfer Digidol a Thechnolegau, Gweithgynhyrchu Uwch, Amddiffyn, Ynni Glân, Gwyddorau Bywyd a Diwydiannau Creadigol. Mae galluoedd arloesi yn cael eu gwella gan ymchwil o'r radd flaenaf ym Mhrifysgol y Frenhines a Phrifysgol Ulster, ochr yn ochr â Buddsoddiadau Bargen Dinas a Thwf, megis AMIC a CADRIC.

19 Derry/ Londonderry

Mae sector Gwyddorau Bywyd Derry/ Londonderry yn gyrru arloesi a swyddi gwerth uchel. Mae'r ddinas yn denu cwmnïau byd-eang ac yn cynnig cronfa dalent medrus, seilwaith digidol cryf, a chysylltedd modern. Gan elwa ar fynediad unigryw i'r farchnad ddeuol, i farchnad fewnol y DU a Marchnad Sengl yr UE, mae Gogledd Iwerddon yn cynnig pad lansio deniadol i fuddsoddwyr byd-eang.

Cryfhau cysylltiadau rhwng ac o fewn dinasoedd, rhanbarthau a chlystyrau

Byddwn yn cysylltu ac yn cefnogi coridor twf ar draws ein dinas-ranbarthau Gogleddol, gan ddod â buddsoddiadau mewn trafndiaeth ynghyd â gweithredu i roi hwb i'w gryfderau yn yr IS-8 a datgloi buddsoddiadau preifat trawsnewidiol. Byddwn yn gwneud hyn drwy'r ymyriadau uchelgeisiol canlynol, a byddwn yn nodi cynlluniau pellach maes o law:

- **Rhoi hwb i gysylltedd o fewn a rhwng dinas-ranbarthau** gan:
 - **Gwella cysylltedd rheilffyrdd ar draws Gogledd Lloegr.** Mae hyn yn dechrau trwy gwblhau cyflawni Uwchraddiad Llwybr y TransPennine, a fydd yn trawsnewid cysylltedd rheilffyrdd rhwng Manceinion a Chaerefrog. Mae'r Llywodraeth wedi darparu £3.5 biliwn drwy'r setliad hwn rhwng 2026/27 a 2029/30 i yrru hyn ymlaen yn gyflym. Rydym yn cydnabod nad hwn yw'r ateb terfynol, a byddwn yn darparu cyllid i hyrwyddo uchelgeisiau rheilffyrdd strategol hirdymor y Llywodraeth hon yn y Gogledd. Bydd y Llywodraeth yn nodi rhagor o fanylion yn y drydedd Strategaeth Buddsoddi mewn Ffyrdd, sy'n ddyledus yn 2025-2026.
 - **Trawsnewid cysylltedd rhwng dinasoedd drwy dros £10 biliwn o gyllid Trafndiaeth ar gyfer Dinas-ranbarthau** ar draws chwech o MSAs y Gogledd, cefnogi cynlluniau megis Trafndiaeth Torfol Gorllewin Swydd Efrog, Bee Network Manceinion Fwyaf, ac ymestyn y rhwydwaith Metro presennol yn y Gogledd-

ddwyrain – sy'n gwasanaethu un o'r parthau Gweithgynhyrchu Uwch mwyaf yn y DU.

- Gwella a chynnal rhwydweithiau ffyrdd y Gogledd drwy'r £24 biliwn o gyllid cyfalaf rhwng 2026-27 a 2029-30 sydd wedi'i ddyrannu i Briffyrdd Cenedlaethol ac awdurdodau lleol i gynnal a gwella traffyrdd a ffyrdd lleol ledled y wlad. Mae hyn yn cynnwys creu Cronfa Strwythurau newydd a fydd yn atgyweirio strwythurau mawr megis pontydd, trosffyrdd a ffyrdd sydd wedi cwmpo.
- **Rhoi hwb i gryfderau dinasoedd a chlystyrau Gogledd Lloegr yn yr IS-8.** Mae'r rhanbarth yn gartref i brifysgolion o'r radd flaenaf a nifer o glystyrau o arwyddocâd cenedlaethol, gan gynnwys Gwasanaethau Ariannol yng Ngorllewin Swydd Efrog, yr 'uwchglwstwr' o fusnesau Gwyddorau Bywyd a Digidol a Thechnoleg yn Lerpwl, Manceinion, a Swydd Gaer, rôl De Swydd Efrog fel calon ddiwydiannol ar gyfer Diwydiannau Amddiffyn a Gweithgynhyrchu Uwch, ac Ynni Glân ar draws Humber, Dyffryn Tees a Gogledd-ddwyrain Lloegr.¹² Byddwn yn cefnogi'r rhain drwy:
 - **O leiaf £150 miliwn o'r Gronfa Partneriaethau Arloesi Lleol** ar draws Manceinion Fwyaf, Dinas-ranbarth Lerpwl, De Swydd Efrog, Gogledd-ddwyrain Lloegr a Gorllewin Swydd Efrog, ynghyd â Hyrwyddwyr Clwstwr Banc Busnes Prydain newydd ar gyfer pob un.
 - **Cyfran o £150 miliwn o'r Gronfa Twf Lleoedd Creadigol newydd** i gefnogi Diwydiannau Creadigol ym

Manceinion Fwyaf, Dinas-ranbarth Lerpwl, y Gogledd-ddwyrain a Gorllewin Swydd Efrog. Byddwn hefyd yn cefnogi partneriaeth One Creative North o Feiri'r Gogledd ac arweinwyr creadigol i gydweithio ar fynediad at gyllid, sgiliau ac arloesi.

- **Hybiau Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes newydd** ym Manceinion Fwyaf, Dinas-ranbarth Lerpwl, a Gorllewin Swydd Efrog, a threialu Made Smarter ar gyfer gwasanaethau proffesiynol a busnes ledled Gogledd Lloegr.
- **Archwilio menter beilot mewn partneriaeth ag Awdurdod Cyfun y Gogledd-ddwyrain ar gyfer clwstwr gweithgynhyrchu Cerbydau Trydan**, gan greu glasbrint ar gyfer datgloi clystyrau rhagoriaeth eraill mewn meysydd twf allweddol eraill ledled y DU.
- **Datblygu cyfleoedd buddsoddi ar draws Gogledd Lloegr.** Bydd y Gronfa Gyfoeth Wladol yn darparu Partneriaethau Strategol gyda Manceinion Fwyaf a Gorllewin Swydd Efrog i ddarparu cymorth gwell, ymarferol i helpu rhanbarthau i ddatblygu a sicrhau cyfleoedd buddsoddi hirdymor. Bydd y Swyddfa Fuddsoddi – gan adeiladu ar ei gwaith blaenorol gyda Dinas-ranbarth Lerpwl a'r Gogledd-ddwyrain – yn partneru ag Awdurdodau Strategol Meiri'r Gogledd i helpu i nodi, llunio a chyflawni prosiectau strategol i sicrhau eu bod yn y sefyllfa orau i drosoli cyfalaf preifat.

Byddwn yn dyfnhau ein cefnogaeth i Goridor Twf Caergrawnt Rhydychen a'i gryfderau mewn Diwydiannau Digidol a Thechnolegau, Gwyddorau Bywyd,

Amddiffyn, Gweithgynhyrchu Uwch, ac Ynni Glân, wedi'u hangori gan ddwy o'r prifysgolion gorau yn y byd.¹³ Gan gyfrif am 1.7% o GDP a chyfrannu £40 biliwn i'r economi y flwyddyn,¹⁴ byddwn yn datgloi ei photensial drwy:

- **Fwrw ymlaen â phrosiectau tai a seilwaith mawr** i'w gwneud hi'n haws byw, gweithio a theithio ar draws y Coridor. Bydd hyn yn cynnwys:
 - **East West Rail, rheilffordd traws gwlad newydd mawr fydd yn lleihau amseroedd teithio yn sylweddol rhwng Rhydychen a Chaergrawnt.** Bydd hyn yn galluogi darparu hyd at 100,000 o gartrefi newydd, creu miloedd o swyddi newydd drwy ehangu poblogaethau cymudo canolfannau economaidd ar draws y coridor, ac yn ychwanegu £6.7 biliwn y flwyddyn at GYC rhanbarthol erbyn 2050.¹⁵ Bydd y cam cyntaf yn lansio yn ddiweddarach eleni ac yn galluogi teithiau trên uniongyrchol rhwng Rhydychen a Milton Keynes am y tro cyntaf ers bron 60 mlynedd.
 - **Gorsaf newydd East Coast Mainline yn Tempsford**, sy'n integreiddio'r Coridor i un o lwybrau rheilffordd prysuraf y DU rhwng Llundain a Chaeredin.
 - **Sicrhau bod cwmnïau dŵr yn adeiladu cronfeydd dŵr newydd mewn ardaloedd o amgylch Caergrawnt** (y Fens) a Rhydychen (Abingdon) fel nad yw datblygiadau diwydiannol a phreswyl yn cael eu llyffetheirio oherwydd pwysau ar argaeledd dŵr.

- **Cryfhau cymwysterau gwyddoniaeth a thechnoleg y rhanbarth** trwy Barth Twf AI cyntaf y DU yn Culham, Swydd Rydychen, wedi'i gadarnhau fel y safle cyntaf ar gyfer ein rhaglen flaenllaw newydd i hwyluso seilwaith AI a datgloi buddsoddi mewn canolfannau data wedi'u galluogi gan AI.
- **Archwilio sut i gryfhau cydweithredu rhwng Coridor Twf Caergrawnt Rhydychen a rhannau eraill o'r DU gyda chryfderau cyflenwol.** Bydd hyn yn adeiladu ar fuddsoddiad diweddar y Llywodraeth ym Mhartneriaeth Arloesi Caergrawnt x Manceinion.
- **Mynd i'r afael â'r prinder cyfleusterau ymchwil o ansawdd uchel a achosir gan alw cyson uchel am ofod ymchwil a datblygu.** Byddwn yn ariannu Cwmni Twf Caergrawnt i fuddsoddi mewn seilwaith i ddatgloi tai a datblygu masnachol, ymrwymo i bartneriaethau gyda'r sector preifat, a gweithio gyda phartneriaid lleol ar ddarparu seilwaith, gyda mwy o fanylion i'w nodi cyn bo hir. Bydd Comisiwn Twf Rhydychen hefyd yn datblygu strategaeth fuddsoddi hirdymor.

Byddwn hefyd yn hyrwyddo cysylltedd ar draws dinasoedd, rhanbarthau a gwledydd, gan gynnwys trwy:

- **Gweithio gyda Llywodraeth yr Alban i gefnogi Llain Ganolog Caeredin-Glasgow.** Mae busnesau a phrifysgolion Caeredin a Glasgow wedi'u cysylltu'n dda â chysylltiadau ffordd a rheilffordd sy'n cysylltu'r arfordir dwyreiniol a'r arfordir gorllewinol. Mae arloesi wrth wraidd economi'r Llain Ganolog, gyda Hybiau Cwantwm y DU yng Nghaeredin a Glasgow, Ardal Arloesi

Gweithgynhyrchu Uwch yr Alban, a Robotarium Cenedlaethol Caeredin. Mewn partneriaeth â Llywodraeth yr Alban, byddwn yn adeiladu ar Gytundebau Dinas a Thwf sefydledig ac yn cefnogi safleoedd a ddynodwyd yn Barthau Strategaeth Ddiwydiannol. Bydd ein buddsoddiad o hyd at £750 miliwn mewn uwchgyfrifiadur newydd ym Mhrifysgol Caeredin – y mwyaf yn y DU – hefyd yn cryfhau clwstr Digidol a Thechnoleg o'r radd flaenaf.

- **Cyflawni HS2 a gwneud yn fawr o'i fanteision twf.** Bydd HS2 yn darparu gwasanaethau rheilffordd cyflymach, amlach a mwy dibynadwy rhwng Llundain a Birmingham. Byddwn yn gweithio gyda busnesau ac arweinwyr lleol fel bod datblygiad yn datgloi safleoedd masnachol ar raddfa fawr ar hyd y llwybr, gan gynnwys hyb Gwyddorau Bywyd newydd yn Euston a datblygiad trawsnewidiol yn Birmingham Curzon Street. Mae ymchwil yn awgrymu y gallai HS2 arwain at 41,000 o gartrefi newydd yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr a 22,000 o gartrefi newydd o amgylch yr orsaf newydd yng Nghomin Old Oak yng Ngorllewin Llundain, wrth hyfforddi gweithlu medrus ar gyfer y diwydiannau rheilffyrdd ac adeiladu ehangach (gyda dros 33,000 o swyddi a 1,800 o brentisiaethau yn cael eu cefnogi).¹⁶
- **Gwella cysylltedd rheilffyrdd rhwng dinas-ranbarthau a chlystyrau yng Nghymru a Lloegr.** Byddwn yn buddsoddi o leiaf £445 miliwn i wella rhwydweithiau rheilffyrdd yng Nghymru er mwyn cynyddu twf Cymru a rhoi hwb i gysylltiadau rhwng:




- Wrecsam a Glannau Mersi, drwy uwchraddio cilffyrdd Padeswood a chau sawl croesfan reilffordd ar Brif Linell Gogledd Cymru yn barhaol. Bydd hyn yn cysylltu dwy ganolfan ragoriaeth ym maes Gweithgynhyrchu Uwch, wedi'u hangori gan ffatri Airbus ym Mrychdyn, cyfleusterau ymchwil a datblygu megis AMRC Cymru, a dau Barth Strategaeth Ddiwydiannol – ac yn ei dro yn cysylltu Gogledd Cymru a'r coridor ar draws ein dinas-ranbarthau yng Ngogledd Lloegr.
- De Cymru a Bryste, trwy orsafoedd newydd rhwng Caerdydd a Thwnnel Hafren. Bydd hyn yn creu cyfleoedd pellach ar gyfer clystyrau IS-8 ar hyd y coridor, gan ategu cefnogaeth ehangach y Llywodraeth, gan gynnwys ar gyfer y Porthladd Rhydd Celtaidd a Pharth Buddsoddi Caerdydd a Chasnewydd a Chanolfan Hyfforddiant Doethurol newydd dan arweiniad Prifysgol Abertawe sy'n canolbwyntio ar led-ddargludyddion.

Ôl-nodiadau

- 1 [Centre for Cities \(2025\) The myth of “left behind”: Why a city-focused industrial strategy will not increase place-based discontent](#)
- 2 [Z/Yen \(2025\) Global financial centres index 37](#); [Startup Genome \(2024\) The global startup ecosystem report 2024](#); [QS World University Rankings \(2025\) Top global universities](#)
- 3 [Oxford-Cambridge Supercluster \(2025\) Unlocking the potential of the Ox-Cam supercluster.](#)
- 4 Dadansoddiad yr Adran Busnes a Masnach o'r [Swyddfa Ystadegau Gwladol \(2024\) Subregional productivity: labour productivity indices by city region](#) a [Swyddfa Ystadegau Gwladol \(2025\) Regional Gross Value Added \(balanced\) by industry: city and enterprise regions](#). Mae'r ffigur o gynnydd posibl o £90bn yn cael ei gyrraedd trwy gyfrifo'r gwahaniaeth rhwng cynhyrchiant yn y dinas-ranbarthau hyn a chyfartaledd y DU a lluosï hynny â chyflogaeth yn y dinas-ranbarthau. Cyfrifwyd y ffigur gan ddefnyddio data cyflogaeth a chynhyrchiant ar gyfer 2023 ac fe'i mynegir ym mhrisiau 2022.
- 5 [UK Freeports \(2024\) Cefnogi Porthladdoedd Rhydd yng nghyllideb yr hydref](#)
- 6 [UKRI \(2025\) Bydd y gronfa newydd yn canolbwyntio buddsoddiad ymchwil ar flaenoriaethau lleol](#)
- 7 [Corfforaeth Dinas Llundain \(2019\) Hybiau gwasanaethau ariannol ledled y DU](#)
- 8 [Invest Northern Ireland \(2025\) Bydd cronfa newydd yn canolbwyntio buddsoddiad ymchwil ar flaenoriaethau lleol](#)
- 9 [Invest Northern Ireland \(2025\) Gwyddorau bywyd ac iechyd](#)
- 10 [Y Weinyddiaeth Amddiffyn \(2025\) Bargen hanesyddol gwerth £1.6bn yn darparu miloedd o daflegrau amddiffyn awyr i'r Wcráin ac yn rhoi hwb i swyddi a thwf y DU](#)
- 11 [Canolfan Technolegau Gwybodaeth Diogel \(2024\) Cipolwg seiberddiogelwch Gogledd Iwerddon.](#)
- 12 [Y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(2025\) Cynnyrch mewnwladol crynswth rhanbarthol](#)
- 13 [Z/Yen \(2025\) The Global Financial Centres Index 37.](#)
- 14 [Dealroom.co \(2025\).](#)
- 15 [Startup Genome \(2024\) The Global Startup Ecosystem Report 2024.](#)
- 16 [MedCity \(2024\) Life Sciences Global Cities Comparison 2024](#)
- 17 [Times Higher Education \(2025\) Best universities in the UK 2025](#)
- 18 [Y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(2025\) Cynnyrch mewnwladol crynswth rhanbarthol](#)
- 19 [Awdurdod Cyfunol Dinas Rhanbarth Lerpwl \(2024\) Miliynau o bunnoedd o gyllid wedi'u datgloi wrth i Barth Buddsoddi Dinas-ranbarth Lerpwl agor ar gyfer busnes](#)
- 20 [Yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg \(2025\) Yr Alban i gynnal uwchgyfrifiadur cenedlaethol y DU wrth i'r Canghellor gadarnhau buddsoddiad o £750 miliwn](#)
- 21 [Octopus Ventures \(2023\) Gateways to growth entrepreneurial impact report 2023](#)
- 22 [QS World University Rankings \(2025\) Y Prifysgolion Byd-eang Gorau](#)
- 23 [QS World University Rankings \(2025\) Y Prifysgolion Byd-eang Gorau](#)
- 24 [Oxford-Cambridge Supercluster \(2025\) Unlocking the potential of the Ox-Cam supercluster](#)
- 25 [Yr Adran Drafnidiaeth \(2018\) The case for East West Rail, western section phase 2](#); [Yr Adran Drafnidiaeth \(2024\) East West Rail to boost Oxford-Cambridge region by billions](#)
- 26 [Arcadis \(2025\) HS2 Impact Study: Demonstrating the economic impacts secured by HS2](#); [“Yr Adran Drafnidiaeth \(2024\) HS2 6-monthly report to Parliament: December 2024](#)

Cefnogi ein diwydiannau ffiniol



Mae ein dull economaidd newydd wedi'i seilio ar gefnogi sectorau twf uchel ar draws cryfderau'r DU ym meysydd gweithgynhyrchu a gwasanaethau. Am y tro cyntaf, mae'r Llywodraeth gyfan yn cefnogi wyth sector sy'n cynrychioli 32% o'r economi: Gweithgynhyrchu Uwch, Diwydiannau Ynni Glân, Diwydiannau Creadigol, Amddiffyn, Digidol a Thechnolegau, Gwasanaethau Ariannol, Gwyddorau Bywyd, a Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes.¹

Mae strategaethau yn cynnwys gwneud dewisiadau. Rydym wedi dewis canolbwyntio ar y sectorau hyn oherwydd mai nhw sydd yn y sefyllfa orau i yrru twf cynhwysol, cynaliadwy a gwydn, diolch i'w potensial i greu swyddi â chyflog da ledled y DU, manteisio ar gyfleoedd y trawsnewidiad sero net, ac adeiladu cwmnïau archsêr fel y gall y DU daflunio dylanwad byd-eang ac atal ein gwrthwynebwyr.

Mae gennym gynlluniau 10 mlynedd uchelgeisiol i wneud y DU y lle gorau i ddechrau a thyfu yn y sectorau hyn, gyda hyrwyddwyr cartref i greu adnewyddiad cenedlaethol sydd o fudd i'r wlad gyfan. Rydym yn cyflawni'r cynlluniau hyn trwy bartneriaeth rhwng y Llywodraeth, diwydiant a gweithwyr, wedi'i ategu gan fuddsoddiad preifat cynhyrchiol, buddsoddiad wedi'i dargedu'n y Llywodraeth, ac agenda gweithredol i'w gwneud yn haws ac yn gyflymach i wneud busnes.

Ond nid wyth cynllun ar wahân yw ein Strategaeth Ddiwydiannol: mae'n weledigaeth hirdymor i fod o fudd i'r economi gyfan, gan gefnogi ein cryfderau sector i fod yn fwy na chyfanswm eu rhannau. Mae'r ffiniau cynyddol aneglur

rhwng sectorau yn yr economi fodern yn golygu y bydd twf cyflymach yn ein diwydiannau ffiniol yn creu manteision goferu sylweddol i sectorau eraill. Y sector Gwasanaethau Ariannol, er enghraifft, yw calon buddsoddi busnes a sefydlogrwydd; mae cwmnïau Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes yn chwarae rôl hanfodol wrth helpu busnesau o bob math i ddod yn fwy cynhyrchiol a gwydn.

Yn bwysicaf oll, trwy wneud ein sectorau sy'n gyrru twf yn fwy cystadleuol, byddwn yn creu ffyniant nid yn unig i'r bobl sy'n gweithio ynddynt, ond i deuluoedd ledled y DU – gan gynnwys trwy fanteision 'economi go iawn' gryfach a gefnogir gan y sector Gwasanaethau Ariannol, ynni glân cartref diogel a ddarperir gan y Diwydiannau Ynni Glân, a mynediad cyflym i'r technolegau meddygol newydd mwyaf effeithiol a ddatblygir gan fusnesau Gwyddorau Bywyd.

Er mwyn cyflawni hyn bydd angen ein holl liferi ystwythder, gweledigaeth a pholisi diwydiannol: rhaid i ni greu'r amodau ar gyfer buddsoddi preifat mewn technolegau risg uchel, gwobr uchel a gyrru arloesi tynnu drwodd, yn enwedig o'r sector Amddiffyn. Rhaid i ni wneud mwy i helpu busnesau i lywio byd ansicr a newidiol, a dod yn fabwysiadwyr technoleg mwy hyderus wrth i AI ac arloesiadau yn y dyfodol drawsnewid y ffordd rydym yn gweithio ac yn byw. Ac mae'n rhaid i ni aros yn ymwybodol o'r risgiau i dwf a achosir gan newid yn yr hinsawdd a diraddio natur, gan archwilio sut y gall arferion cylchol fel aildefnyddio ac ailgylchu roi hwb i gadwyni cyflenwi gwydn a lleihau effaith amgylcheddol echdynnu adnoddau, gyda mwy o fanylion i'w dilyn yn ein Strategaeth Economi Gylchol i'w chyhoeddi yn hydref 2025.

Sectorau Gyrru Twf y Strategaeth Ddiwydiannol a'r Diwydiannau Ffiniol ynddynt



Gweithgynhyrchu Uwch

- Awyrfod
- Deunyddiau Uwch
- Technoleg Amaeth
- Modurol
- Batris
- Gofod





Diwydiannau Creadigol

- Hysbysebu a Marchnata
- Ffilm a Theledu
- Gemau Fideo
- Cerddoriaeth, Celfyddydau Perfformio a Gweledol

Diwydiannau Ynni Glân

- Gwynt (Ar y tir, Ar y môr ac Arnofiol)
- Ynni Ymasiad
- Ymholliad Niwclear
- Hydrogen
- Defnydd a Storio Dal Carbon (CCUS), gan gynnwys Tynnu Nwyon Tŷ Gwyr
- Pymptau Gwres



Digidol a Thechnolegau

- Deallusrwydd artiffisial
- Bioleg Peirianeg
- Technolegau Cysylltedd Uwch
- Technolegau cwantwm
- Lled-ddargludyddion
- Seiberddiogelwch



Gwasanaethau Ariannol

- Technoleg Ariannol
- Marchnadoedd Yswiriant ac Ailyswiriant
- Cyllid Cynaliadwy
- Marchnadoedd Cyfalaf
- Gwasanaeth Rheoli Asedau a Chyfanwerthu



Amddiffyn

- Dronau a Systemau Awtonomaidd
- Ymladd Awyr
- Arfau ynni wedi'u cyfeirio
- Arfau cymhleth
- Galluoedd morol




Gwyddorau Bywyd

- Fferyllol Bio
- Technolegau Meddygol



Gwasanaethau Busnes Proffesiynol

- Cyfrifeg a Threth
- Ymgynghoriaeth Rheoli
- Gwasanaethau Cyfreithiol





Gweithgynhychu Uwch

Mae dyfeisgarwch sector Gweithgynhychu Uwch y DU yn ei roi yng nghanol heriau mawr y ganrif hon. Mae datgarboneiddio, y chwyldro AI, a ffocws byd-eang cynyddol ar wydnwch economaidd yn creu cyfleoedd masnachol digynsail i gwmnïau ar y ffiniau yn ogystal â'r rhai sy'n gyflymaf i fasnacheiddio'r arloesiadau diweddaraf. Mae'r DU mewn sefyllfa dda i fanteisio ar y cyfleoedd hyn, gyda phrif gwmnïau blaenllaw'r byd, busnesau llai sy'n arloesol, ecosystem ymchwil fywiog, cydweithredu rhwng y byd academaidd a diwydiant, ac arbenigedd mewn ystod o feysydd o beirianeg fanwl ac argraffu 3-D i ddeunyddiau ysgafn.

Ond mae'r sector hefyd yn arbennig o agored mewn oes o fygythiadau diogelwch cynyddol, diffyndolliaeth, cystadleuaeth dechnolegol ac anwadalrwydd ynni. Dim ond trwy bartneriaeth rhwng y Llywodraeth a diwydiant y byddwn yn inswleiddio'r sector rhag y gwyntoedd byd-eang hyn ac yn denu'r buddsoddiad trawsnewidiol sydd ei angen i awtomeiddio, adeiladu gwytnwch a datblygu sgiliau arloesol.

Erbyn 2035 y DU fydd y lle gorau yn y byd i ddechrau, tyfu a buddsoddi mewn Gweithgynhychu Uwch. **Ein huchelgais erbyn 2035 yw bron dyblu buddsoddiad busnes blynyddol yn y sector o £21 biliwn i £39 biliwn**, gan yrru twf ar draws yr economi.

Y dull

Byddwn yn:

- **Diwygio'r amgylchedd busnes** fel bod gan y sector Gweithgynhyrchu Uwch y sicrwydd, y sefydlogrwydd a'r rhwyddineb hirdymor o wneud busnes i:
 - **Adeiladu gwytnwch**, gyda llai o gostau trydan diwydiannol a chadwyni cyflenwi wedi eu cryfhau.
 - **Ehangu arloesi ac awtomeiddio**, gyda mwy o ddefnydd o dechnolegau-o'r-radd flaenaf, roboteg ddiwydiannol, AI, efeilliaid digidol, a Rhyngryd Pethau.
 - **Datblygu gweithlu dynamig a llythrennog yn ddigidol**, gyda chenhedlaeth newydd o fabwysiadwyr technoleg.
- **Blaenoriaethu diwydiannau gweithgynhyrchu ffiniol sydd â'r potensial twf mwyaf:**
 - **Moduro**, gyda'n record o arloesi mewn gyrru, systemau ynni, a thechnolegau di-yrwr yn rhoi mantais gystadleuol i'r DU yn y trawsnewidiad i Gerbydau Allyriadau Sero a Symudedd Cysylltiedig ac Ymreolaethol.²
 - **Batris** – gyda'n sylfaen ymchwil ffyniannus a'n hecosystem busnesau newydd yn arloesi technolegau newydd yn barhaus wrth i'r galw byd-eang am ffynonellau pŵer cynaliadwy a diogel gynyddu.³
 - **Awyrofod** – gyda'n harbenigedd mewn peiriannau jet, adenydd, a systemau uwch ar gyfer awyrennau masnachol mawr yn rhoi'r sector mewn sefyllfa gref i fanteisio ar y galw wrth i'r genhedlaeth nesaf o awyrennau gael ei datblygu.⁴
 - **Gofod** – gyda'n harweinyddiaeth fel gwlad ofodol a'n partneriaethau rhyngwladol yn helpu'r DU i sicrhau manteision mewn meysydd sy'n hanfodol i amddiffyn a thwf.
 - **Deunyddiau Uwch** – gyda'r 2,700 o gwmnïau gweithredol yn y DU yn barod i fanteisio ar gyfleoedd a grëwyd gan y galw cynyddol gan sectorau eraill, o Ddiwydiannau Ynni Glân i Ddigidol a Thechnolegau.⁵
 - **Technoleg Amaeth** – gyda'n cryfderau mewn technolegau manwl yn manteisio ar y farchnad am atebion i roi hwb i gynhyrchiant, adeiladu gwytnwch hinsawdd, a lleihau allyriadau yn y sector amaethyddiaeth.⁶
- **Cefnogi clystyrau Gweithgynhyrchu Uwch ledled y DU**, gydag 84% o swyddi wedi'u lleoli y tu allan i Lundain a'r De-ddwyrain a chrynodeiadau cryf o fusnesau yn Glasgow a Chaeredin; Gogledd-ddwyrain Lloegr; Belfast; Swydd Efrog; y Gogledd Orllewin; Wrecsam a Sir y Fflint; Dwyrain Canolbarth Lloegr; Gorllewin Canolbarth Lloegr; De-orllewin Lloegr; a'r Coridor Rhydychen i Gaergrawnt.⁷
- **Partneru gyda diwydiant i weithredu'r Cynllun**, gan gynnwys trwy ymrwymïadau cyllido cyfateb a grwpiau diwydiant a Llywodraeth ar y cyd fel y Cyngor Moduro, Tasglu Strategaeth Batris y DU, a Grŵp Cynghori'r Diwydiant Gofod.

Yr ymyriadau

Byddwn yn:

- **Lleihau costau trydan i'r gweithgynhyrchwyr dwys o ran ynni** trwy gynyddu gostyngiadau trwy'r British Industry Supercharger a chreu Cynllun Cystadleurwydd Diwydiannol Prydain newydd ar gyfer diwydiannau gweithgynhyrchu penodol.
- **Cryfhau cadwyni cyflenwi** trwy gefnogi diwydiannau sylfaenol sy'n hanfodol i gystadleurwydd busnesau Gweithgynhyrchu Uwch, gan gynnwys trwy Strategaeth Dur, a gyhoeddwyd yn llawn yn ddiweddarach yn y flwyddyn, a gwella'r Ganolfan Gwybodaeth Mwynau Hanfodol i wella ei galluoedd sganio gorwel.
- **Sbarduno arloesi a masnacheiddio** yn ein diwydiannau ffiniol drwy ymrwymo hyd at £4.3 biliwn o gyllid ar gyfer y sector Gweithgynhyrchu Uwch, gan gynnwys hyd at £2.8 biliwn mewn rhaglenni cyllido ymchwil a datblygu dros y 5 mlynedd nesaf.
- **Cyflymu'r defnydd o roboteg a 'phrosesau darbodus'** drwy ehangu ein rhaglen Mabwysiadu Clyfrach ar gyfer BBaChau a chyllid cychwynnol o £40 miliwn ar gyfer rhwydwaith newydd ar gyfer Hybiau Mabwysiadu Roboteg ledled y DU.
- **Adeiladu sylfaen sgiliau'r sector** trwy ddiwygiadau ehangach i'r system sgiliau yn Lloegr a thrwy lansio Rhaglen Uwchsgilio ac Ailsgilio newydd sy'n benodol i fusnesau Gweithgynhyrchu Uwch, a fydd yn mynd i'r afael â'r angen am gyrsiau byr i'r gweithlu.
- **Gwneud newidiadau rheoleiddiol wedi'u targedu** i hybu twf mewn diwydiannau ffiniol, gan gynnwys trwy ddod â'r Ddeddf Cerbydau Awtomataidd i rym yn llawn a chreu llwybr clir i'r farchnad ar gyfer cerbydau arloesol newydd, gan gynnwys robotiaid cyflenwi.
- **Cefnogi clystyrau trwy:**
 - **Gydweithio ag Awdurdodau Strategol Maerol ac awdurdodau lleol i gefnogi gweithgynhyrchu cerbydau trydan,** gan gynnwys archwilio mentrau peilot yng Ngogledd-ddwyrain a Gorllewin Canolbarth Lloegr i greu glasbrint ar gyfer datblygu clystyrau rhagoriaeth ledled y DU.
 - **Cefnogi ein rhwydwaith o Barthau Strategaeth Ddiwydiannol** (Parthau Buddsoddi a Phorthladdoedd Rhydd) gyda mwy o gymorth gan y Llywodraeth dros £160 miliwn mewn cyllid dros 10 mlynedd i ysgogi twf, gan gynnwys yn Glasgow, Manceinion Fwyaf, Gogledd-ddwyrain Lloegr, De Swydd Efrog, Gorllewin Canolbarth Lloegr, Dwyrain Canolbarth Lloegr, a Wrecsam a Sir y Fflint.



Diwydiannau Ynni Glân

Bydd cyflawni ein Cenhadaeth Arch-bŵer Ynni Glân yn creu buddsoddiad sylweddol a nifer o gyfleoedd am swyddi ar draws y wlad. Rydym yn genedl arfordirol, yn arch-bŵer gwyddonol ac arloesi, gyda chryfderau mewn gweithgynhyrchu gwerth uchel a gweithlu ynni medrus i ategu'i gilydd. Gyda'n defnydd o ynni adnewyddadwy sy'n arwain y byd, a marchnadoedd cyfalaf dwfn, Prydain yw'r gyrchfan naturiol ar gyfer y buddsoddi ym meysydd gweithgynhyrchu a defnyddio a fydd â manteision sylweddol ar gyfer arloesi, gwasanaethau a sgiliau ledled y wlad, gan ysgogi'r trawsnewidiad ynni glân i yrru twf yr economi.

Mae buddsoddwyr ynni glân yn glir eu bod am dyfu yn y DU a buddsoddi biliynau yma, ond ni allant wneud hyn ar eu pennau eu hunain. Mae angen sicrwydd, sefydlogrwydd a phartner arnynt i gymryd y cam cyntaf gyda nhw wrth ddatblygu technolegau

a chadwyni cyflenwi newydd. Mae ein Cynllun Sector Diwydiannau Ynni Glân yn darparu hyn, gydag eglurder cenhadaeth, buddsoddiad cyhoeddus catalytig, gweithredu i chwalu rhwystrau, a chefnogaeth i'r gweithlu medrus sydd ei angen.

Erbyn 2035 ein huchelgais yw i'r DU gael o leiaf ddyblu buddsoddiad mewn Diwydiannau Ynni Glân i dros £30 biliwn y flwyddyn, gan greu cannoedd o filoedd o swyddi da am gyflogau da ledled y wlad, wedi'u cefnogi gan gydnabyddiaeth gref o undebau llafur. Bydd y trawsnewidiad ynni glân yn cael ei adeiladu gyda diwydiant Prydain, a byddwn yn dod yn un o brif allforwyr y byd o ran cynhyrchion, gwasanaethau ac arloesi carbon isel. Trwy bartneriaeth rhwng diwydiant, undebau a'r Llywodraeth, rydym yn gosod gweledigaeth hirdymor, uchelgeisiol, gydag ymrwymiadau sylweddol a blaenoriaethu effeithiol ar ble rydyn ni'n canolbwyntio ein hymdrechion gyda'n gilydd.

Y dull

Er mwyn cyflawni'r uchelgais hwn, byddwn yn:

- **Diwygio'r amgylchedd busnes** i adeiladu gwytnwch, harneisio arloesi, a lleihau cost buddsoddi ynni glân yn ein cadwyni cyflenwi ynni glân.
- **Cynyddu ein cefnogaeth i ddiwydiannau ynni glân ffiniol sydd â'r potensial twf mwyaf:**
 - **Gwynt (Ar y tir, Ar y môr ac Ar y môr Arnofiol)** – gyda gwynt ar y tir wedi'i ddatgloi yn Lloegr, yr ail ddefnydd ar y môr uchaf yn y byd, y fferm wynt ar y môr arnofiol gyntaf a mwyaf sy'n gysylltiedig â'r grid, ac, fel y nodir yn y Cynllun Twf Diwydiannol Gwynt ar y Môr a arweinir gan y diwydiant, mae gan y DU fantais gymharol o ran cynhyrchu a phrofi technolegau tyrbinau uwch.⁸
 - **Ymholliad Niwclear** – gyda chadwyn gyflenwi ffyniannus yn datblygu o amgylch Sizewell C a ariennir yn llawn, llwybr i'r farchnad ar gyfer Adweithyddion Modiwlaidd Uwch, ac uchelgais i gyflwyno fflyd o Adweithyddion Modiwlaidd Bach, rydym yn rhoi'r DU mewn sefyllfa gref i ddylunio a datblygu'r genhedlaeth nesaf o dechnoleg niwclear.
 - **Ynni Ymasiad** – gydag ymchwil a thalent uwch, wedi'i feithrin gan sefydliad ymasiad mwyaf y byd, Awdurdod Ynni Atomig y DU, sy'n rhoi'r DU ar lwybr i greu adweithydd ymasiad masnachol erbyn 2040.
 - **Defnyddio Dal a Storio Carbon (CCUS), gan gynnwys tynnu Nwyon Tŷ Gwydr** – gyda photensial storio CO₂ sylweddol y DU, cyfoeth o sgiliau trosglwyddadwy o'r diwydiant olew a nwy, a chefnogaeth reoleiddiol a phrosiectau cadarn sy'n creu'r amodau i'r DU ddod yn hyb storio CO₂ i Ewrop a chefnogi diwydiannau sylfaenol.⁹
 - **Hydrogen** – gyda'n mantais symudwr cynnar mewn elfennau hanfodol megis electrolyswyr a gwasanaethau peirianeg ar fin creu economi hydrogen ffyniannus yn y DU.
 - **Pympiau gwres** – gydag un o'r marchnadoedd domestig mwyaf yn Ewrop o bosibl, gweithlu gwresogi domestig medrus, a thangyflenwi yn y farchnad fyd-eang o'i gymharu â'r galw a ragwelir, yn creu cyfleoedd sylweddol i sylfaen weithgynhyrchu'r DU ehangu ac allforio i'r byd.¹⁰

- **Cefnogi rhwydweithiau trydan fel galluogwr sylfaenol i dwf**, gan adeiladu ar gadwyni cyflenwi domestig ffyniannus i greu swyddi a manteisio ar gyfleoedd domestig a byd-eang trwy ein cynlluniau defnyddio uchelgeisiol, diwygio'r broses gysylltiadau a sicrhau bod y sector yn elwa o gymorth sefydliadol cyllid cyhoeddus.
- **Defnyddio sgiliau ein gweithlu ynni presennol** a rhoi bywyd newydd i gymunedau diwydiannol ac arfordirol, a fydd o fudd i bob gwlad a rhanbarth o'r DU.
- **Cyflawni ymrwymadau ar y cyd gan y Llywodraeth a'r diwydiant fel partneriaid**, a gweithio law yn llaw ag undebau llafur i greu swyddi o ansawdd uchel.

Yr ymyriadau

Er mwyn cymell buddsoddi a sicrhau bod y trawsnewidiad sero net yn gweithio i bobl ledled y DU, byddwn yn:

- **Darparu cenhadaeth glir i yrru sicrwydd buddsoddi**, gyda chynlluniau defnyddio tymor hir ar gyfer technolegau allweddol a diweddariadau i reoliadau i gefnogi twf.
- **Darparu cyllid wedi'i dargedu ac yn gatalytig i gefnogi swyddi, arloesi a thwf** gan gynnwys trwy:
 - **Gronfa Cadwyn Gyflenwi Ynni Glân newydd gwerth £1 biliwn o dan Great British Energy**, gan gynnwys £300 miliwn i fuddsoddi mewn cadwyni cyflenwi gwynt ar y môr.
 - **Ein Bonws Diwydiant Glân gwerth £544 miliwn** ar gyfer datblygwyr gwynt ar y môr.
 - **£14.2 biliwn o gyllid ar gyfer Sizewell C** yn y cyfnod hwn o'r Adolygiad o Wariant a dros £2.5 biliwn ar gyfer Adweithyddion Modiwlaid Bach.
 - **£2.5 biliwn o fuddsoddiad mewn ymasiad** dros y pum mlynedd nesaf.
 - **£9.4 biliwn mewn cyllidebau cyfalaf i gefnogi'r gwaith o ddatblygu prosiectau CCUS** hyd at 2029.
 - **Rydym wedi cadarnhau £13.2 biliwn o gyllid ar gyfer y Cynllun Cartrefi Cynnes**, ac rydym yn lansio rownd arall o'r Gystadleuaeth Cyflymu Buddsoddi mewn Pwmpau Gwres, gan ddarparu grantiau i weithgynhyrchwyr fuddsoddi mewn capasiti newydd.

- **Chwalu rhwystrau i fuddsoddi.** Rydym yn symud rhwystrau yn y system gynllunio drwy'r Bil Cynllunio a Seilwaith a Datganiadau Polisi Cenedlaethol. Byddwn yn sicrhau y darperir seilwaith allweddol, yn enwedig gridiau, porthladdoedd, rheilffyrdd a ffyrdd.
- **Sicrhau bod gennym y gweithlu medrus sydd ei angen arnom, gan greu swyddi o ansawdd da a'u rhoi wrth galon y dyfodol ynni glân.** Bydd y Strategaeth Gweithlu Ynni Glân sydd ar ddod yn sicrhau bod swyddi nid yn unig yn doreithiog, ond hefyd o ansawdd uchel, gan ganolbwyntio ar gyflog teg, telerau ffafriol, ac amodau gwaith da.
- **Cydweithio'n rhyngwladol i arallgyfeirio cadwyni cyflenwi,** gyda Chyllid Allforio'r DU yn anelu at gefnogi £10 biliwn o gyllid twf glân rhwng 2024 a 2029, a thrwy ein camau gweithredu ar lwyfan y byd, gan gynnwys fel y grym y tu ôl i Gynghrair Pŵer Glân Byd-eang newydd.
- **Cefnogi ein rhwydwaith o Barthau Buddsoddi** gyda £160 miliwn o gyllid dros 10 mlynedd i ysgogi twf mewn clystyrau Ynni Glân allweddol, gan gynnwys yng Ngogledd-ddwyrain yr Alban, Gogledd-ddwyrain Lloegr, De Swydd Efrog a Dwyrain Canolbarth Lloegr a Gorllewin Canolbarth Lloegr.





Diwydiannau Creadigol

Rhagoriaeth ddiwylliannol a chreadigol y DU, a gydnabyddir ledled y byd, yw un o brif greawdwr twf economaidd. Dros y degawd diwethaf mae'r sector wedi cynyddu ei allbwn fwy na 1.5 gwaith cyfradd gweddill yr economi. Rydym yn allforio mwy o lyfrau nag unrhyw wlad arall, hon yw'r ail farchnad gelf fwyaf yn y byd, ac mae gennym y diwydiant gemau fideo mwyaf yn Ewrop.¹¹ Mae ein cwmnïau hysbysebu yn gwerthu eu gwasanaethau ledled y byd ac mae llawer o'r sioeau ffrydio mwyaf poblogaidd wedi'u gwneud yn y DU yn ein stiwdios byd-enwog. Mewn oes o alw byd-eang digynsail am gynnwys, mae gan y DU fantais ddigyffelyb, wedi'i adeiladu ar sylfeini cadarn: peiriant creadigol y BBC a'n cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, ffynnon ddofn o dalent greadigol, arloesi ffyniannus, ac amgylchedd rheoleiddio sefydlog.

Mae technolegau megis Realiti Estynedig (XR) a dadansoddeg data newydd pwerus eisoes yn trawsnewid y sector. Bydd angen arloesi cyson er mwyn i'r DU aros ar y blaen, ond er gwaethaf ei dwyster ymchwil a datblygu uwch na gwasanaethau eraill, mae ei chyfran uchel o BBaChau yn cael trafferth cael mynediad at gyllid twf, codi cyfalaf i fuddsoddi mewn technoleg, a sefydlu cysylltiadau â phrifysgolion.¹² Er gwaethaf ein henw da am dalent, mae prinder sgiliau yn parhau, gan gyfyngu ar dwf. Ac mae dyfodiad AI yn dod â chyfleoedd ond mae'n rhaid i ni hefyd sicrhau ein bod yn gwerthfawrogi, amddiffyn a grymuso crewyr cynnwys.

Drwy ganolbwyntio ar y materion hyn, **ein huchelgais yw cynyddu buddsoddiad busnes y Diwydiannau Creadigol yn sylweddol o £17 biliwn i £31 biliwn** erbyn 2035 i wella safle'r DU fel arch-bŵer creadigol byd-eang a'r gyrchfan fwyaf am y byd ar gyfer buddsoddi mewn creadigrwydd ac arloesi.

Y dull

Byddwn yn:


- **Trawsnewid yr amgylchedd busnes i:**
 - **Cyflymu arloesi** trwy gynyddu buddsoddiad cyhoeddus a phreifat mewn ymchwil a datblygu yn sylweddol, gan yrru potensial aflonyddgar Createc, a sicrhau bod gwerth eiddo deallusol creadigol yn cael ei gydnabod.
 - **Gwella mynediad at gyllid** ar gyfer busnesau newydd creadigol a busnesau sy'n ehangu, gan fynd i'r afael ag ofn risg buddsoddwyr a sicrhau bod cyfalaf twf ar gael.
 - **Tyfu'r cyflenwad sgiliau hirdymor**, gan ymateb i anghenion y sector a chefnogi gweithlu cynhyrchiol, gwydn ac amrywiol, gan gydnabod rôl gweithwyr llawrydd creadigol.
 - **Cynyddu masnach ac allforion** fel bod cynnwys creadigol y DU yn cyrraedd mwy o farchnadoedd a chynulleidfaoedd ac yn parhau i ddenu mewnfuddsoddiad.
- **Blaenoriaethu diwydiannau ffiniol** sydd â'r potensial twf mwyaf:
 - **Hysbysebu a Marchnata** – gyda'n rhagoriaeth greadigol a'n hanes o harneisio technoleg yn creu mantais gymharol sylweddol i'r DU.
 - **Ffilm a Theledu** – gyda'n seilwaith stiwdio byd-enwog a'r galw byd-eang enfawr am ein cynnwys yn trawsnewid y DU yn ail allforiwr mwyaf rhaglenni teledu heb eu sgriptio a sicrhau bod ein ffilmiau yn cyfrif am dros 20% o'r farchnad sinema fyd-eang.¹³
 - **Cerddoriaeth, Perfformio a'r Celfyddydau Gweledol** – gyda'n artistiaid, theatrau, gwyliau a lleoliadau ar lawr gwlad yn dod â miliynau o dwristiaid domestig a rhyngwladol i drefi a dinasoedd ledled y DU, a'n safle fel yr ail allforiwr cerddoriaeth mwyaf y byd yn creu cyfleoedd sylweddol.¹⁴
 - **Gemau Fideo** – gyda chyfuniad y DU o sgiliau digidol a chreadigol yn ein lleoli fel arweinydd byd-eang ym maes cynhyrchu gemau fideo.¹⁵
- **Cefnogi twf clystyrau creadigol ledled y DU**, o arbenigedd gemau fideo yn Dundee i Createch arloesol yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr a chynlluniau trawsnewidiol ar gyfer cynhyrchu ffilmiau yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr.
- **Partneru gydag arweinwyr creadigol, cwmnïau, meiri, cymdeithasau masnach, prifysgolion a cholegau** i weithredu'r Cynllun hwn, o gyflawni prosiectau mawr megis buddsoddiad parc thema Universal sy'n werth biliynau o bunnoedd i gydweithio â diwydiant i feithrin cyflenwad talent greadigol y dyfodol. Byddwn hefyd yn parhau i weithio gyda Chyngor y Diwydiannau Creadigol i adeiladu ar y Cynllun.

Yr ymyriadau

Byddwn yn:

- **Hybu arloesi a masnacheiddio drwy gynyddu'n sylweddol gefnogaeth Ymchwil ac Arloesi'r DU i fusnesau creadigol**, gan gynnwys £100 miliwn dros yr Adolygiad Gwariant ar gyfer y don nesaf o glystyrau creadigol a rhaglen Dyfodol Creadigol gwerth £25 miliwn, gan greu pum labordy Ymchwil a Datblygu CoSTAR newydd ledled y DU.
- **Sicrhau cyfundrefn hawlfraint sy'n gwerthfawrogi ac yn amddiffyn creadigrwydd dynol**, y gellir ymddiried ynddo, ac sy'n datgloi cyfleoedd newydd ar gyfer arloesi ar draws y sector creadigol a'r economi ehangach. Mae'r Llywodraeth eisiau cefnogi deiliaid hawliau i drwyddedu eu gwaith yn yr oes ddigidol wrth ganiatáu i ddatblygwyr AI elwa o fynediad at ddeunydd creadigol yn y DU. Rydym yn dadansoddi ymatebion i'r ymgynghoriad ar gyflwyno fframwaith hawlfraint ac AI, gan edrych ar yr holl opsiynau. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod yr angen i hyn gael ei wneud yn briodol ac yn ofalus, mewn ffordd ystyriol, bwylllog a rhesymegol, i ddatblygu unrhyw gynigion yn y dyfodol. Byddwn yn nodi asesiad effaith economaidd manwl ar yr holl opsiynau sy'n cael eu hystyried ac adroddiad ar y defnydd o ddeunydd hawlfraint ar gyfer hyfforddiant AI, tryloywder a safonau technegol. Bydd y dadansoddiad hwn yn llywio safbwynt y Llywodraeth, ochr yn ochr â chyfres o weithgorau arbenigol i ddod â phobl o'r sectorau AI a rhai creadigol ynghyd ar faterion tryloywder, trwyddedu a safonau technegol eraill i lunio ffordd ymlaen.
- **Sefydlu Cyfnewidfa Cynnwys Creadigol (CCE) i fod yn farchnad ddibynadwy ar gyfer gwerthu, prynu, trwyddedu a galluogi mynediad a ganiateir i asedau diwylliannol a chreadigol wedi'u digideiddio**. Bydd y farchnad newydd hon yn agor ffrydiau refeniw newydd ac yn caniatáu i berchnogion cynnwys fasnacheiddio ac ariannu eu hasedau wrth ddarparu rhwyddineb mynediad i ddefnyddwyr data. Yn y modd hwn, bydd y CCE yn helpu i danio'r don nesaf o arloesi creadigol wrth hwyluso datblygu modelau AI gwerth uchel. Caiff y gwaith o ddarganfod a phrofi modelau a thechnolegau priodol gyda pherchnogion cynnwys mabwysiadwyr cynnar gymorth gan Raglen Cyflymu Cenadaethau Ymchwil a Datblygu UKRI.
- **Hybu addysg greadigol drwy lansio gwasanaeth gyrfaedd creadigol gwerth £9 miliwn ledled y DU** a chyd-ariannu ehangu'r Ysgol Ffilm a Theledu Genedlaethol, gyda £11 miliwn gan fuddsoddwyr preifat gan gynnwys Walt Disney Company, Sefydliad Dana ac Albert R. Broccoli a Sky. Yn dilyn ein Hadolygiad Cwricwlwm ac Asesu, byddwn yn cyflwyno cwricwlwm yn Lloegr sy'n paratoi pobl ifanc ar gyfer bywyd a gwaith, gan gynnwys mewn pynciau a sgiliau creadigol.
- **Archwilio gyda'r UE ac aelod-wladwriaethau y ffordd orau o wella'r trefniadau ar gyfer artistiaid teithiol ledled Ewrop**, gan adeiladu ar Uwchgynhadledd y DU-UE ym mis Mai 2025, a oedd yn cydnabod gwerth cyfnewid diwylliannol ac artistig.

- **Cynyddu nifer y teithiau masnach creadigol a'r marchnadoedd a gyrhaeddwyd**, gyda mwy o gyllid i roi hwb i allforion ar draws marchnadoedd mawr yn yr UE a'r Unol Daleithiau a marchnadoedd sy'n tyfu'n gyflym fel y Gwlff ac Asia-Môr Tawel.
- **Darparu cymorth wedi'i dargedu i'n diwydiannau ffiniol**, gyda £75 miliwn ar gyfer ffilm a theledu, £30 miliwn ar gyfer gemau fideo, a hyd at £30 miliwn ar gyfer cerddoriaeth dros y tair blynedd nesaf, i ddatblygu ac arddangos cynnwys newydd, cefnogi talent Prydain, a rhoi hwb i allforion a mewnfuddsoddiad.
- **Cefnogi clystyrau creadigol drwy Gronfa Twf Mannau Creadigol newydd** sy'n datganoli £150 miliwn dros dair blynedd i chwe Awdurdod Strategol Maerol, ochr yn ochr â chefnogaeth i Barth Buddsoddi Creadigol Dyffryn Tees, a fydd yn derbyn dros £160 miliwn o gyllid dros 10 mlynedd.





Amddiffyn

Y diwydiant amddiffyn yw congfaen diogelwch cenedlaethol y DU, sydd wrth wraidd twf economaidd. Mae ein busnesau amddiffyn yn arweinwyr bydeang yn eu meysydd, gyda chryfderau mewn galluoedd amddiffyn wedi'u gwasgaru ledled y wlad – o adeiladu llongau yn yr Alban, gweithgynhyrchu taflegrau yng Ngogledd Iwerddon, a seiberalluoedd yng Nghymru, hyd at weithgynhyrchu awyrennau ymladd ac adeiladu llongau tanfor yng Ngogledd-orllewin Lloegr.

Bydd ymrwymiad y Llywodraeth i gynyddu buddsoddiad mewn amddiffyn i 2.6% o CMC yn 2027, gydag uchelgais i godi i 3% yn y Senedd nesaf, yn amddiffyn y DU rhag bygythiadau allanol cynyddol ac yn creu cyfle nwaith mewn cenedlaeth i'r sector Amddiffyn. Mae gwariant y Weinyddiaeth Amddiffyn gyda diwydiant yn cefnogi dros

244,000 o swyddi ledled y DU, gyda bron i 70% o swyddi amddiffyn y tu allan i Lundain a'r De-ddwyrain.¹⁶

Gweledigaeth yr Adolygiad Amddiffyn Strategol yw i'r DU, erbyn 2035, fod yn "bŵer amddiffyn blaenllaw wedi'i alluogi gan dechnoleg, gyda Llu Integredig sy'n atal, sy'n ymladd ac sy'n ennill trwy arloesi cyson ar gyflymder rhyfel". Er mwyn gwneud hyn, uchelgais y Llywodraeth yw datgloi'r potensial hwnnw a thrawsnewid y DU yn arch-bŵer diwydiannol amddiffyn, gan ddarparu gallu sy'n arwain y byd yn y DU ac sy'n meithrin partneriaeth newydd gyda diwydiant, gweithwyr, a'n Lluoedd Arfog. Bydd y Cynllun Sector Amddiffyn (Strategaeth Ddiwydiannol Amddiffyn) sydd ar ddod yn amlinellu sut y byddwn yn diwygio, tyfu ac arloesi i adeiladu ein sylfaen ddiwydiannol amddiffyn gan helpu i ehangu cwmnïau haen fach a chanolig a chreu arweinwyr diwydiannol.

Y dull

Er mwyn cyflawni'r uchelgais hwn, byddwn yn:

- **Diwygio'r amgylchedd busnes i:**
 - **Cefnogi busnesau yn y DU**, gyda ffocws penodol ar BBaChau a-chyflenwyr anhraddodiadol ac adeiladu marchnad amddiffyn ddynamig a chystadleuol yn y DU.
 - **Gwella caffael a chaffaeliadau amddiffyn**, gan gynyddu cyflymder a gwerth am arian, a darparu'r signalau galw i ddatgloi buddsoddiad preifat.
 - **Gwneud y DU yn arweinydd arloesi ym maes amddiffyn**, gan gynyddu ein cefnogaeth i dechnolegau ac arloesi newydd a chataleiddio mabwysiadu ehangach yn y sectorau sifil.
 - **Rhoi allforion a phartneriaethau gallu rhyngwladol wrth wraidd ein dull gweithredu**, gyda Swyddfa newydd ar gyfer allforion amddiffyn yn cefnogi busnesau.
 - **Cefnogi twf gwydn a diogel**, gan sicrhau bod sylfaen ddiwydiannol amddiffyn y DU yn cael ei gwarchod rhag bygythiadau ac yn ffynhonnell twf i weddill yr economi.
- **Blaenoriaethu diwydiannau ffiniol sy'n hanfodol i ddiogelwch a thwf.** Nodir rhagor o fanylion yn y Strategaeth Ddiwydiannol Amddiffyn yn y man, a byddant yn cynnwys yr is-sectorau hynny sy'n hanfodol i'n diogelwch cenedlaethol, galluogwyr a defnyddiau sifil a milwrol wedi'u cynnwys mewn sectorau eraill (Technolegau Cysylltedd Uwch, AI, Seiber, Bioleg Peirianeg, Technolegau Cwantwm, Lled-ddargludyddion, Gofod), yn ogystal â diwydiannau ffiniol, gan gynnwys:
 - **Dronau a Systemau Awtonomaidd** - gyda'n cryfderau mewn roboteg, dronau, awtonomiaeth, a dysgu dynol-peirianyddol.
 - **Ymladd yn yr awyr** – ag awyrofod yn ffurfio mwy na hanner archebion allforio amddiffyn y DU dros y pum mlynedd rhwng 2019 a 2023, tystiolaeth o'n mantais a'n gallu byd-eang mewn meysydd megis is-systemau.¹⁷
 - **Arfau cymhleth** – â'n cytundeb allforio amddiffyn awyr nodedig gwerth £4 biliwn â Gwlad Pwyl yn dangos ein mantais gymharol mewn marchnad fyd-eang sy'n tyfu.

- **Galluoedd Morwrol** – â'n llwyddiant wrth allforio dyluniadau llongau megis yr Arrowhead 140 a Ffrigadau Math 26 a marchnad gynyddol ar gyfer systemau morwrol awtonomaidd cenedlaeth nesaf.
- **Arfau ynni wedi'i gyfeirio** - sector bach ar hyn o bryd ond gyda chyfleoedd twf sylweddol mewn ymchwil a datblygu a galluoedd blaenllaw yn y DU megis DragonFire, arddangosydd arfau ynni dan gyfeiriad laser a ddatblygwyd ar gyfer y Weinyddiaeth Amddiffyn.¹⁸
- **Lansio Bargeinion Twf Amddiffyn newydd ledled y DU i gefnogi ecosystemau lleol yn y lleoedd sydd â'r potensial twf uchaf mewn diwydiannau sy'n gysylltiedig ag amddiffyn** ac sy'n cyd-fynd â'n blaenoriaethau diogelwch cenedlaethol. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraethau lleol a datganoledig i lansio Bargeinion Twf Amddiffyn yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.
- **Dyfnhau cydweithredu â'r sector**, gan gynnwys trwy'r Cyd-gyngor Diwydiannol Amddiffyn newydd, sydd wedi'i lansio gydag aelodaeth fwy amrywiol, gan gynnwys cwmnïau ehangu ac undebau llafur.

Yr ymyriadau

Er mwyn datblygu'r cyfleoedd hyn, byddwn yn:

- **Cyflymu'r broses o fabwysiadu technolegau newydd a defnydd deul trwy:**
 - **Gwario o leiaf 10% o gyllideb offer y Weinyddiaeth Amddiffyn ar gaffael technolegau newydd**, megis dronau a thechnoleg wedi'i alluogi gan AI, tynnu technoleg flaengar dros 'ddyffryn marwolaeth' o'r prototeip i gynhyrchu ac alinio hyn ag uchelgeisiau'r Llywodraeth ar gyfer arloesi a thechnoleg mewn sectorau eraill.
 - **Lansio UK Defence Innovation i nodi, datblygu a chaffael technolegau arloesol**, gyda chymorth cyllideb o £400 miliwn, i gyflymu technoleg arloesol i'r rheng flaen wrth gefnogi sector technoleg y DU.
 - **Lansio cynghrair gyda'r Catapwlt Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel** i drosoli ei alluoedd ymchwil a datblygu sy'n arwain y byd.

- **Cefnogi busnes yn y DU trwy:**


- **Cynyddu gwariant y Weinyddiaeth Amddiffyn gyda BBaChau o £2.5 biliwn erbyn mis Mai 2028**, sef cynnydd o 50% o'i gymharu â llinell sylfaen blwyddyn ariannol 2023/24, gan sicrhau eu bod yn derbyn o leiaf £7.5 biliwn o gyfanswm cyllideb y Weinyddiaeth Amddiffyn ym Mlwyddyn Ariannol 2027 / 2028.¹⁹
- **Defnyddio ein Canolfan Cymorth BBaChau** i roi hwb i gyfleoedd i gyflenwyr anhraddodiadol.
- **Mae datblygiadau gweithredol amddiffyn yn gymwys ar gyfer cynllunio llwybr carlam** lle maent yn cael eu hystyried yn ddatblygiadau y Goron sy'n bwysig yn genedlaethol, pan fyddant yn cael eu cyflawni gan neu ar ran Corff y Goron.

- **Diwygio caffael o'r brig i'r gwaelod trwy:**

- Ymgysylltu â diwydiant yn gynnar mewn prosesau caffael ar y canlyniadau a ddymunir.
- Sicrhau bod cyflenwyr yn cael eu gwobrwyo am gynhyrchiant ac am gymryd risgiau.
- Lleihau'r baich ar ddarpar gyflenwyr busnesau newydd i brif fusnesau.
- Gweithredu dull newydd, wedi'i segmentu o gaffael: contractio llwyfannau modiwlaid mawr o fewn dwy flynedd; uwchraddiadau troellog a modiwlaid o fewn blwyddyn; a defnydd masnachol Cyflym o fewn tri mis.

- **Cynyddu allforion amddiffyn trwy:**

- **Creu Swyddfa newydd ar gyfer Allforion Amddiffyn**, sy'n adrodd wrth y Cyfarwyddwr Arfau Cenedlaethol, a fydd yn adfywio cefnogaeth y Llywodraeth i helpu allforwyr y DU i gystadlu ac ennill mewn marchnad fyd-eang sy'n tyfu, gan gynnwys trwy ddatblygu fframwaith Llywodraeth-i-Llywodraeth gyda diwydiant.
- **Adeiladu'r gallu allforio yn ein prosesau caffael**, gan gynnwys trwy ei gwneud yn ofynnol i gaffaeliadau mawr gynnwys asesiad o botensial allforio.
- **Gweithio gyda diwydiant i gyflwyno pecyn sgiliau amddiffyn**, gan gynnwys Colegau Technegol Amddiffyn newydd a chyllid ar gyfer cyrsiau ar gyfer sgiliau sy'n gysylltiedig ag amddiffyn.



Digidol a Thechnolegau

Y meysydd sy'n tyfu gyflymaf yn economi'r dyfodol fydd y rhai sy'n cael eu gyrru gan dechnoleg, gyda thua hanner y twf GDP a ragwelir yn y blynyddoedd nesaf yn cael ei briodoli i fabwysiadu technolegau sy'n dod i'r amlwg.²⁰ Eisoes cwmnïau technoleg sydd amlycaf ar y rhestr o fusnesau byd-eang mwyaf gwerthfawr, gyda 9 yn y 15 uchaf.²¹ Mae datblygiadau'r sector yn chwyldroi diwydiannau ar draws yr economi, gan ailddiffinio sut rydym yn byw ac yn gweithio ac yn sbarduno cystadleuaeth fyd-eang ddwys i ddal y manteision. Bydd technoleg yn bwysig i'n diogelwch economaidd a'n gwytnwch, gan gadw dinasyddion a busnesau yn ddiogel ac yn sail i arloesi mewn amddiffyn a diogelwch.

Mae gan y DU hanes cyfoethog o ddatblygiadau gwyddonol ac arloesi technolegol i adeiladu arno. Mae ein prifysgolion blaenllaw, ein sylfaen ymchwil o'r radd flaenaf, ecosystem dechnoleg gwerth £1 triliwn, a busnesau arloesol yn ein rhoi mewn sefyllfa gref ar gyfer llwyddiant yn y dyfodol.²² Ond i gyflawni hyn mae angen i fwy o'n busnesau newydd dyfu ac wedyn mynd yn archsêr byd-eang, taith nad yw digon o gwmnïau yn ei dilyn yn y DU. Ac mae angen i ni feithrin cwmnïau technoleg ddyfnach sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfalaf-ddwys, risg uchel, gwobrau uchel sydd â'r potensial i ddatblygu galluoedd hanfodol i'r DU ond sy'n wynebu rhwystrau wrth gael mynediad at gymorth o'r farchnad.

Gweledigaeth y Llywodraeth yw i'r DU fod, **erbyn 2035, yn un o'r tri lle gorau yn y byd i greu, buddsoddi ynddo a chynyddu busnes technoleg sy'n tyfu'n gyflym.** Byddwn yn anelu at sicrhau busnes technoleg triliwn o ddoleri cyntaf y DU.

Y dull

Byddwn yn:

- **Diwygio'r amgylchedd busnes** fel y gall y sector Digidol a Thechnolegau:
 - **Buddsoddi mewn ymchwil a datblygu**, sylfaen twf, gyda chymorth y lefelau uchaf erioed o fuddsoddiad cyhoeddus a gwell mynediad at gyfleusterau a seilwaith Ymchwil a Datblygu.
 - **Dechrau ac uwchraddio**, gyda chronfeydd dyfnach o gyfalaf cyhoeddus, sefydliadol a menter ar gael ym mhob cam o'u taith dwf.
 - **Tyfu'r cyflenwad sgiliau a denu'r mwyaf disglair a'r goreuon** i fodloni'r galw am sgiliau digidol a STEM.
 - **Elwa ar reoleiddio a safonau diwygiedig**, gan gynnwys trwy'r Swyddfa Arloesi Rheoleiddiol newydd a fydd yn gwneud y DU y lle gorau yn y byd i fasnacheiddio technolegau ac arloesi.
 - **Sicrhau manteision cydweithredu rhyngwladol** gyda'r gwyddonwyr, arloeswyr, ac entrepreneuriaid sy'n gwthio ffiniau gwybodaeth.
- **Blaenoriaethu technolegau ffiniol sydd â'r potensial twf mwyaf:**
 - **Technolegau Cysylltedd Uwch** – gyda'n sylfaen ymchwil gystadleuol yn fyd-eang a chwmnïau arloesol yn dod yn arweinwyr byd-eang mewn meysydd wedi'u targedu erbyn 2035; gwireddu'r cyfleoedd economaidd a'r manteision cysylltedd a grëir trwy ddatblygu a defnyddio technolegau fel 5G ac ymhen amser 6G, a chyfathrebu optegol a lloeren uwch.²³
 - **Deallusrwydd Artiffisial** –gyda'n talent ymchwil a pheirianeg, llwyfan fywiog i ddechrau a thyfu busnesau, cwmnïau ffiniol, ac arweinyddiaeth fyd-eang ar ddiogelwch a Llywodraethu yn rhoi'r man cychwyn i ni gofleidio cyfleoedd AI.²⁴
 - **Seiberddiogelwch** – gyda chlystyrau ledled y DU, sefydliadau fel y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol, ac ecosystem busnesau newydd ffyniannus sy'n creu manteision economaidd sylweddol i'r DU wrth i fusnesau a Llywodraethau ledled y byd rasio i ddatblygu atebion i fygythiadau seiber.²⁵
 - **Bioleg Peirianeg** – gyda'n cryfderau ar draws ystod o feysydd ymchwil, wedi'u meithrin gan fuddsoddiadau hir strategol, gan gadarnhau'r ecosystem gryfaf ar gyfer bioleg peirianeg y tu allan i'r Unol Daleithiau a Tsieina.²⁶
 - **Technolegau Cwantwm** – gyda'r Rhaglen Technolegau Cwantwm Genedlaethol hirdymor, clystyrau o arbenigedd ledled y wlad a sector ffotoneg ffyniannus sy'n gwneud y DU yn arweinydd rhyngwladol.²⁷

- **Lled-ddargludyddion** – â'n harbenigedd mewn dylunio sglodion, lled-ddargludyddion cyfansawdd, gwyddor deunyddiau, gweithgynhyrchu offer, ac ymchwil a datblygu yn ein rhoi ar flaen y gad o ran arloesi ac yn galluogi'r DU i fod y cyntaf i arloesi sglodion y genhedlaeth nesaf.²⁸
- **Datgloi potensial clystyrau Digidol a Thechnoleg**, wedi'u crynhoi mewn dinasoedd ledled y DU, gan gynnwys Glasgow a Chaeredin; Caerdydd, Birmingham, Bryste, Rhydychen, a Llundain.
- **Partneru gyda diwydiant i weithredu'r Cynllun hwn**, gan gynnwys trwy'r Bwrdd Cynghori Strategol Cwantwm, Cyngor Ynni AI, a Phartneriaeth Seiberdwf.

Yr ymyriadau

Byddwn yn:

- **Cefnogi arloesi, gan gynnwys drwy gynyddu cyllid ymchwil a datblygu** i £22.6 biliwn erbyn 2029/30.
- **Adeiladu'r gweithlu drwy ddiwygiadau sgiliau ehangach** wrth ddenu'r dalent orau o dramor, gan gynnwys trwy'r Gronfa Dalent Fyd-eang, gyda'r nod o ddod â thua 10 o ymchwilwyr rhyngwladol o'r radd flaenaf a'u timau i'r DU yn 2025/26; a Chymrodoriaethau Byd-eang AI Turing newydd i ddod â phump o arbenigwyr AI mwyaf blaenllaw'r byd i'r DU.
- **Creu amgylchedd rheoleiddiol mwy cefnogol** trwy'r Swyddfa Arloesi Rheoleiddiol newydd.
- **Cryfhau partneriaethau rhyngwladol**, gan gynnwys trwy gydweithio'n agosach â'r Unol Daleithiau o dan bartneriaeth dechnoleg rhwng y DU a'r UD yn y dyfodol.
- **Buddsoddi mewn Ymchwil a Datblygu a seilwaith ehangu** ar gyfer technolegau ffiniol.
- **Manteisio ar gyfleoedd AI**, gan gynnwys trwy:
 - **Ehangu Adnodd Ymchwil AI y Llywodraeth** o leiaf 20x erbyn 2030, cyflymu arloesi AI trwy gynyddu capasiti cyfrifiadurol a chymorth i fusnesau newydd yn sylweddol.
 - **Sefydlu ein Huned AI Sofran newydd** o fewn y Llywodraeth, gyda hyd at £500 miliwn i gynyddu cyfran y DU mewn AI ffiniol. Bydd yr Uned yn gweithio gyda Banc Busnes Prydain i wneud buddsoddiadau ochr yn ochr â chynnig ehangach ar ddata, cyfrifiadura a thalent i adeiladu galluoedd AI y DU mewn partneriaeth â'r sector preifat.
 - **Buddsoddi mewn AI ar gyfer Cyfleoedd Gwyddoniaeth**, gan gyflymu datblygiadau gwyddonol wedi'u galluogi gan AI-.



Gwasanaethau Ariannol

Y sector Gwasanaethau Ariannol yw un o'r sectorau mwyaf a mwyaf cynhyrchiol yn y DU, sy'n werth tua 9% o gyfanswm allbwn economaidd.²⁹ Mae'r sector hefyd yn hwylusydd twf ar draws yr economi gyfan. Mae pobl a busnesau yn dibynnu ar y sector bob dydd, o ddarparu morgesi i reoli eu pensiynau, i godi cyfalaf a sicrhau benthyciadau. Fel un o sectorau mwyaf llwyddiannus y DU yn fyd-eang ac yn ddarparwr swyddi â chyflog da a sgiliau uchel ledled y DU – dwy ran o dair ohonynt y tu allan i Lundain – byddwn yn harneisio cyfleoedd wrth i farchnadoedd ddigideiddio a mabwysiadu technolegau newydd, a sicrhau bod yr economi go iawn yn teimlo manteision mwy o fuddsoddi.³⁰

Ni ellir cymryd statws y DU fel sector ariannol byd-eang yn ganiataol, ac mae cystadleuaeth ryngwladol yn parhau i gyflymu. Rhaid i'r DU barhau i addasu

ac arloesi i gynnal ein safle sy'n arwain y byd. Byddwn bob amser yn cynnal y safonau uchaf, ond mae'n rhaid i ni hefyd sicrhau bod yr amgylchedd rheoleiddio yn cefnogi twf. Gan adeiladu ar ddiwygiadau uchelgeisiol ac eang diweddar, bydd cynlluniau'r Llywodraeth ar gyfer gwasanaethau ariannol yn ail-gydbwysu'r system, gan sefydlu'r sector gwasanaethau ariannol i arloesi, tyfu a galluogi buddsoddiad ledled y DU. Mae hynny'n golygu adeiladu ar ein straeon llwyddiant presennol, gan gynnwys fel magnet ar gyfer cyfalaf tramor, a chreu rhai newydd mewn marchnadoedd digidol, cyllid cynaliadwy a thu hwnt.

Erbyn 2035, ein huchelgais yw i'r DU fod **y ganolfan ariannol gwasanaeth llawn fwyaf arloesol yn y byd**. Byddwn yn cyhoeddi Cynllun Sector ochr yn ochr ag araith Mansion House y Canghellor ar 15 Gorffennaf yn dilyn proses gyd-ddylunio helaeth gyda diwydiant, a gweithio mewn partneriaeth agos â'r rheoleiddwyr a'r sector.

Y dull

Er mwyn cyflawni'r uchelgais hwn, byddwn yn:

- **Sicrhau y gall y sector Gwasanaethau Ariannol gyflawni ei rôl fel galluogwr twf ar draws yr economi go iawn**, gyda banciau manwerthu yn darparu credyd hanfodol i fusnesau'r DU a gyda marchnadoedd ariannol cyfanwerthol effeithlon. Yn ddiweddar, gwnaethom gynnal Galwad am Dystiolaeth ar fynediad busnesau bach at gyllid, gan geisio deall ble y gallwn fynd ymhellach i gefnogi BBaChau a benthycwyr i ysgogi twf.
- **Sianelu ein cyfalaf pensiynau i'r DU** i gefnogi'r IS-8.
- **Rhoi hwb i'n marchnadoedd cyfalaf, gan adeiladu ar eu dyfnder a'u cryfder**, ar ôl ailwampio cyfundrefn rhestru'r DU i ddod â'n llyfr rheolau yn unol ag arferion gorau rhyngwladol, sy'n golygu y gall cwmnïau bellach restru'n hawdd, codi cyfalaf yn gyflym ac yn effeithiol, a thyfu yn y DU.
- **Anelu at wneud y DU y ganolfan ariannol fyd-eang fwyaf datblygedig o safbwynt technolegol** gyda marchnadoedd wedi'u digideiddio'n llawn, ac awdurdodaeth flaenllaw i echnolegau ariannol ddechrau, tyfu, ac yn y pen draw rhestru.
- **Galluogi diwydiannau sydd â'r potensial mwyaf i fuddsoddi a thyfu:**
 - **Rheoli Asedau a Gwasanaethau Cyfanwerthu** – gyda sectorau sy'n arwain y byd ac sy'n rheoli cynilion miliynau o bobl, gan gyfeirio cyfalaf at sectorau sy'n tyfu gyflymaf yn y DU.
 - **Marchnadoedd Cyfalaf** – â marchnadoedd sy'n ddwfn ac sy'n gryf, yn darparu i gwmnïau a buddsoddwyr ac yn cefnogi cwmnïau i ddechrau, tyfu, rhestru, ac aros yma.
 - **Technoleg ariannol** – ag ecosystem â photensial twf uchel sy'n gallu cyrraedd rhannau o'r economi nad ydynt wedi'u cyrraedd gan wasanaethau ariannol traddodiadol.
 - **Marchnadoedd Yswiriant ac Ailyswiriant** – gyda sector ffyniannus sy'n barod i adeiladu gwytnwch a manteisio ar gyfleoedd economaidd byd sy'n newid.
 - **Cyllid Cynaliadwy** – gyda'n harweinyddiaeth rhyngwladol yn rhoi llaw gryfach i'r DU fanteisio ar y galw cynyddol am gynhyrchion ariannol cynaliadwy.
- **Datgloi potensial economaidd ein clystyrau gwasanaethau ariannol**, gan gynnwys Llundain Fwyaf, Manceinion Fwyaf, Gorllewin Canolbarth Lloegr, Gorllewin Swydd Efrog, Glasgow, Caerdydd, Caeredin a Belfast.
- **Gweithredu ein Cynllun Sector gyda diwydiant**, trwy gyfres o 'Fforymau Diwydiant, sy'n cwmpasu ehangder cyfan y sector, gan gynnwys arweinwyr bancio, yswiriant a rheoli asedau.

Yr ymyriadau

Rydym wedi:

- **Galluogi creu 'megagronfeydd' pensiwn newydd** gyda'r raddfa i fuddsoddi mewn asedau sydd â photensial twf uwch. Mae'r Llywodraeth bellach wedi cyhoeddi adroddiad terfynol yr adolygiad buddsoddi pensiynau ac wedi cyflwyno'r Bil Cynlluniau Pensiwn i greu'r megagronfeydd hyn. Ynghyd â Chytundeb gwirfoddol Mansion House a arweinir gan y diwydiant, bydd y diwygiadau hyn yn sicrhau £50 biliwn o fuddsoddiad i fusnesau yn y DU a phrosiectau seilwaith mawr.
- **Cyflwyno'r ddeddfwriaeth ar gyfer PISCES**, math newydd o gyfnewidfa stoc arloesol ar gyfer cwmnïau sydd am barhau'n breifat am gyfnod hirach, gan adeiladu ar ein diwygiadau i gyfundrefn restru'r DU a chefnogi cwmnïau twf y DU.
- **Manteisio i'r eithaf ar y drefn reoleiddio Solfedd ddiwygiedig** trwy weithio gyda'r Awdurdod Rheoleiddio Darbodus (PRA) a'r Gronfa Gyfoeth Wladol i gasglu buddsoddiad mewn asedau cynhyrchiol. Mae'r PRA hefyd yn ymgynghori ar Gyflymydd Buddsoddi i leihau'r amser rhwng nodi cyfle buddsoddi cynhyrchiol gan yswirwyr bywyd a gwneud y buddsoddiad hwnnw.
- **Cymryd camau i symleiddio ein dull o reoleiddio gwasanaethau ariannol**, gan ailgydbwyso i reoleiddio ar gyfer twf. Mae hyn yn cynnwys cydgrynhoi'r Rheoleiddiwr Systemau Talu, yn bennaf o fewn yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol; adolygu meysydd 'rhoi sylw i' y PRA a'r FCA i nodi cyfleoedd i'w rhesymoli; gweithio gyda'r FCA i gefnogi cwmnïau arloesol cyfnod cynnar i ddechrau cynnal gweithgareddau rheoledig; ac adolygu dangosyddion perfformiad allweddol y PRA a'r FCA.

Bydd Cynllun y Sector Gwasanaethau Ariannol yn mynd ymhellach i:

- **Sicrhau bod y system reoleiddio Gwasanaethau Ariannol yn cefnogi twf.** Bydd hyn yn cynnwys nodi casgliadau adolygiad y Llywodraeth o Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol.
- **Sefydlu 'gwasanaeth gofalwr' pwrpasol y Gwasanaethau Ariannol** i helpu cwmnïau rhyngwladol i fynd i'r afael â rheoliadau'r DU – gan ddenu mwy o fuddsoddiad a'i gwneud hi'n haws gwneud busnes yn y DU.



Gwyddorau Bywyd

Mae sector Gwyddorau Bywyd y DU wedi gwneud cyfraniad eithriadol i enw da rhyngwladol y DU. Mae'n chwarae rôl unigryw yn yr economi, gan godi cynhyrchiant a chefnogi swyddi eithriadol o werthfawr wrth roi hwb hefyd i dwf yn anuniongyrchol trwy wella iechyd y boblogaeth.³¹ Datblygwyd llawer o'r meddyginiaethau a'r technolegau pwysicaf sy'n cael eu defnyddio ledled y byd gyntaf yn y DU. O frechlynnau i wrthgyrff monoclonaid, amnewidiadau clun i sganwyr CT, mae gan y DU hanes balch yn y sector hanfodol hwn. Mae'r hanes hwnnw o arloesi yn parhau hyd heddiw. Y DU oedd y wlad gyntaf i drwyddedu a defnyddio brechlynnau COVID-19, i ddarparu cymeradwyaeth reoleiddiol gyntaf y byd ar gyfer meddyginiaeth sy'n defnyddio technoleg golygu genynnau CRISPR arloesol, a rhedeg un o'r llwyfannau mwyaf ar gyfer datblygu brechlynnau canser wedi'u personoleiddio.³²

Ond yn ystod y degawdau diwethaf, mae cwmnïau Gwyddorau Bywyd y DU wedi cael trafferth ehangu a chipio manteision economaidd. Hyd yn oed mewn meysydd o gryfder traddodiadol, megis rheoleiddio a threalon clinigol, mae'r DU wedi tanberfformio yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gydag amser canolrif arafach ar gyfer sefydlu a chymeradwyo treialon masnachol o'i gymharu â llawer o gystadleuwyr.³³ Cynllun y Llywodraeth yw i'r sector Gwyddorau Bywyd atgyweirio a thrawsnewid economi'r genedl, yn rhan o'r Strategaeth Ddiwydiannol, ac iechyd y genedl, yn unol â'r ymrwymadau a nodir yn y Cynllun Iechyd 10 Mlynedd sydd ar fin ymddangos.

Ein huchelgais yw, erbyn 2030, mai'r DU **fydd prif economi Gwyddorau Bywyd Ewrop;** ac erbyn 2035, **y drydedd economi Gwyddorau Bywyd bwysicaf yn fyd-eang,** ar ôl yr Unol Daleithiau a Tsieina.

Y dull

Er mwyn cyflawni'r uchelgais hwn, byddwn yn:

- **Diwygio'r dirwedd busnes, rheoleiddiol a chyllid cyhoeddus ar draws tri philer**
 - **Cynorthwyo gydag Ymchwil a Datblygu o safon fyd-eang.** Byddwn yn sicrhau bod y DU yn parhau i fod yn gadarnle gwyddoniaeth cyfnod cynnar ac yn gwireddu ei photensial i ddod yn un o arweinwyr y byd mewn gwyddorau cymhwysol, gyda buddsoddiad cyhoeddus ar raddfa fawr mewn gwyddoniaeth ddarganfod, llai o fiwrocratiaeth, gwell mynediad at ddata, a mwy o aliniad strategol rhwng cyllidwyr ymchwil iechyd a Gwyddorau Bywyd y DU. Byddwn yn buddsoddi hyd at £600 miliwn ochr yn ochr ag Ymddiriedolaeth Wellcome yn y Gwasanaeth Ymchwil Data Iechyd; mwy na £650 miliwn dros 5 mlynedd yn Genomics England; hyd at £354 miliwn yn Our Future Health, o leiaf £30 miliwn mewn seilwaith cyn-glinigol sy'n gysylltiedig â rhwydweithiau ymchwil trosiannol, a hyd at £20 miliwn yn UK BioBank.
 - **Gwneud y DU yn lle rhagorol i ddechrau, tyfu, ehangu a buddsoddi ynddo,** gyda gwell mynediad at gyllid, sylfaen sgiliau gryfach, a chefnogaeth gryfach i weithgynhyrchwyr y DU.
 - **Gyrru arloesi ym maes iechyd a diwygio'r GIG** i sicrhau bod cleifion yn cael mynediad cyflym i'r technolegau newydd mwyaf effeithiol, trwy ddefnyddio cymhellion a rhyddid i annog y GIG i weithredu'n fwy arloesol, wrth alluogi newid o salwch i atal, yr ysbyty i'r gymuned, ac analog i ddigidol.
- **Blaenoriaethu diwydiannau gwyddorau bywyd ffiniol sydd â'r potensial twf mwyaf:**
 - **Fferyllol** – â'n hecosystem ddiwydiannol gyfoethog yn canolbwyntio ar ddatblygu a gwerthu meddyginiaethau brand a meddyginiaethau generig a biodebyg.
 - **Technolegau Meddygol** – â'n cyfuniad o gwmnïau rhestredig FTSE mawr a BBaChau yn tyfu'n gryf i gipio mantais y farchnad wrth i dechnolegau newydd drawsnewid meddygaeth.
- **Rhyddhau potensial economaidd clystyrau Gwyddorau Bywyd**, gan gynnwys Llundain, Rhydychen, a Chaergrawnt, yn ogystal â chlystyrau eraill ym Manceinion, Lerpwl, Swydd Efrog, De Cymru, Gogledd-ddwyrain Lloegr, Gorllewin Canolbarth Lloegr, a thriongl Glasgow-Caeredin-Dundee.

Yr ymyriadau

Bydd Cynllun y Sector Gwyddorau Bywyd yn cael ei gefnogi dros oes yr Adolygiad Gwariant gan gyllid y Llywodraeth o dros £2 biliwn, ochr yn ochr â chyllid gan Ymchwil ac Arloesi'r DU a'r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal (NIHR). Y chwe phrif weithred y byddwn yn eu blaenoriaethu yw:

- **Gwireddu Gwasanaeth Ymchwil Data Iechyd** gyda buddsoddiad o hyd at £600 miliwn gan y Llywodraeth, ochr yn ochr ag Ymddiriedolaeth Wellcome i greu'r plattform data iechyd mwyaf datblygedig, diogel a pharod ar gyfer AI yn y byd. Bydd hyn yn uno data genomig, diagnostig a chlinigol ar raddfa boblogaeth, gan droi data GIG a gofal iechyd ehangach yn atyniad ar gyfer treialon byd-eang a buddsoddiad AI.
- **Gan leihau amser sefydlu treialon i lai na 150 diwrnod:** gweithredu diwygiadau O'Shaughnessy, gan ddiweddarau Llywodraethiant NIHR a gosod mandad iechyd a thwf deuol ar yr NIHR, byddwn yn lleihau oedi sy'n atal buddsoddwyr ac yn anelu at ddyblu cyfranogwyr treialon ymyrraeth fasnachol erbyn 2026 ac eto erbyn 2029.
- **Cefnogi gweithgynhyrchu gyda hyd at £520 miliwn** drwy'r Gronfa Gweithgynhyrchu Arloesol Gwyddorau Bywyd, a fydd yn dod â buddsoddiadau gweithgynhyrchu symudol yn fyd-eang i'r DU. Bydd hyn yn helpu i adeiladu a chynnal gallu sofran hanfodol y DU ar draws y sector, gan greu swyddi gwerth uchel ledled y wlad, a chryfhau gwytnwch iechyd domestig a diogelwch

y gadwyn gyflenwi. Rydym hefyd wedi datblygu dull newydd, pwrpasol o gefnogi buddsoddiadau dros £250 miliwn.

- **Symleiddio rheoleiddio a mynediad i'r farchnad** trwy gefnogi'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd i ddod yn rheoleiddiwr cyflymach, mwy ystywyth, a rhoi llwybr cliriach i'r farchnad trwy gyngor ar y cyd a chymeradwyaethau cyfochrog â'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Iechyd a Gofal ochr yn ochr â llwybr ar gyfer dibyniaeth ryngwladol ar feddyginiaethau a dyfeisiau meddygol fel bod cleifion yn elwa yn gynt o arloesi sydd ar flaen y gad.
- **Cyflwyno Caffael Ffrithiant Isel** drwy symleiddio'r llwybr at gaffael, gan sicrhau ei fod yn gliriach ac yn llai biwrocraidd, gan roi mynediad i'r GIG i'r diwydiant drwy Lwybr Seiliedig ar Reolau ar gyfer technoleg feddygol a 'Pasbort Arloeswr' y GIG, gan alluogi cynhyrchion technoleg feddygol arloesol i gyrraedd cleifion yn gynt.
- **Partneru â'r diwydiant i gynyddu twf ac arloesi.** Byddwn yn sicrhau o leiaf un bartneriaeth strategol fawr bob blwyddyn gyda chwmnïau Gwyddorau Bywyd blaenllaw. Bydd gwasanaeth cymorth pwrpasol hefyd yn cael ei sefydlu i helpu 10-20 o gwmnïau potensial uchel yn y DU i ehangu, denu buddsoddiad, a chadw eu pencadlys yn y DU.



Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes

Mae'r DU yn arweinydd byd-eang yn y sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes (PBS), sy'n gartref i gwmnïau gwasanaethau cynghori'r '4 Mawr' a 7 o'r 20 cwmni cyfreithiol mwyaf yn y byd.³⁴ Mae ecosystem PBS genedlaethol ffyniannus yn hwylusydd hanfodol ar gyfer gweddill economi'r DU. Mae ein cyfreithwyr, ymgynghorwyr, peirianwyr, cyfrifwyr a phenseiri gorau yn helpu busnesau i ddod yn fwy cynhyrchiol, ariannol wydn ac ynni-ffeithlon. Mae'r sector yn lledaenu ein safonau uchel ar gyfer atebolrwydd corfforaethol a chynaliadwyedd yn fyd-eang, ac yn lledaenu ffyniant ledled y DU, gyda mwy na hanner y swyddi wedi'u lleoli y tu allan i Lundain a De-ddwyrain Lloegr.³⁵ Mae'r trawsnewidiad sero net hefyd yn creu galw newydd am ystod eang o wasanaethau hinsawdd,

ynni glân a'r amgylchedd, y mae'r DU mewn sefyllfa dda i fanteisio arnynt. Ond ar yr un pryd, mae'r sector ymhlith y rhai mwyaf agored i awtomeiddio ac AI, gyda sgiliau newydd sy'n hanfodol ar gyfer twf pellach - cyfle ond hefyd her sylweddol.³⁶

Erbyn 2035 y DU fydd yr ymgynghorydd mwyaf dibynadwy yn y byd i ddiwydiant byd-eang, gyda'r sector PBS mwyaf dynamig a chynhyrchiol. Ein huchelgais erbyn 2035 yw dyblu buddsoddiad busnes yn y sector o £30 biliwn i £65 biliwn. Bydd busnesau o bob diwydiant a daearyddiaeth yn dibynnu ar gwmnïau'r DU i'w helpu i lwyddo mewn byd mwy anrhagweladwy diolch i'w dwysedd gwybodaeth uchel, mewnwelediadau i newid rheoleiddiol a geowleidyddol, a hanes gwella effeithlonrwydd busnes.

Y dull

Er mwyn cyflawni'r uchelgais hwn, byddwn yn:

- **Diwygio'r amgylchedd busnes** fel bod gan y sector y rhwyddineb, y sicrwydd, y sefydlogrwydd hirdymor i:
 - **Gynyddu camau i fabwysiadu technoleg ac arloesi**, gan fanteisio ar botensial twf meysydd digidol newydd megis LawTech a PropTech ac adeiladu ar lefelau uwch o fabwysiadu AI nag yng ngweddill yr economi, wrth fynd i'r afael â'r bwllch rhwng cwmnïau mwy a gweddill y sector.
 - **Datblygu gweithlu medrus iawn**, gyda chymorth i hybu hyfforddiant ac ailsgilio staff, mewn partneriaeth â busnes, yn enwedig yn y sgiliau arbenigol mewn digidol, pontio sero net, a seiberddiogelwch sydd eu hangen i fanteisio ar gyfleoedd newydd.
 - **Mynd i mewn i farchnadoedd newydd a thyfu allforion**, gyda ffocws newydd gan reoleiddwyr y DU ar negodi cyd-gydnabyddiaeth o gytundebau cymwysterau proffesiynol.
 - **Mynediad at gyllid twf ym mhob rhanbarth o'r DU**, gyda mwy o gymorth cyfnod cynnar i godi cyfalaf a denu mewnfuddsoddiad.
 - **Darparu arweinyddiaeth ryngwladol wrth bennu safonau a rheoliadau**, gan greu mwy o alw am eu gwasanaethau.
- **Blaenoriaethu diwydiannau ffiniol arloesol sy'n arwain y byd sydd â'r potensial twf mwyaf:**
 - **Cyfrifeg, Archwilio, a Threth** – lle bydd awtomeiddio cyfrifyddu traddodiadol yn cymell cwmnïau i ehangu i feysydd newydd gyda chyfleoedd twf sylweddol, megis adrodd Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu.
 - **Gwasanaethau Cyfreithiol** – lle bydd ymddangosiad technolegau newydd ac amlhau rheolau rhyngwladol yn parhau i wthio arloeswyr i'r DU a'i fframwaith cyfreithiol dibynadwy i gytuno ar gontractau a datrys anghydfodau, gan greu cyfleoedd newydd i'n harferion cyfreithiol safon aur.
 - **Ymgynghoriaeth Rheoli** – lle mae gan ein cwmnïau elitaidd byd-eang y potensial i arwain y farchnad gynyddol am gyngor ar fanteisio ar gyfleoedd y trawsnewidiad sero net, addasu i'r trawsnewidiad digidol, a chynnal sefydlogrwydd trwy anwadalrwydd byd-eang.
- **Adeiladu ar gryfderau rhanbarthol y sector trwy gefnogi clystyrau** yn Glasgow a Chaeredin; Gorllewin Swydd Efrog; Manceinion Fwyaf, Lerpwl, Gorllewin Canolbarth Lloegr, a Llundain Fwyaf.
- **Gweithredu'r Cynllun Sector hwn mewn partneriaeth â diwydiant**, drwy ymrwymiadau ar y cyd a gweithio'n agos gyda Chyngor Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes diwygiedig.

Yr ymyriadau

Mae'r Llywodraeth yn ymrwymo drwy'r Adolygiad Gwariant dros £150 miliwn i gefnogi ein huchelgais ar gyfer PBS. Er mwyn bwrw ymlaen â'r blaenoriaethau hyn, byddwn yn:


- **Rhoi hwb i fabwysiadu technoleg ar gyfer BBaChau drwy ehangu'r rhaglen Made Smarter** yn Lloegr i ddarparu arweiniad arbenigol, datblygu sgiliau a gweithlu, a grantiau a ariennir gan arian cyfatebol.
- **Datgloi arloesi drwy ddatblygu rhaglen Smart Data** sy'n canolbwyntio ar y sector eiddo. Bydd hyn yn gwella'r gwaith o rannu data ar draws y diwydiant eiddo tiriog i sbarduno datblygiad cynnyrch a gwasanaethau arloesol.
- **Ehangu'r Hyb Sgiliau AI newydd**, sy'n lansio yn haf 2025, i gynnwys PBS, gan ddod â diwydiant, darparwyr hyfforddiant, a phartneriaid technoleg AI ynghyd i fynd i'r afael â rhwystrau.
- **Cefnogi allforion, masnach a mewnfuddsoddi**, gan gynnwys trwy:
 - **Canolbwyntio ar sicrhau cydnabyddiaeth gydfuddiannol o gytundebau cymwysterau proffesiynol**, gyda chefnogaeth i reoleiddwyr.
 - **Sicrhau bod cwmnïau PBS yn gallu cael mynediad at Warant Gwasanaethau Prosiect Cynnar Cyllid Allforio'r DU a lansiwyd yn ddiweddar**, sy'n darparu telerau cyllid cystadleuol i ganiatáu i brynwyr rhyngwladol gaffael gwasanaethau prosiect cynnar gan fusnesau yn y DU.
 - **Adnodd colynnu yn rhwydwaith tramor y Llywodraeth** i helpu busnesau'r DU sy'n awyddus i allforio neu ehangu mewn marchnadoedd rhyngwladol, yn ogystal â chwmnïau rhyngwladol sy'n awyddus i wneud busnes yn y DU.
- **Creu cyfleoedd ledled y DU drwy lansio Hybiau PBS** yn Lerpwl, Manceinion Fwyaf, Gorllewin Swydd Efrog, Gorllewin Canolbarth Lloegr, a Rhanbarth Canolog Caeredin-Glasgow, gan weithio'n agos gydag Awdurdodau Strategol Meiri a Llywodraeth yr Alban. Bydd pob Hyb yn adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau lleol, o gyflymu datblygiad sectorau technoleg sy'n dod i'r amlwg i gysylltu cwmnïau â buddsoddwyr posibl.

Ôl-nodiadau

- 1 [Dadansoddiad yr Adran Busnes a Masnach o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol \(2025\) Cyfansymiau lefel isel CMC](#). Gweler yr atodiad technegol am ragor o wybodaeth am ddiffiniadau sector IS-8.
- 2 [Yr Adran Busnes a Masnach \(2023\) Advanced Manufacturing Plan](#)
- 3 [Yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg a'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol \(2021\) UK Innovation Strategy: leading the future by creating it](#)
- 4 [Llywodraeth y DU \(2025\) Aerospace and jet zero](#)
- 5 [Sefydliad Henry Royce \(2025\) National Materials Innovation Strategy](#)
- 6 [Yr Adran Masnach Ryngwladol \(2018\) UK capabilities in the Agri-Tech sector](#)
- 7 [Y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(2024\) Business registers and employment survey](#)
- 8 [Renewable UK \(2024\) Offshore Wind Industrial Growth Plan; Renewable UK \(2024\) Floating Wind: Anchoring the next generation offshore; RenewableUK \(2025\) Global offshore wind pipeline, February 2025](#)
- 9 [Yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net \(2023\) Carbon capture, usage and storage: a vision to establish a competitive market; RGU Energy Transition Institute \(2023\) Powering up the workforce: The future of the UK offshore energy workforce](#)
- 10 [Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus \(2024\) The Heatwave: Unlocking the economic potential of UK Heat Pump Manufacturing](#)
- 11 [Cymdeithas y Cyhoeddwyr \(2024\) Vision for publishing: The role of publishing in the UK's success; UBS \(2025\) The Art Basel and UBS Art Market Report; Video Games Europe \(2023\) All about Video Games report](#)
- 12 [Yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon \(2020\) R&D in the Creative Industries Survey](#)
- 13 [Sefydliad Ffilmiau Prydain \(2025\) UK films at the worldwide box office, 2024](#)
- 14 [IFPI \(2021\) Global music report 2025; UBS \(2024\) The Art Basel and UBS art market report; UK Music \(2024\) Manifesto for music: Supercharge sector growth and boost music exports](#)
- 15 [Video Games Europe \(2023\) All about Video Games report](#)
- 16 [Y Weinyddiaeth Amddiffyn \(2025\) MOD supported employment estimates 2022/23](#)
- 17 [Yr Adran Busnes a Masnach \(2025\) UK defence export statistics 2023](#)
- 18 [Y Weinyddiaeth Amddiffyn \(2025\) Major £5 billion technology investment accelerates UK defence investment accelerates UK defence innovation in a European first](#)
- 19 Mae hyn yn cwmpasu contractio uniongyrchol y Weinyddiaeth Amddiffyn o fewn BBaChau a hefyd cyfleoedd i BBaChau yn anuniongyrchol o fewn y gadwyn gyflenwi.
- 20 [Swyddfa Gwyddoniaeth y Llywodraeth a'r Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg \(2025\) The wider economic impacts of emerging technologies in the UK](#)
- 21 [TradingView \(2025\) Large cap global companies](#)

- 22 [QA World University Rankings \(2025\) Top global universities](#); [Dealroom \(2025\) UK tech: a forward look to 2025](#). Troswyd o \$ UDA 1.2 triliwn gan ddefnyddio cyfradd gyfnewid o 1 USD = 0.79 GBP ([Banc Lloegr](#), cyfartaledd ar gyfer 2024). [Gall tacsonomeg technoleg perchnogol](#) Dealroom gynnwys diwydiannau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Cynllun Sector Digidol a Thechnolegau.
- 23 [Yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg \(2025\) Government response to the telecoms supply chain diversification advisory council report](#)
- 24 [Yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg \(2025\) AI opportunities action plan](#)
- 25 Yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg (2025) [Government backs next wave of semiconductor start-ups to scale up growth](#); Yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg (2025) ["Cyber security sectoral analysis 2025"](#)
- 26 [Swyddfa'r Llywodraeth dros Wyddoniaeth \(2025\) Unlocking the power of engineering biology](#)
- 27 [Yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg \(2024\) New national quantum laboratory to open up access to quantum computing, unleashing a revolution in AI, energy, healthcare and more](#)
- 28 [Yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg \(2025\) Government backs next wave of semiconductor start-ups to scale up growth](#)
- 29 [Y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(2024\) GDP output approach – low-level aggregates](#)
- 30 [Y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(2025\) Workforce jobs by region and industry](#)
- 31 [Y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(2025\) GDP low-level aggregates](#) a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (2025) Employee and self-employed jobs by industry for businesses for standard industry classification 21: [JOBS03](#), [JOBS04](#). Gweler Gweithgynhyrchu Fferyllol.
- 32 [Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol \(2021\) Covid 19 vaccines delivery plan](#); [Cancer Research UK \(2024\) Patients to access trials of personalised cancer vaccines](#)
- 33 [Swyddfa Gwyddorau Bywyd \(2024\) Life sciences competitiveness indicators](#)
- 34 [The City UK \(2024\) UK legal services 2024](#)
- 35 [Dadansoddiad yr Adran Busnes a Masnach o Arolwg y Gofrestr Fusnes a Chyflogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(2025\)](#). Seiliedig ar ddata 2023. Gweler yr atodiad technegol am ddiffiniadau sector.
- 36 [Bain & Company \(2023\) Two fifths of professional services work could be automated with AI- cyrchwyd trwy Consultancy.uk](#)

Creu partneriaeth barhaol â busnes.



Mae llawer o arloesiadau a llwyddiannau economaidd mwyaf y degawdau diwethaf wedi cael eu creu nid gan ddiwydiant na'r Llywodraeth yn gweithio ar eu pennau eu hunain ond trwy bartneriaethau rhwng y wladwriaeth a'r sector preifat. Rhaid i'r DU fod yn ymgorfforiad o'r hyn sy'n ddynamig, gan ddod â ffocws Llywodraeth gyfan ac ethos cyd-greu i'n Strategaeth Ddiwydiannol.

Ond yn rhy aml yn y gorffennol nid yw'r Llywodraeth wedi bod yn bartner digon da ar gyfer busnes. Mae strategaethau diwydiannol lluosog yn y ddau ddegawd diwethaf yn adrodd eu stori eu hunain o anghysondeb a methiant i werthfawrogi'r hyn y mae ei angen ar ddiwydiant: rhagolygon tymor hir, sefydlogrwydd polisi a gweithredu cadarn, gyda'i gilydd yn creu amgylchedd lle gall busnesau wneud penderfyniadau buddsoddi tymor hir. Nid yw'r wladwriaeth bob amser wedi bod yn effeithiol wrth ddefnyddio ei phŵer prynu enfawr i fuddsoddi'n strategol yn niwydiannau pwysicaf y DU, gan gollu'r cyfle i gaffael cyhoeddus greu galw am gynhyrchion arloesol a chataleiddio twf cadwyni cyflenwi Prydain. Mae partneriaeth wirioneddol yn bwysicach byth mewn oes o ansicrwydd lle mae angen ar fusnesau i'r Llywodraeth ddarparu sefydlogrwydd. Os ydym yn gwneud hyn yn iawn, mae busnesau wedi dweud wrthym y byddan nhw'n gweithio gyda ni i fuddsoddi yn nyfodol Prydain.

Bydd y Strategaeth Ddiwydiannol yn nodi newid cam yn y ffordd y mae'r Llywodraeth yn gweithio gyda busnesau, yn rhannu gwybodaeth, ac yn cynnig cymorth a chymhellion. Trwy gydol datblygiad y Strategaeth hon, rydym wedi gwrando'n ofalus ar yr hyn y mae diwydiant, yn ogystal â Llywodraethau datganoledig, undebau llafur, Meiri, sefydliadau'r DU, ac arbenigwyr eraill, wedi'i ddweud wrthym am y cyfleoedd a'r rhwystrau mwyaf ar gyfer buddsoddiad busnes, gan ganolbwyntio ar yr IS-8 a chlystyrau ledled y DU. Ar y dechrau, fe wnaethom hefyd sefydlu Cyngor Ymgynghorol Strategaeth Ddiwydiannol annibynnol (ISAC), gydag uwch arweinwyr o ddiwydiant, y byd academaidd ac undebau llafur, sydd wedi bod yn bartner hanfodol. Bydd y partneriaethau hyn yn hanfodol wrth i ni weithredu'r Strategaeth hon.

Y dull

Byddwn yn:

- **Gweithredu ein Strategaeth Ddiwydiannol mewn a thrwy bartneriaeth â busnes.** Mae pob un o'n Cynlluniau Sector wedi'u cyd-ddatblygu â Busnes, gydag ymrwymadau gan y Llywodraeth a'r diwydiant yn seiliedig ar flaenoriaethau a rennir. Byddwn yn sicrhau mai'r Llywodraeth yw'r partner gorau posibl ar gyfer deiliaid a newydd-ddyfodiaid fel ei gilydd, o ran sut rydym yn caffael, datblygu polisi, gwneud penderfyniadau, a chynnal sefydlogrwydd; gyda disgwyliadau clir ar fusnes i godi i'r achlysur gyda mwy o fuddsoddi mewn sgiliau, technoleg, cadwyni cyflenwi a galluogwyr hanfodol eraill o dwf.
- **Trosoli pŵer prynu'r Llywodraeth trwy gaffael cyhoeddus** i gryfhau cystadleurwydd domestig, gwneud yr economi yn gryfach ac yn fwy gwydn, a darparu sylfaen gadarn o ddiogelwch i fusnesau'r DU. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy weithredu diwygiadau diweddar a datblygu opsiynau pellach gyda diwydiant i osod hyd yn oed mwy o uchelgais.
- **Dylunio cynlluniau cymorth y Llywodraeth i drosoli y cyfraniad mwyaf posibl gan y sector preifat, gan gynnwys cyd-ariannu.** Bydd hyn yn adeiladu ar hanes y Llywodraeth o ddefnyddio caffael, dulliau dylanwadu ariannol ac amodoldeb cymesur i ysgogi creu swyddi o ansawdd uchel ledled y DU.
- **Trawsnewid Llywodraeth yn wladwriaeth gryfach, fwy galluog a mwy ystwyth,** gyda chefnogaeth sefydliadau o blaid twf cryf a pharhaol, gan gynnwys Cyngor Strategaeth Ddiwydiannol parhaol. Mae cyflymder newid technolegol ac economaidd yn gofyn i ddiwydiant ddod o hyd i ffyrdd newydd o wneud busnes; mae angen i'r Llywodraeth weithio'n wahanol er mwyn cefnogi cwmnïau sy'n addasu yn ogystal â chwmnïau sydd wedi dod i mewn i'r farchnad fel herwyr ac aflonyddwyr.
- **Gweithio'n agos gyda Llywodraethau datganoledig ac Awdurdodau Strategol Maerol (MSAs)** i harneisio potensial lleoedd ledled y DU – fel y nodir ym Mhennod 2.
- **Gweithio'n agos gydag undebau llafur a sefydliadau sy'n cynrychioli safbwyntiau unigryw cymdeithas sifil** i sicrhau y bydd y Strategaeth yn dod â newid ystyrlon i weithwyr a chymunedau. Trwy ein cynllun i Wneud i Waith Dalu byddwn yn parhau i gefnogi'r gweithwyr ar y cyflog isaf gyda diogelwch swyddi a gwell amodau gwaith. Fel rhan o'n strategaeth i alinio gwerth economaidd â chanlyniadau cymdeithasol, byddwn hefyd yn dyfnhau cydweithrediad â'r Economi Effaith, a gyda busnesau sydd â phwrpas cymdeithasol, i ddatgloi arloesi, rhoi hwb i dwf cynhwysol, a chryfhau gwytnwch cymunedol.

- **Sicrhau ein bod ar y trywydd iawn i gyflawni ein huchelgais yn yr IS-8 erbyn 2035** trwy fonitro a gwerthuso effaith ymyriadau polisi a datblygiadau economaidd. Bydd hyn yn cael ei oruchwylio gan ISAC. Bydd craffu amserol ar y mesurau hyn yn ein galluogi i esblygu a chywiro'n trywydd os bydd angen, gan drin ein Strategaeth Ddiwydiannol fel fframwaith byw ar gyfer gwneud penderfyniadau ystwyth yn hytrach na chyhoeddiad unwaith ac am byth.
- **Cynnal ein momentwm a chanolbwyntio ar y tymor hir.** Gan adeiladu ar ein Uwchgynhadledd Buddsoddi Ryngwladol lwyddiannus yn hydref 2024, byddwn yn parhau i gynnal uwchgynadledau rheolaidd, gan ddod â buddsoddwyr byd-eang a diwydiant ynghyd i ddenu buddsoddiad i'n sectorau. Bydd y Llywodraeth yn adolygu'r cynnydd yn gyson yn erbyn y strategaeth mewn partneriaeth ag ISAC a bydd yn cyhoeddi diweddariad yn flynyddol, gan adrodd ar gynnydd a sicrhau bod y Strategaeth Ddiwydiannol yn parhau i fod yn addas i'r diben mewn byd sy'n newid yn gyflym. Yn ogystal, bydd yr holl ddigwyddiadau cyllidol yn nodi cymorth parhaus y Llywodraeth i'r Strategaeth Ddiwydiannol a'r IS-8.



Yr ymyriadau

Er mwyn datblygu'r blaenoriaethau hyn, rydym wedi ymrwymo i:

Gydnabod a chynyddu i'r eithaf werth buddsoddiad preifat

Byddwn yn:

- **Achub ar bob cyfle priodol i gyfuno cyllid cyhoeddus a phreifat i ddenu cyfalaf preifat.** Mae gan gyd-fuddsoddiad y Llywodraeth rôl hanfodol i'w chwarae wrth gasglu buddsoddiad preifat ac adeiladu partneriaethau hirdymor gyda buddsoddwyr yn seiliedig ar flaenoriaethau ac ymrwymadau a rennir. Yng Nghyllideb yr Hydref 2024 fe wnaethom nodi 'rheol fuddsoddi' newydd i alluogi buddsoddi mewn asedau ariannol y disgwylir iddynt dyfu'r economi wrth ddarparu enillion cadarnhaol i'r Trysorlys. Byddwn yn gwneud yn fawr o fanteision y rheol hon trwy barhau i gynyddu ein defnydd o ymyriadau 'cyllid cyfunol', gan gynnwys trwy'r Gronfa Gyfoeth Wladol, i dargedu methiannau penodol yn y farchnad, rhannu risgiau gyda buddsoddwyr, a llunio cymhellion y farchnad. Byddwn hefyd yn adeiladu mwy o bartneriaethau strategol gyda chyfalaf sy'n cael ei yrru gan genhadaeth, fel buddsoddiad effaith a dyngarwch, i gyfuno adnoddau cyhoeddus, preifat a dyngarol i gynhyrchu effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol cadarnhaol mewn cymunedau.
- **Sicrhau bod manteision llawn buddsoddiadau cyhoeddus a phreifat, yn enwedig ar gyfer cyflawni amcanion ein Strategaeth Ddiwydiannol, yn cael eu hystyried** wrth ystyried yr achos dros weithredu neu gymorth gan y Llywodraeth. Er enghraifft, byddwn yn cyhoeddi canllawiau atodol newydd i'r Llyfr Gwyrdd ar wytnwch economaidd i sicrhau bod cyfraniadau at wytnwch a wneir gan y sector preifat yn cael eu gwerthuso'n llawn ac yn gyson mewn achosion busnes ar gyfer grantiau ac ymyriadau eraill y Llywodraeth.
- **Yn fwy cyffredinol, rydym wedi clywed adborth gan fusnesau a rhanddeiliaid eraill y gellid gwella'r ffordd rydym yn dyfarnu rhaglenni grant.** Bydd DBT a HMT yn gweithio gyda diwydiant, y Bwrdd Cynghori ar Ddatblygu Diwydiannol, ISAC, a phartneriaid eraill i ystyried rhwystrau i fusnes a chyfleoedd i wneud yn fawr o effaith ein cronfeydd sy'n wynebu busnesau ar swyddi, sgiliau, gwytnwch, twf rhanbarthol, busnesau bach mewn cadwyni cyflenwi, a sero net. Bydd y Llywodraeth yn nodi mwy o fanylion yn y diweddariad blynyddol cyntaf ar y Strategaeth Ddiwydiannol

Ymrwymiadau buddsoddi

Ers sicrhau £63 biliwn mewn ymrwymiadau buddsoddi cyn yr Uwchgynhadledd Buddsoddi Ryngwladol ym mis Hydref 2024, mae'r Llywodraeth wedi parhau i weithio'n agos gyda buddsoddwyr i sicrhau ymrwymiadau cyfalaf mawr i'r DU, gan greu swyddi newydd, ariannu'r gwaith o adeiladu tai, gwella seilwaith, a gyrru twf yn yr IS-8. Mae bargeinion trawsnewidiol yn cynnwys:

- **Partneriaeth strategol rhwng y Weinyddiaeth Amddiffyn a Rheinmetall** i ddatgloi dros £400 miliwn o fuddsoddiad hirdymor yn y diwydiant gweithgynhyrchu amddiffyn, gan gynnwys mewn cyfleuster cynhyrchu casgenni gwn newydd o safon fawr yn y DU. Disgwylir i'r fenter hon greu hyd at 400 o swyddi [Mai 2025].
- **Buddsoddiad o £170 miliwn gan Knauf Insulation** mewn cyfleuster gweithgynhyrchu o'r radd flaenaf yn Shotton, Gogledd Cymru, gan greu tua 140 o swyddi [Mai 2025].
- **Buddsoddiad gwerth biliynau o bunnoedd gan Universal** mewn parc thema a chyrchfan newydd fawr yn Bedford, gan ddod â bron 20,000 o swyddi yn ystod y cyfnod adeiladu ac 8,000 o swyddi pellach ar draws lletygarwch a'r Diwydiannau Creadigol pan fydd yn agor yn 2031 [Ebrill 2025].
- **Partneriaeth newydd rhwng y Llywodraeth ac OCBC, ail fanc mwyaf Singapôr**, i hwyluso buddsoddiad o £10 biliwn mewn sectorau blaenoriaeth allweddol yn y DU, gan gynnwys ynni, seilwaith ac eiddo tiriog [Ebrill 2025].
- **Ymrwymiad o £12 biliwn gan Vantage Data Centers** i ehangu eu hôl troed ledled y DU, gan ddarparu 11,500 o swyddi [Ionawr 2025].
- **Buddsoddiad o £4 biliwn gan fusnesau YTL sy'n eiddo i Malaysia** dros y pum mlynedd nesaf, gyda thua £2 biliwn yn mynd at ddatblygiad Brabazon Bryste, gan ddarparu mwy na 30,000 o swyddi [Ionawr 2025].
- **£550 miliwn mewn ymrwymiadau buddsoddi effaith gan dri sefydliad ariannol mawr, Schroders, Man Group, a Resonance**, i ariannu'r gwaith o adeiladu o leiaf 5,000 o gartrefi newydd i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb cymdeithasol [Hydref 2024].

Diwygio caffael cyhoeddus

Byddwn yn:

- **Gweithredu mesurau diweddar i greu cyfundrefn symlach, fwy masnachol a thryloyw**, gan adeiladu ar Ddeddf Caffael 2023, a ddaeth i rym ym mis Chwefror 2025. Mae newidiadau i'r drefn yn cynnwys.
 - Datganiad Polisi Caffael Cenedlaethol newydd sy'n cyfarwyddo cyrff cyhoeddus i ystyried sut y gallant ddefnyddio caffael i gefnogi twf economaidd a'r Strategaeth Ddiwydiannol.
 - Dyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau contractio i ystyried sut y gallant gael gwared ar rwystrau i fusnesau bach gynnig am gontractau cyhoeddus.
 - Platfform ar-lein newydd sy'n cyhoeddi gweithgaredd caffael sydd ar ddod a chyfleoedd ar gyfer ymgysylltu cyn caffael i gyflenwyr sydd â diddordeb mewn cynnig.
 - Cryfhau gofynion i dalu contractwyr o fewn 30 diwrnod ledled cadwyn gyflenwi'r sector cyhoeddus
- **Mynd ymhellach i sicrhau bod caffael yn cefnogi ein blaenoriaethau Strategaeth Ddiwydiannol yn strategol** ac yn creu swyddi a sgiliau o ansawdd uchel yn ein cymunedau lleol, ac yn cefnogi sectorau sy'n hanfodol i ddiogelwch cenedlaethol Byddwn yn lansio ymgynghoriad cyhoeddus cyn bo hir ar sut y gallwn agor y contractau i roi mwy o bwyslais i gwmnïau a all ddangos y byddant yn rhoi hwb i swyddi Prydain, gan gynnwys drwy ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau contractio:
 - Gosod o leiaf un maen prawf dyfarnu mewn caffaeliadau mawr sy'n ymwneud ag ansawdd cyfraniad y cyflenwr at swyddi, cyfleoedd neu sgiliau.
 - Gosod o leiaf un Dangosydd Perfformiad Allweddol gwerth cymdeithasol sy'n ymwneud â swyddi, cyfleoedd neu sgiliau mewn contractau mawr ac adrodd yn rheolaidd ar gyflawni.
 - Gosod targedau tair blynedd ar gyfer gwariant caffael gyda BBaChau a mentrau cymdeithasol a chyhoeddi cynnydd bob blwyddyn.
 - Eithrio cyflenwyr rhag cynnig am gontractau mawr os nad ydynt yn talu eu hisgontractwyr yn brydlon.
- **Gosod targedau mwy uchelgeisiol ar gyfer yr IS-8 i hyrwyddo arloesi tynnu drwodd**, gan gynnwys trwy Hyb Arloesi Masnachol newydd, a fydd yn treialu dulliau newydd o ddylunio a chaffael gwasanaethau. Byddwn yn darparu signalau clir, hirdymor i gyflenwyr i gyflymu arloesi a chreu cyfleoedd buddsoddi. Er enghraifft, rydym yn targedu o leiaf 10% o gyllideb caffael offer y Weinyddiaeth Amddiffyn ar gyfer technolegau newydd.
- **Defnyddio'r Ganolfan Ragoriaeth Fasnachol Ddigidol newydd** yn y Llywodraeth ganolog, gan ddod ag arbenigedd digidol a masnachol at ei gilydd i'w gwneud hi'n bosibl prynu unwaith ac yn dda, ac i agor cyfleoedd i fusnesau bach weithio ar drawsnewid digidol yn y Llywodraeth.

Sicrhau bod busnesau a buddsoddwyr yn derbyn cymorth a phenderfyniadau amserol

Byddwn yn:

- **Darparu gwasanaeth gofawr o'r radd flaenaf i wneud y profiad o fuddsoddi yn y DU yn llyfn, yn gyflym ac yn ddeniadol.** Mae'r Swyddfa Buddsoddi (OfI), yr ydym wedi'i chryfhau'n sylweddol ac wedi'i hymgorffori yng nghanol y Llywodraeth fel uned a noddir ar y cyd gan HMT, DBT, a Rhif 10, bellach yn cael mwy o gefnogaeth i sicrhau bod y buddsoddwyr strategol pwysicaf yn yr IS-8 yn derbyn y gefnogaeth gryfaf bosibl: datrys problemau'n gyflym i ddadflocio problemau gyda chysylltiadau grid, cynllunio, safleoedd, neu sgiliau; gwneud penderfyniadau ystwyth ac eglurder ar flaenoriaethau a chyfeiriad polisi'r Llywodraeth; a chyd-greu cyfleoedd buddsoddi ochr yn ochr â Sefydliadau Ariannol Cyhoeddus y DU, arweinwyr cenedlaethol a rhanbarthol, a phartneriaid sector preifat i rannu risg.
- **Rhoi i fusnesau yn yr IS-8 pwyntiau mynediad cliriach i'r Llywodraeth** fel bod prif weithredwyr ac uwch arweinwyr busnes yn gwybod â phwy i siarad â nhw os bydd angen cymorth neu gyngor arnynt wedi'i deilwra ar gyfer anghenion y cwmni. Mae hyn yn cynnwys:
 - Pan fydd awydd gan ddiwydiant, ac y bydd yn cyd-fynd â'n rhaglen ehangach o ddiwygio'r sector cyhoeddus, byddwn yn archwilio sefydlu Swyddfeydd Sector pwrpasol i gefnogi'r IS-8 a chyd-gyflawni Cynlluniau Sector. Bydd y rhain yn adeiladu ar fodolau llwyddiannus megis y Swyddfa Gwyddorau Bywyd,

gan ddod â diddordebau ac arbenigedd polisi a chyflenwi ynghyd sydd ar hyn o bryd yn eistedd ar draws sawl adran, gan roi pwynt cyswllt cyntaf i fusnesau ymgysylltu ar unwaith, beth bynnag fo'u problem.

- Gwella ein cynnig cymorth i gwmnïau sy'n llywio amgylchedd byd-eang mwy heriol, ansicr gyda'n Canolfan Gadwyn Gyflenwi newydd, fel y nodir ym Mhennod 1 a gyda mwy o gymorth ychwanegol a nodir yn y Strategaeth Fasnach.
- **Gwneud cynigion cyflymach, mwy cystadleuol o gymorth** i fuddsoddwyr symudol byd-eang a chwmnïau o bwys strategol i'r DU. Rydym yn ail-wifrio gweithrediad cyflawni buddsoddi'r Llywodraeth i ddod yn bartner negodi mwy credadwy, ymatebol a ffocws, dan arweiniad yr OfI estynedig. Yn benodol:
 - Bydd y Gweinidog Buddsoddi, fel Prif Drafodwr Buddsoddi'r Llywodraeth, yn arwain y trafodaethau mwyaf cymhleth yn uniongyrchol, gyda mandad gan y Prif Weinidog a'r Canghellor i fwrw ymlaen â'r trafodaethau yn gyflym ac yn effeithlon.
 - Ar gyfer yr holl negodiadau, byddwn yn cytuno ar amserlen gyda phartneriaid trafod ar y dechrau, gyda Phwyllgor Buddsoddi newydd o uwch swyddogion y Llywodraeth sy'n gyfrifol am sicrhau bod cerrig milltir yn cael eu cyflawni.
- Mewn rhai o raglenni'r Llywodraeth rydym eisoes yn cymryd camau i gyflymu prosesau:

- Bydd DESNZ yn byrhau'r amser i ddyfarnu cymorth ar gyfer prosiectau cynhyrchu hydrogen;
 - mae'r Swyddfa Gwyddorau Bywyd yn cyflymu trafodaethau ar gyfer buddsoddiadau gwyddoniaeth dros £250 miliwn drwy gyflwyno Portffolio Buddsoddi Mawr Gwyddorau Bywyd, gan ddarparu eglurder ymlaen llaw i fuddsoddwyr ynghylch cynnig y DU ac ymgysylltu pwrpasol, strwythuredig trwy drafodaethau;
 - a bydd yr Adran Busnes a Masnach yn cyflymu ei hymagwedd at y gadwyn gyflenwi cerbydau allyriadau sero drwy'r rhaglen DRIVE35, gyda'r nod o ymateb yn ffurfiol i geisiadau cyllid cyfalaf o fewn 60 diwrnod gwaith, yn dilyn asesiad cais cyflawn.
- Rydym hefyd yn ystyried sut i symleiddio prosesau'r Llywodraeth ymhellach, er enghraifft trwy roi mwy o ymreolaeth i adrannau wrth weinyddu grantiau ac adolygu rhaglenni cyllido cymorth busnes ar gyfer sectorau IS i leihau rhwystrau i fynediad, gwella effeithlonrwydd, a monitro perfformiad.
 - **Adeiladu sgiliau masnachol yn y Llywodraeth** i roi hyder i'r diwydiant bod y swyddogion sy'n gyfrifol am ddatblygu polisi ac ymgysylltu â busnesau yn deall sut maen nhw'n gweithredu, eu gyrwyr a'u hanghenion, a sut a pham mae penderfyniadau buddsoddi yn cael eu gwneud. Bydd y Llywodraeth yn creu Academi Fusnes fewnol, wedi'i hategu gan fframwaith safonau newydd sy'n gosod disgwyliadau ar gyfer pob Gwas Sifil sy'n wynebu busnes o'r lefel mynediad i lefel arbenigol. Rydym hefyd yn cyflwyno ymagwedd newydd at leoliadau busnes, gan ei gwneud hi'n haws dod ag arbenigedd diwydiant i'r Llywodraeth ac i leoli Gweision Sifil yn y diwydiant am gyfnodau o hyd at flwyddyn. Er enghraifft, rydym wedi creu Hyb Cynghori Diplomyddol gyda Siambr Fasnach Prydain i leoli diplomyddion mewn BBaChau sy'n gweithredu ledled y byd.

Gweithredu Adolygiad Harrington

Mae Adolygiad annibynnol Harrington, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2023, yn nodi chwe phrif argymhelliad ar gyfer sut y gallai'r DU gynyddu FDI a buddsoddiad busnes i dyfu diwydiannau'r dyfodol. I weithredu pob un o'r chwech, rydym wedi:

1. **Gosod Strategaeth Buddsoddi Busnes glir** ar ffurf y Strategaeth Ddiwydiannol hon, gan nodi'r diwydiannau ffiniol y byddwn yn canolbwyntio arnynt a chydag uchelgais cyffredinol o gynyddu buddsoddi mewn wyth sector sy'n gyrru twf erbyn 2035.
2. **Sicrhau bod buddsoddi yn cael ei flaenoriaethu ar draws y Llywodraeth ganolog** trwy sefydlu Pwyllgor Gweinidogol newydd, Bwrdd OfI, dan gadeiryddiaeth y Gweinidog Buddsoddi a chyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys a Phrif Gynghorydd Busnes y Prif Weinidog yn aelodau craidd. Cefnogir hyn gan bwyllgor buddsoddi ar lefel swyddogion sy'n dod â phenaethiaid adrannau o bob rhan o'r Llywodraeth at ei gilydd, dan gadeiryddiaeth Ysgrifennydd Parhaol DBT.

3. **Ehangu ein cynnig seiliedig ar le i fuddsoddwyr** trwy'r mesurau a nodir ym Mhennod 2, gan gynnwys y Cyflymydd Safleoedd Strategol. Rydym hefyd wedi datblygu mentrau newydd penodol i gynnig arbenigedd ariannu a buddsoddi'r Ofl, y Gronfa Gyfoeth Wladol, Banc Busnes Prydain (BBB), a Chyllid Allforio'r DU (UKEF) i'r Llywodraethau datganoledig, y Meiri ac awdurdodau lleol ledled cenedloedd a rhanbarthau'r DU.
4. **Diwygio'r amgylchedd busnes**, fel y nodir ym Mhennod 1, ar ôl ymgysylltu'n helaeth â buddsoddwyr i ddeall y rhwystrau a'r heriau i fuddsoddi yn y DU.
5. **Adeiladu ar lwyddiant yr Ofl a rhoi offer cryfach iddo gystadlu'n rhyngwladol** trwy ehangu ei adnoddau a'i allu'n sylweddol, fel y nodir uchod.
6. **Datblygu cymhellion wedi'u targedu'n strategol gydag amserlenni ar gyfer gwneud penderfyniadau amserol**, wrth gydnabod bod mwy i'w wneud i sicrhau bod prosesau cyllido grant mor gystadleuol â phosibl yn rhyngwladol, fel y nodir uchod.

Gwella cymorth i fusnesau bach a chanolig

Bydd y Strategaeth Ddiwydiannol yn ei gwneud hi'n haws ac yn gyflymach i bob busnes weithredu yn y DU, gan gynnwys BBaChau, a fydd yn elwa o'r ystod o ddiwygiadau a nodir uchod, gan gynnwys gwell digideiddio mewn awdurdodau cynllunio lleol, a gwell mynediad at gyllid gan y BBB ac UKEF. Cyn cyhoeddi'r Strategaeth BBaChau yn ddiweddarach eleni, bydd y Llywodraeth hefyd yn:

- **Gwneud gwybodaeth hanfodol yn fwy hygyrch i fusnesau ar bob cam o'r cylch twf**, gyda rhyngwyneb digidol symlach a gwell. Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn:
 - **Cyflwyno Gwasanaeth Twf Busnes newydd yn haf 2025**. Bydd hyn yn cynnwys gwefan newydd i ddarparu

un platfform ar-lein lle gall busnesau ddod o hyd i bopeth y mae ei angen arnynt mewn un lle i'w helpu i ddechrau, ehangu, cynnal twf, allforio, buddsoddi, a chael mynediad at gymorth recriwtio gan DWP.

- **Archwilio estyniad o GOV.UK One Login**, gwasanaeth mewngofnodi sengl sy'n canolbwyntio'n bennaf ar ddinasyddion ond a allai gynnig rhyngwyneb mwy personol, sy'n cael ei yrru gan ddata i fusnesau, gan arbed amser ac arian iddynt.
- **Dileu cynnwys ar-lein sydd wedi dyddio neu sy'n anhygyrch**, gwella tudalennau gwe sy'n cael y traffig uchaf, ac ychwanegu gwell cynnwys cyfeirio i'w gwneud yn haws rheoli'r dirwedd.

- **Gwella ein Sgwrsfot AI GOV.UK**, a all fod mor ddefnyddiol â'r bensaerniaeth cynnwys a gwybodaeth y mae'n seiliedig arni.
- **Gwneud cynnwys rheoleiddiol ar GOV.UK yn haws i'w lywio**, fel ei fod yn darparu'r wybodaeth y mae ei hangen ar fusnesau er mwyn deall a chydymffurfio â rheoliadau, a dim ond yr achosion mwyaf cymhleth neu wreiddiol y bydd angen cymorth pwrpasol arnynt.
- **Gwella mynediad at gyngor a chymorth i BBaChau yn Lloegr drwy'r rhwydwaith o 41 o Hybiau Twf**, a ddarperir mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a'r sector preifat.
- **Parhau i fynd i'r afael â'r her o daliadau hwyr i BBaChau drwy:**
 - **Ymgymryd â diwygiadau sylweddol, gan gynnwys Cod Talu Teg newydd**, deddfwriaeth sydd ar ddod i fynnu bod cwmnïau mawr yn cynnwys eu hadroddiadau perfformiad taliadau mewn adroddiadau blynyddol, ac ymgynghoriad sydd ar ddod ar fesurau deddfwriaethol posibl i fynd ymhellach.
 - **Penodi Emma Jones CBE fel y Comisiynydd Busnesau Bach newydd**, yn weithredol o 23 Mehefin 2025. Bydd yr SBC yn chwarae rôl allweddol wrth fynd i'r afael â thaliadau hwyr a thelerau talu hir i fusnesau bach a'r hunangyflogedig, gan gynnwys drwy gyflwyno'r Cod Talu Teg newydd.
- **Cynnig eithrio cyflenwyr nad ydynt yn talu eu contractwyr ar amser o ystod ehangach o gontractau'r sector cyhoeddus**, gan ymestyn hyn y tu hwnt i gyrff y Llywodraeth ganolog, a phennu targedau ar gyfer gwariant uniongyrchol gyda BBaChau yn rhan o'n hymgyngoriad sydd ar ddod ar ddiwygiadau i gaffael cyhoeddus.
- **Helpu BBaChau i fabwysiadu technolegau newydd.** Lansiwyd y Tasglu Mabwysiadu Digidol BBaChau dan arweiniad y diwydiant ym mis Ebrill 2024 a bydd yn cyhoeddi ei adroddiad terfynol yr haf hwn. Rydym yn croesawu'r gwaith hwn a byddwn yn ystyried argymhellion yr adroddiad yn ofalus. Byddwn hefyd yn ehangu ledled Lloegr y rhaglen mabwysiadu technoleg Made Smarter ar gyfer BBaChau gweithgynhyrchu a chreu cynllun pwrpasol ar gyfer y sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes.
- **Cefnogi BBaChau i ddatgarboneiddio, gyda Hyb Hinsawdd Busnes y DU** yn darparu gwybodaeth, cyngor a chyfeiriad at wasanaethau'r sector preifat.

Sefydlu sefydliadau a Llywodraethu cryf o blaid twf

Byddwn yn:

- **Creu Cyngor Strategaeth Ddiwydiannol annibynnol (ISC) cryf, effeithiol a pharhaol.** Bydd hyn yn cael ei ymgorffori yn y gyfraith pan fydd amser seneddol yn caniatáu, gan roi canfyddiad a chyngor i'r Llywodraeth ar draws yr IS-8 (a dinas-ranbarthau a chlystyrau, yn ogystal â marchnadoedd rhyngwladol â blaenoriaeth). Bydd yn:

- Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar ei waith, yn ogystal â chyngor ad hoc a gomisiynir gan y Llywodraeth.
- Ymhen amser, gallu manteisio ar bwerau cyfreithiol newydd i gael mynediad at ddata a thystiolaeth o bob rhan o'r Llywodraeth i gefnogi ei gwaith parhaus.
- Cael ei bencadlys ym Manceinion o 2026, gydag ail bresenoldeb yn Llundain. O'r lleoliadau hyn bydd yr ISC yn adeiladu cysylltiadau cryf â sefydliadau a phartneriaid pwysig ledled y DU, gan gynnwys Llywodraethau datganoledig a Meiri.
- Cael cymorth gan ysgrifenyddiaeth estynedig sy'n cynnwys dadansoddwyr a gweithwyr proffesiynol polisi.
- **Trosglwyddo'r Uned Strategaeth Ddiwydiannol (ISU) yn yr Adran Busnes a Masnach yn uned gyflenwi barhaol** i gydlynu gweithredu a datblygu polisi pellach, gan weithio'n agos gyda'r Uned Menter a Thwf yn y Trysorlys.
- **Creu mecanweithiau Llywodraethu cadarn** i sicrhau bod ffocws cyson o fewn y Llywodraeth ar gefnogi'r IS-8, a bod ein Strategaeth Ddiwydiannol yn ddogfen fyw sy'n cefnogi gwneud penderfyniadau ystwyth mewn tirwedd sy'n newid. Bydd hyn yn cynnwys pensaernïaeth newydd gyda'n partneriaid, gan gynnwys:
 - Fforymau goruchwylio a gweithredu gyda Llywodraethau datganoledig ac Awdurdodau Strategol Maerol i gefnogi cyflawni'r strategaeth ar lefel leol ledled y DU.
 - Byrddau cyflenwi sy'n dwyn ynghyd adrannau ac asiantaethau sy'n gyfrifol am reoleiddio, cyllid cyhoeddus, arloesi a chaffael, gan gynnwys Bwrdd Cyflenwi IS dan gadeiryddiaeth DBT-HMT gyda phenaethiaid prif bartneriaid cyflenwi, gan gynnwys BBB, Prif Swyddog Gweithredol Ymchwil ac Arloesi'r DU, a'r Cyfarwyddwr Arfau Cenedlaethol.
- Tasglu newydd dan arweiniad y Gweinidogion sy'n dod â'r Llywodraeth, busnes ac asiantaethau cyhoeddus ynghyd i ganolbwyntio ar genhadaeth bwysig, megis gwneud y DU y lle gorau yn y byd i dyfu busnes.
- **Adolygu ein sefydliadau economaidd a'n Cyrff Hyd Braich i sicrhau eu bod wedi'u cyflyru i gyflawni'r Strategaeth Ddiwydiannol**, gan archwilio mandadau wedi'u hadnewyddu, atebolrwydd, Llywodraethu, canlyniadau mesuradwy a metrigau perfformiad i gefnogi blaenoriaethau'r Strategaeth Ddiwydiannol a'r IS-8.
- **Recriwtio 'Hyrwyddwyr Diwydiant' i chwistrellu dynameg, arloesi ac uchelgais i gyflawni'r Cynllun Sector.** Gan ddysgu o enghreifftiau llwyddiannus blaenorol, bydd yr aflonyddwyr busnes hyn yn gweithredu fel prif gynghorwyr ar bob Cynllun Sector, gan ddod ag arbenigedd ac arwain partneriaeth â diwydiant.

Bil Strategaeth Ddiwydiannol

Byddwn yn cyflwyno Bil Strategaeth Ddiwydiannol i weithredu mesurau sy'n gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol. Bydd hyn yn cynnwys darpariaethau i roi'r ISC ar sail statudol pan fydd amser seneddol yn caniatáu, gyda dyletswyddau a swyddogaethau wedi'u diffinio'n glir, sy'n tanlinellu ein hymrwymiad i sefydlogrwydd polisi, parhad, a chyflawni cynllun 10 mlynedd. Bydd deddfwriaeth hefyd yn galluogi'r ISC i gael mynediad at ddata'r Llywodraeth yn haws. Byddwn hefyd yn defnyddio'r Bil i ddeddfu ar gyfer mesurau ehangach yn y Strategaeth Ddiwydiannol, megis cefnogi busnesau gyda'u costau trydan.

Monitro effaith ac effeithiolrwydd ein polisïau

Byddwn yn:

- **Cefnogi monitro a gwerthuso cadarn a chynhwysfawr (M&E) o'r Strategaeth Ddiwydiannol**, a fydd yn cael ei oruchwylio gan ISAC. Bydd y Cyngor yn gweithio 'n agos gydag adrannau'r Llywodraeth a chyrrff cyhoeddus (megis rheoleiddwyr) sy'n gyfrifol am ddatblygu'r rhaglenni monitro a gwerthuso ar gyfer Cynlluniau a Pholisïau Sector unigol. Bydd ISAC yn cymryd dull sy'n seiliedig ar ddata i asesu cynnydd ar y Strategaeth Ddiwydiannol gyffredinol:
 - Data gweithredol ar gyflawni ac effaith polisïau, i fonitro cynnydd wrth gyflawni polisïau Strategaeth Ddiwydiannol unigol.
 - Dangosyddion economaidd ar lefel economi gyfan, sector a lle. Rydym wedi dewis chwe metrig craidd, sy'n adlewyrchu ystod o amcanion dymunol ar gyfer yr IS-8 a'r economi gyfan: buddsoddiad busnes, Gwerth

Ychwanegol Gros, twf cynhyrchiant, allforion masnach, canlyniadau'r farchnad lafur fel cyflogaeth a chyflogau, a nifer y busnesau 'cartref' newydd, mawr.

- Bydd ISAC yn nodi ei ganfyddiadau'n gyhoeddus, gan gynnwys yn ei adroddiad blynyddol, lle bydd hefyd yn rhoi barn ar sut y gallai'r Strategaeth Ddiwydiannol esblygu mewn ymateb i gynnydd cyflawni polisi a datblygiadau perthnasol yn economi'r DU.
- Mae rhagor o fanylion am fonitro a gwerthuso, gan gynnwys y 'llwybr effaith' sy'n cysylltu polisïau unigol â chanlyniadau yn y byd go iawn a nodau trosfwaol y Strategaeth Ddiwydiannol, wedi'u nodi yn yr Atodiad Technegol sy'n cyd-fynd â'r ddogfen



UK Government

E03387012

978-1-5286-5834-8